Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Drafftio Deddfau i Gymru:

## Canllaw

SWYDDFA'R CWNSLERIAID DEDDFWRIAETHOL
OFFICE OF THE LEGISLATIVE COUNSEL

# Rhagair– Cwnsler Cyffredinol Cymru



Deddfwriaeth yw'r cyfrwng a ddefnyddir i drosi polisi'r llywodraeth i reolau rhwymol sy'n llywodraethu pob un ohonom. Er mwyn cyflawni ei phwrpas, rhaid i ddeddfwriaeth adlewyrchu'n gywir ddiben y polisi a rhaid iddi gael ei chyfleu'n glir fel bod modd iddi gael ei deall gan y rhai y mae'n effeithio arnynt.

Mae deddfwriaeth yn aml yn cyfleu cysyniadau cymhleth, sydd wedi eu gosod mewn cyd-destun cymhleth, ac yn gyffredinol bydd yn rhagnodi canlyniadau difrifol os methir â chydymffurfio â'i gofynion. Mae'r ffordd y caiff deddfwriaeth ei drafftio, felly, yn bwysig. Mae cyfleu newidiadau yn y gyfraith mor gryno ac mor glir ag y mae'r pwnc yn ei ganiatáu, gan osgoi bylchau neu ansicrwydd, yn sgil arbenigol – ac er gwaethaf y ffaith bod ein Cynulliad Cenedlaethol yn un o ddeddfwrfeydd mwyaf newydd y byd, mae swyddfa ddrafftio Llywodraeth Cymru eisoes yn magu enw da am ragoriaeth.

Mae llunio cyfreithiau newydd sydd wedi eu drafftio'n dda yn rhan hollbwysig o nod hirdymor Llywodraeth Cymru i ddatblygu llyfr statud i Gymru sy'n hygyrch, modern a dwyieithog. Anelwn at ddod â threfn i'r statudau maith a gwasgaredig er mwyn galluogi pobl Cymru i ddeall eu hawliau a'u cyfrifoldebau. Mae hygyrchedd ein deddfwriaeth yn hanfodol i reolaeth y gyfraith, i'n hawdurdodaeth gyfreithiol ddatblygol ac i'n democratiaeth.

Wrth rannu'r canllawiau hyn, rwy'n gobeithio y bydd y broses o ddrafftio deddfwriaeth yn cael ei deall yn well gan bawb, yn enwedig y Cynulliad Cenedlaethol, y farnwriaeth, a'r gymuned gyfreithiol ehangach, y mae effaith y broses honno mor bwysig iddynt.

**Jeremy Miles AC**

OGL © Hawlfraint y Goron 2019 WG38666 ISBN digidol: 978-1-83933-329-3

# Cyflwyniad – Prif Gwnsler Deddfwriaethol



Celfyddyd ac nid mater o wyddoniaeth yw drafftio deddfwriaeth, ac mae pob sefyllfa newydd yn gofyn am ddatrysiad pwrpasol. Ond mae egwyddorion arweiniol y mae pob drafftiwr yn eu dilyn ac mae osgoi anghysondebau diangen yn rhinwedd hefyd. Oherwydd hynny mae Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol wedi llunio'r canllawiau hyn. Nid yw'r hyn sy'n dilyn yn arweiniad ynglŷn â sut i ddrafftio Bil nac ynghylch sut i ddehongli statudau. Mae'n gasgliad o'r canllawiau mewnol y mae'r cwnsleriaid seneddol yn eu defnyddio wrth ddrafftio Biliau i Lywodraeth Cymru. Ei brif ddiben yw caniatáu i ddrafftwyr ddod â rhywfaint o gydlyniant a chysondeb i Lyfr Statud Cymru yn gyffredinol, gyda golwg ar helpu defnyddwyr deddfwriaeth i'w deall yn well.

Mae Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol wedi bod yn drafftio Mesurau a Deddfau'r Cynulliad Cenedlaethol am dros 10 mlynedd ac rydym yn ymdrechu bob amser i ddrafftio cyfraith glir, effeithiol a hygyrch yn Gymraeg a Saesneg. Rydym wedi cronni cyfoeth o brofiad ac arbenigedd deddfwriaethol ac wedi dechrau dal ein gwybodaeth a'i rhannu ymhlith aelodau'r swyddfa ddrafftio a chydag eraill sy'n ymwneud â drafftio deddfwriaeth i Gymru neu sy'n ymddiddori yn y drafftio hwnnw.

Mae mwy a mwy o bobl bellach yn cyrchu deddfwriaeth, a statudau yw'r rhai y chwilir amdanynt ac a ddarllenir yn amlaf ar-lein. Gan fod llai o gyngor cyfreithiol ar gael, mae mwy o bwysau nag erioed ar ddrafftwyr i wneud y gyfraith yn haws i bobl chwilio eu ffordd drwyddi a'i darllen. Nid drwy hap a damwain y mae ysgrifennu clir ac effeithiol yn digwydd ac mae'n golygu llawer mwy na dim ond defnyddio geiriau ac ymadroddion dealladwy. Ceisiwn lunio deddfwriaeth sy'n blaen ac yn uniongyrchol ac sy'n "dweud yr hanes" yn rhesymegol ac yn gryno. Mae llawer o feddwl am y geiriau a ddefnyddir, ym mha drefn y'u defnyddir, ac am gynllun a strwythur cyffredinol y ddogfen. Wrth wneud hyn, ceisiwn ystyried yr arbenigedd diweddaraf ar ieithyddiaeth a'r ffordd y mae pobl yn darllen ac yn cyrchu deddfwriaeth. Nod cyffredin sy'n sail i'n gwaith yw rhoi defnyddiwr y ddeddfwriaeth yn gyntaf drwy ei gwneud hi mor hawdd â phosibl i'w deall.

Braint fawr yw bod yn gyfrifol am helpu i ffurfio cyfraith Cymru. Rydym yn gobeithio y bydd rhannu'r llawlyfr drafftio hwn yn rhoi rhywfaint o oleuni ar sut y mae Bil yn cael ei baratoi ac y bydd yn sbarduno sylwadau ar ein hymagwedd at ddrafftio deddfwriaeth ac awgrymiadau ynglŷn â sut y dylem barhau i wella ansawdd cyfraith Cymru. Mae drafftio deddfwriaeth yn weithgaredd creadigol ac mae angen i gwnsleriaid deddfwriaethol fod yn rhydd i ddatblygu ac addasu arferion drafftio i sicrhau bod deddfwriaeth fodern yn parhau i wella ac addasu yn ôl anghenion y rhai sy'n ei defnyddio. Mae'n canllawiau yn cael eu hadolygu'n gyson ac rydym yn gobeithio ymgysylltu ag eraill a'u cynnwys i'n helpu i ddatblygu ffyrdd newydd o wneud ein cyfreithiau yn fwy hygyrch.

**Dylan Hughes**

# Cynnwys

1 Rhagymadrodd
Tudalen 5

2 Trefniadaeth a strwythur
Tudalen 7

3 Iaith ac arddull
Tudalen 15

4 Diffinio
Tudalen 33

5 Croesgyfeirio a'r berthynas rhwng darpariaethau
Tudalen 42

6 Enwau a chyfeiriadau statudol
Tudalen 46

7 Diddymu a diwygio
Tudalen 61

8 Cyfnodau amser
Tudalen 79

9 Pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth ac i roi cyfarwyddydau
Tudalen 84

10 Darpariaethau cyffredinol Deddfau'r Cynulliad
Tudalen 92

Atodiad – Deunydd darllen
Tudalen 98

# Pennod 1: Rhagymadrodd

## 1.1 Defnyddio'r canllawiau hyn

(1) Mae'r ddogfen hon yn nodi'r prif egwyddorion a thechnegau y mae Llywodraeth Cymru'n eu defnyddio wrth ddrafftio deddfwriaeth. Prif fwriad y canllawiau yw cynnig arweiniad i'r swyddogion a ganlyn yn Llywodraeth Cymru:

- aelodau Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol sy'n drafftio Biliau'r Cynulliad;
- cyfreithwyr a swyddogion eraill sy'n drafftio offerynnau statudol Cymru;
- cyfieithwyr deddfwriaeth a golygyddion testunau deddfwriaeth.

(2) Rydym yn gobeithio y bydd yn adnodd buddiol hefyd i bobl eraill sy'n ymwneud â llunio Biliau'r Cynulliad ac is-ddeddfwriaeth Cymru neu sy'n craffu arnynt, ac i unrhyw un sydd â diddordeb i ddeall sut mae deddfwriaeth Cymru'n cael ei drafftio.

(3) Bwriad y canllawiau yw hybu cysondeb wrth ddrafftio deddfwriaeth. Gan hynny, gofynnir i'r holl swyddogion yn Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â pharatoi deddfwriaeth roi sylw iddynt. Ond, ni ddylai'r canllawiau gael eu dilyn yn gaeth ym mhob achos; rhaid i'r drafftwyr feddwl yn ofalus ac yn greadigol am y ffordd orau i ateb yr heriau drafftio sy'n codi ym mhob prosiect, a phenderfynu pa dechneg ddrafftio fydd yn rhoi ei effaith i'r polisi yn y modd cliriaf posibl.

## 1.2 Yr egwyddorion allweddol sy'n sail i'r canllawiau

(1) Rhaid i ddeddfwriaeth fod yn effeithiol, ond dylai fod mor glir â phosibl hefyd. Mae'r canllawiau'n disgrifio'r amryw o dechnegau y gall drafftwyr eu defnyddio i helpu i lunio deddfwriaeth gliriach. Mae eglurder yn ymwneud â sicrhau ei bod yn hawdd i'r darllenwyr ddeall yr hyn sy'n cael ei ddweud, ac fe fydd trefniadaeth y deunydd a'r geiriau a ddefnyddir yn effeithio ar eglurder.

(2) Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i wella hygyrchedd cyfreithiau Cymru, a bydd Rhan 1 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraethau'r dyfodol baratoi rhaglenni yn nodi sut y maent yn bwriadu gwella hygyrchedd. Mae Deddf 2019 yn egluro bod "hygyrchedd" yn cynnwys i ba raddau y mae'r gyfraith wedi ei threfnu'n glir ac yn rhesymegol, yn hawdd ei deall ac yn sicr o ran ei heffaith. Gan hynny, bydd sicrhau bod deddfwriaeth Cymru wedi ei hysgrifennu'n glir yn chwarae rhan bwysig o ran hybu hygyrchedd, ac fe allai fod yn rhan o raglenni o dan y Ddeddf.

(3) Mae'r canllawiau hyn yn cynghori drafftwyr i anelu at strwythur ac iaith syml. Er hynny, gall fod tyndra rhwng symlrwydd a manwl-gywirdeb (sef sicrhau bod effaith gyfreithiol y ddeddfwriaeth yn ddiamwys). Bydd angen i ddrafftwyr ddefnyddio'u profiad a'u crebwyll, a thynnu ar brofiad a chrebwyll eu cydweithwyr, wrth benderfynu sut i daro'r cydbwysedd cywir.

(4) Wrth ystyried y materion hyn, dylai drafftwyr gael eu harwain gan fuddiannau darllenwyr y ddeddfwriaeth, gan gadw mewn cof y bydd nifer o wahanol gynulleidfaoedd ac y gall anghenion y naill grŵp o ddarllenwyr fod yn bur wahanol i anghenion grŵp arall. Gall y grwpiau hyn gynnwys unigolion y bydd y ddeddfwriaeth yn effeithio arnynt, cyrff cyhoeddus a fydd yn ei gweinyddu, cyfreithwyr a fydd yn cynghori ar ei hystyr, llysoedd y gall fod yn ofynnol iddynt benderfynu ar anghydfodau odani, deddfwyr a phartïon eraill sydd â buddiannau ynddi.

(5) Heblaw ychydig yn unig o eithriadau, bydd deddfwriaeth a wneir gan y Cynulliad Cenedlaethol a Llywodraeth Cymru yn cael ei gwneud yn ddwyieithog yn Gymraeg a Saesneg. Mae i'r ddau destun mewn deddfwriaeth Gymreig ddwyieithog yr un statws i bob diben[1]. Mae hyn yn gofyn am fwy byth o ofal wrth lunio'r ddeddfwriaeth. Rhaid i'r ddau destun greu'r un effaith, a hynny mewn modd sy'n parchu cystrawennau a phriod-ddulliau'r naill iaith a'r llall ar yr un pryd.

1 Gweler adran 5 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 (sy'n ailddatgan adran 156(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

A rhaid i'r ddau destun fynegi'r effaith honno'n glir, heb ddibynnu ar y testun arall i ddatrys amwysedd.

## 1.3 Statws y ddogfen hon

(1) Mae'r canllawiau hyn wedi eu paratoi gan Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol. Bwriad yr argraffiad hwn yw nodi ymagwedd Llywodraeth Cymru at ddrafftio deddfwriaeth fel y mae yn hydref 2019.

(2) Nid yw'r canllawiau wedi eu bwriadu i fod yn ymdriniaeth gynhwysfawr o ddrafftio deddfwriaeth. Ceir corff sylweddol o lenyddiaeth ar ysgrifennu cyfreithiol a drafftio deddfwriaeth, ac mae'r Atodiad yn cynnwys rhestr o gyhoeddiadau a allai fod yn fuddiol i'r darllenwyr.

(3) Mae'r argraffiad hwn yn cymryd i ystyriaeth y newidiadau a wnaed gan Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019, gan gynnwys y darpariaethau yn Rhan 2 o'r Ddeddf ynghylch dehongli a gweithredu Deddfau'r Cynulliad ac is-offerynnau Cymru[2]. Y bwriad yw y bydd y darpariaethau hynny yn gymwys i Ddeddfau sy'n cael y Cydsyniad Brenhinol ar neu ar ôl 1 Ionawr 2020, ac offerynnau a wneir o'r dyddiad hwnnw ymlaen.[3] Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi canllawiau ar oblygiadau'r Ddeddf cyn hynny.

(4) Mae'r argraffiad hwn o'r canllawiau yn cyfeirio mewn nifer o fannau at ddeddfwriaeth Ewropeaidd a ddargedwir fel rhan o'r gyfraith ddomestig pan fydd y Deyrnas Unedig yn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd. Mae'r canllawiau'n adlewyrchu'r sefyllfa o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, ond mae'r sefyllfa honno'n debygol o gael ei haddasu os ceir cytundeb ar delerau ymadawiad y Deyrnas Unedig.

(5) Caiff y ddogfen hon ei diwygio a'i hailgyhoeddi o dro i dro. Os oes gennych unrhyw sylwadau ar y canllawiau, neu awgrymiadau ynglŷn ag ychwanegu atynt, anfonwch nhw at:

Dylan Hughes, Y Prif Gwnsler Deddfwriaethol – **CwnsleriaidDeddfwriaethol@Llyw.Cymru**

2 Diffinnir "is-offeryn Cymreig" yn adran 3(2) o Ddeddf 2019, ac mae'n cynnwys bron y cyfan o'r is-ddeddfwriaeth a wneir gan Weinidogion Cymru ac awdurdodau Cymreig datganoledig eraill. I gael trafodaeth fanwl, gweler paragraffau 37 i 46 o'r Nodiadau Esboniadol i Ddeddf 2019.

3 Os ydych yn paratoi deddfwriaeth a gaiff ei deddfu cyn 2020, Deddf Dehongli 1978 a fydd yn gymwys yn hytrach na Rhan 2 o Ddeddf 2019. Mae paragraff 7.29 o'r canllawiau hyn yn nodi rhai o'r prif wahaniaethau rhwng y ddwy Ddeddf, ac mae Nodiadau Esboniadol Deddf 2019 yn eu disgrifio'n fanylach.

# Pennod 2: Trefniadaeth a strwythur

## 2.1 Trosolwg o'r Bennod

(1) Gall trefniadaeth Deddf neu offeryn statudol chwarae rhan bwysig i helpu'r darllenwyr i ganfod a deall y deunydd sy'n berthnasol iddynt. Mae'r Bennod hon yn ymwneud â strwythuro deunydd deddfwriaethol mewn ffyrdd sy'n glir ac yn ddefnyddiol i'r darllenwyr. Mae'n cynnwys canllawiau ar ddefnyddio penawdau, trosolygon ac Atodlenni, ar rannu deunydd rhwng darpariaethau megis adrannau a pharagraffau, ac ar ffyrdd eraill o gyflwyno deunydd, megis tablau a fformiwlâu.

(2) Gweler Pennod 6 i gael canllawiau manwl ar y mathau o ddarpariaeth y gellir rhannu Deddfau ac is-ddeddfwriaeth iddynt a sut i gyfeirio at y darpariaethau hynny. Gweler Pennod 10 i gael canllawiau ar y confensiynau sy'n llywodraethu lleoliad darpariaethau ynglŷn â materion cyffredinol a thechnegol yn Neddfau'r Cynulliad, megis enw'r Ddeddf a pha bryd y mae'n dod i rym.

## 2.2 Adrodd y stori

(1) Dylai Deddf neu offeryn statudol adrodd ei stori mewn ffordd glir a rhesymegol. Meddyliwch yn ofalus am yr hyn y mae angen i ddarllenwyr y ddeddfwriaeth ei wybod, ac ym mha drefn y byddant yn dymuno'i wybod. Cofiwch y gall darllenwyr gwahanol fod â diddordeb mewn agweddau gwahanol ar y stori. Efallai, felly, y bydd angen cydbwyso diddordebau gwahanol wrth ichi weithio allan sut i gyflwyno'r stori.

(2) Mae'r ffordd y caiff deddfwriaeth ei strwythuro yn bwysig wrth adrodd y stori. Dylai'r deunydd gael ei drefnu fel bod gosodiadau diweddarach yn adeiladu ar y rhai cynharach. Mae'r technegau a all helpu i adrodd y stori yn cynnwys:

(a) ymdrin â materion o bwys a sylwedd o flaen materion gweinyddol a gweithdrefnol;

(b) gosod darpariaethau sydd i'w cymhwyso'n eang neu'n gyffredinol o flaen darpariaethau ynghylch achosion arbennig neu eithriadau;

(c) grwpio darpariaethau gyda'i gilydd os ydynt yn ymwneud â'r un pwnc neu'n nodi cysyniadau cysylltiedig;

(d) trefnu darpariaethau mewn trefn gronolegol (er enghraifft, gallai darpariaethau sy'n sefydlu system drwyddedu ymdrin yn eu tro â'r cais am drwydded, y penderfyniad i ddyroddi'r drwydded, amodau'r drwydded, ei hadnewyddu a'i dirymu).

(3) Dylech arddel ymagwedd gyson at drefnu deunydd drwy gydol y ddeddfwriaeth, gan ddefnyddio strwythurau tebyg ar gyfer darpariaethau sy'n mynegi syniadau tebyg neu sy'n gwneud pethau tebyg.

## 2.3 Rhaniadau a Phenawdau

(1) Mae Penderfyniad y Llywydd o ran Ffurf Briodol Biliau Cyhoeddus ar gyfer Deddfau'r Cynulliad yn gofyn bod Bil yn cynnwys adrannau sydd wedi eu rhifo, ynghyd ag Atodlenni i'w hategu lle bo'n briodol. Yn yr un modd, bydd corff offeryn statudol yn cynnwys rheoliadau, rheolau neu erthyglau, a all gael eu dilyn gan un neu fwy o Atodlenni. Gall corff Bil neu offeryn, ac Atodlen, gael ei rannu'n Rhannau. Yn ei thro, gall Rhan gael ei rhannu'n Benodau.

(2) Mae Penderfyniad y Llywydd yn gofyn bod rhaid i bob Rhan, Pennod, adran ac Atodlen mewn Bil gael pennawd disgrifiadol byr. Dylai'r rhaniadau cyfatebol mewn offerynnau statudol fod â phenawdau hefyd.

(3) Gallwch helpu darllenwyr eich deddfwriaeth drwy'r modd y byddwch yn ei rhannu'n Rhannau, Penodau, adrannau, rheoliadau etc. a thrwy'r penawdau y byddwch yn eu defnyddio ar y rhain. Gall y penawdau ddangos y berthynas rhwng darpariaethau a bod yn llyw defnyddiol

i'r darllenydd. Er hynny, ceisiwch beidio â gorddefnyddio Rhannau a Phenodau, gan fod gormod o raniadau a phenawdau yn gallu tynnu sylw.

(4) Gall darpariaethau gael eu grwpio hefyd o dan benawdau italig sy'n disgrifio'u pwnc, naill ai mewn Rhannau neu Benodau, neu mewn Biliau neu offerynnau sydd heb Rannau. Os ydych yn teimlo y byddai ychwanegu penawdau yn helpu darllenwyr eich deddfwriaeth, ystyriwch a fyddai'n ddigon defnyddio'r math hwn o bennawd italig.

(5) Dylai penawdau adrannau, rheoliadau, rheolau ac erthyglau roi arwydd mor llawn â phosibl o'r cynnwys, ond dylid eu cadw'n rhesymol fyr. Does dim angen iddynt ailadrodd gwaith pennawd Rhan neu Bennod, ac yn gyffredinol ni ddylent redeg i ddwy linell.

(6) Os nad oes ffordd amlwg i grynhoi cynnwys rhaniad penodol o'r ddeddfwriaeth mewn pennawd, efallai fod hynny'n awgrymu y byddai'n well ei rannu neu ei gyfuno â rhaniad arall. At ei gilydd, dylai rhaniad y deunydd ddilyn rhaniad y meddwl.

(7) Mae yna berthynas rhwng penawdau a'i gilydd, nid yn unig â'r darpariaethau a ddisgrifir. Dylai'r tabl cynnwys roi amlinelliad o'r stori. Wrth i'r drafft ddatblygu, ewch yn ôl yn gyson i'r tabl cynnwys i sicrhau ei fod yn dal yn ddilys.

## 2.4 Trosolygon

(1) Ffordd arall i helpu darllenwyr i symud o gwmpas darn o ddeddfwriaeth yw cynnwys trosolwg. Dyma ddarpariaeth ar ddechrau Deddf neu offeryn (neu ar ddechrau Rhan, Pennod neu Atodlen) sy'n crynhoi ac yn ac esbonio beth sy'n dilyn.

(2) Mae trosolygon wedi eu cynnwys yn y mwyafrif o Ddeddfau'r Cynulliad, ond ystyriwch bob amser a fyddant yn ddefnyddiol i'r darllenwyr. Does dim angen trosolwg os oes darlun clir eisoes yn y tabl cynnwys (neu yn enw hir Deddf neu yn nodyn esboniadol offeryn statudol).

(3) Mae trosolwg o ddarn cyfan o ddeddfwriaeth yn fwyaf tebygol o fod yn ddefnyddiol mewn Deddf neu offeryn mawr lle na all y darllenydd gael syniad clir o'r hyn y mae'n ei wneud o'r tabl cynnwys. Gall trosolwg roi crynodeb byrrach, a mynd ymhellach na'r tabl cynnwys drwy fanylu ar brif themâu'r ddeddfwriaeth a'r berthynas rhwng darpariaethau (gweler, er enghraifft, Ran 1 o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016).

(4) Er hynny, does dim rheswm o ran egwyddor pam na ddylid cynnwys trosolwg mewn Deddf neu offeryn o unrhyw faint os byddai hynny'n ddefnyddiol. Er enghraifft, gallai trosolwg egluro sut mae deddfwriaeth newydd yn ffitio i'r dirwedd bresennol drwy gyfeirio at ddeddfwriaeth berthnasol arall (fel yn adran 1(11) o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018).

(5) Does dim bwriad fel arfer i drosolwg greu effaith weithredol (yn wahanol i adran diben y gellir ei defnyddio i effeithio ar ddehongli darpariaethau eraill). Ond nid yw hynny'n golygu na fyddai llys yn rhoi ystyriaeth i drosolwg wrth ddehongli'r ddeddfwriaeth[4], felly mae'n bwysig sicrhau ei fod yn gywir. Mae angen gofal ychwanegol os bydd trosolwg yn gwneud mwy na dim ond amlinellu'r cynnwys, gan ddisgrifio neu esbonio sut mae'r ddeddfwriaeth yn gweithredu.

(6) Yn aml bydd trosolwg yn llenwi ei adran ei hun, ond weithiau gall fod yn gyfleus cynnwys darpariaethau ynglŷn â dehongli neu gymhwyso'r ddeddfwriaeth yn yr un adran. Byddwch yn ofalus i beidio â chamarwain y darllenwyr: os oes deunydd gweithredol wedi ei gynnwys, gallai "cyflwyniad" fod yn bennawd gwell na "trosolwg".

(7) Wrth ddiwygio darn o ddeddfwriaeth sydd â throsolwg, ystyriwch a oes angen i'r trosolwg gael ei ddiwygio hefyd.

---

4 Yn y cyfeiriad sy'n ymwneud â Bil Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) [2013] 1 AC 793, [2012] UKSC 53, cyfeiriodd yr Arglwydd Neuberger at y trosolwg wrth ystyried a oedd y Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad, gan ddisgrifio'r adran honno fel un a oedd yn esbonio diben y Bil.

## 2.5 Atodlenni

(1) Gall Atodlenni fod yn ddefnyddiol at nodi deunydd a fyddai, fel arall, mewn perygl o gymylu'r brif stori. Ond ni fyddant bob amser yn helpu'r darllenydd, am fod symud deunydd i Atodlen yng nghefn y ddeddfwriaeth yn gallu darnio'r stori.

(2) Gall Atodlen fod yn lle defnyddiol i osod:

- darpariaeth dechnegol nad yw'n debygol o fod o ddiddordeb i lawer o ddarllenwyr;
- deunyddiau maith sy'n gwyro rywy ychydig oddi ar y brif stori;
- diddymiadau neu ddirymiadau;
- cyfresi hir o fân ddiwygiadau i'r testun;
- tablau mawr a rhestrau maith iawn;
- testun cytuniadau.

(3) Gall Atodlen fod yn barhad o ddarpariaeth yng nghorff y ddeddfwriaeth. Er enghraifft, mae adran 143(1) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn diffinio swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol awdurdod lleol fel ei swyddogaethau o dan y deddfiadau a restrir yn Atodlen 2, ac mae Atodlen 2 yn rhestru'r deddfiadau. Does dim angen rhagor o gyflwyniad i'r math hwn o Atodlen.

(4) Fel arall, fe all Atodlen gynnwys darpariaethau sy'n sefyll ar eu traed eu hunain. Bydd angen i'r math hwn o Atodlen gael ei gyflwyno gan ddarpariaeth yng nghorff y ddeddfwriaeth i ddweud wrth y darllenydd ei bod yno ac i ddynodi ei chynnwys. Pan fo'r ddeddfwriaeth wedi ei rhannu'n Rhannau a Phenodau, lleoliad y ddarpariaeth sy'n cyflwyno'r Atodlen fydd yn penderfynu i ba Ran neu Bennod y mae'n perthyn.

(5) Dylai'r ddarpariaeth sy'n cyflwyno'r Atodlen ymddangos yn yr adran (neu'r rheol, y rheoliad neu'r erthygl) y mae'r Atodlen yn perthyn agosaf iddi; ac os nad oes adran arall y mae'r Atodlen yn perthyn yn agos iddi, dylai gael ei chyflwyno gan adran ar wahân.

(6) Dylai'r geiriad rhagarweiniol roi disgrifiad cywir o'r hyn y mae'r Atodlen yn ei wneud ac ymdrin â phopeth ynddi, i helpu'r darllenydd i symud drwy'r ddogfen. Er enghraifft:

> Mae Atodlen 1 yn gwneud darpariaeth ynghylch sancsiynau sifil.
>
> Mae Atodlen 2 yn cynnwys mân ddiwygiadau, diwygiadau canlyniadol a diddymiadau.

(7) Peidiwch â dweud bod Atodlen "yn cael effaith": mae iddi effaith pa un a oes darpariaeth yng nghorff y Ddeddf neu'r offeryn sy'n dweud hynny ai peidio.

(8) I gael rhagor o ganllawiau ar Atodlenni ac ynddynt ddiwygiadau a dirymiadau, gweler paragraff 7.6.

## 2.6 Adrannau, rheoliadau, rheolau ac erthyglau

(1) Dylai pob adran, rheoliad, rheol neu erthygl fod yn set gydlynol o ddarpariaethau ar yr un pwnc, gan ddatgan y prif osodiad cyn gynted â phosibl. Os oes modd, dylent ddechrau â'r prif osodiad neu â darpariaeth sy'n nodi'r pwnc.

(2) Fel rheol bydd pob brawddeg yn ddarpariaeth â rhif ar wahân. Felly, mewn adran sy'n cynnwys mwy nag un frawddeg, bydd pob brawddeg fel arfer yn is-adran ar wahân; ac mae rheoliad, erthygl neu reol sy'n cynnwys mwy nag un frawddeg fel arfer yn cael eu rhannu'n baragraffau.

(3) Er hynny, does dim rheol bendant yn erbyn cael mwy nag un frawddeg mewn darpariaeth sydd ag un rhif. Gall ail frawddeg fod yn briodol pan geir cysylltiad arbennig o agos rhwng dau osodiad, neu pan fo'r ail bwynt yn ôl-ystyriaeth yn unig i'r cyntaf (nes y byddai ei osod mewn darpariaeth ar wahân yn rhoi gormod o bwyslais arno).

(4) Fel arall, weithiau gall fod yn fwy hwylus nodi cyfres o osodiadau o dan is-benawdau o fewn un is-adran. (Gweler paragraff 2.13 ar ddatganiadau dull a rhestrau tebyg.)

(5) Ni ddylai adran gynnwys gormod o is-adrannau; ac ni ddylai rheoliad, rheol neu erthygl gynnwys gormod o baragraffau. Fel rheol gyffredinol, mae'n debyg ei bod yn well peidio â mynd y tu hwnt i ryw 10 o is-raniadau neu un tudalen llawn o destun. Ond, mater o farn yw hyn: gall un adran hir sy'n adrodd stori hunangynhwysol fod yn haws i'r darllenydd na dwy neu fwy o adrannau byrrach.

## 2.7 Paragraffu

(1) Mae'n bosibl gwneud brawddeg yn haws i'w threulio drwy wahanu'r testun yn baragraffau neu is-baragraffau â rhifau (a), (b), (c) etc. Gall hyn fod yn arbennig o ddefnyddiol os yw'r frawddeg yn cynnwys nifer o amodau neu eithriadau, bob un yn eithaf cymhleth ei hunan. Er enghraifft:

> Ni chaiff ACC gymeradwyo cyflawni gwaith adfer ar safle tirlenwi awdurdodedig onid yw—
> (a) gweithredwr y safle yn gwneud cais ysgrifenedig i ACC am y gymeradwyaeth,
> (b) y cais yn cael ei wneud cyn i'r gwaith adfer ddechrau, ac
> (c) ACC wedi ei fodloni bod y gwaith yn ofynnol o dan un o amodau trwydded amgylcheddol neu ganiatâd cynllunio sy'n ymwneud â'r safle.

(2) Ond gofalwch beidio â'i gor-wneud hi wrth baragraffu. Mae rhannu pethau yn golygu bod angen i'r darllenwyr eu rhoi yn ôl at ei gilydd, a gall paragraffau byr iawn groesdynnu. O dan rai amgylchiadau, efallai y byddai'n well cael testun parhaus.

(3) Defnyddiwch is-baragraffau neu baragraffau â'r rhifau (i), (ii), (iii) etc. yn gynnil, a pheidiwch â mynd yn is na'r lefel honno.

(4) Dylai pob un o'r paragraffau mewn rhestr fod â'r un berthynas â'r geiriau sy'n eu cyflwyno, a dylent fod yn yr un ffurf ramadegol. Wrth ddrafftio yn Saesneg, ceisiwch osgoi cymysgedd o baragraffau sy'n cynnwys gosodiadau cadarnhaol a negyddol, neu baragraffau sy'n rhoi pwerau ac sy'n gosod dyletswyddau (megis *"the Welsh Ministers – (a) may do X; (b) must not do Y"*). Gall y math hwn o gymysgedd fod yn anodd ei ddarllen, a gall arwain yn arbennig at eiriad lletchwith yn y testun Cymraeg, gan mai'r ferf ac nid y goddrych a geir ar ddechrau brawddeg Gymraeg.

(5) Mae paragraffau'n cael eu rhifo gan ddefnyddio'r wyddor Saesneg yn y testunau Cymraeg a Saesneg. Felly, mae paragraff (c) yn cael ei ddilyn gan baragraffau (d), (e) ac (f) yn hytrach na pharagraffau (ch), (d) ac (dd).[5]

(6) Nid yw'n angenrheidiol bod gan baragraffau lythrennau neu rifau. Paragraffau heb rifau yw rhestrau o ddiffiniadau fel arfer, a gall y dull hwn weithiau fod yn briodol ar gyfer rhestrau eraill, er enghraifft os yw'r rhestr a'r cofnodion unigol yn gymharol fyr.

(7) Dylai paragraffau a gysylltir gan gysylltair orffen â choma. Dylai paragraffau sydd heb eu cysylltu gan gysylltair orffen â hanner colon.

5 Ceir ambell eithriad. Mae'r amryfal setiau o Reoliadau Safonau'r Gymraeg a wnaed o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 wedi eu rhifo yn ôl yr wyddor Gymraeg yn y testunau Cymraeg a Saesneg.

## 2.8 Darpariaethau “brechdan” a setiau dwbl o baragraffau

(1) Darpariaeth “frechdan” yw un lle mae rhywfaint o destun rhagarweiniol yn cael ei ddilyn gan gyfres o baragraffau, ac wedyn rhagor o destun ar ôl y paragraffau. Er enghraifft:

> Caiff ACC awdurdodi—
> (a) aelod o ACC,
> (b) pwyllgor o ACC neu is-bwyllgor o bwyllgor o’r fath, neu
> (c) prif weithredwr ACC neu unrhyw aelod arall o staff ACC,
> i gyflawni unrhyw un neu ragor o’i swyddogaethau (i unrhyw raddau).

(2) Gall y strwythur hwn fod yn anodd i’r darllenydd, yn enwedig os yw’r prif osodiad wedi ei adael tan ddiwedd y frawddeg. Yn aml gall y gosodiad sy’n ymddangos ar ôl y paragraffau gael ei symud i’r geiriau agoriadol, ac fel arfer bydd y canlyniad yn haws i’w ddeall. Er enghraifft, gallai’r testun uchod gael ei ad-drefnu i ddweud:

> Caiff ACC awdurdodi’r canlynol i gyflawni unrhyw un neu ragor o’i swyddogaethau (i unrhyw raddau)—
> (a) aelod o ACC,
> (b) pwyllgor o ACC neu is-bwyllgor o bwyllgor o’r fath, neu
> (c) prif weithredwr ACC neu unrhyw aelod arall o staff ACC.

(3) Er hynny, fe all brechdanau fod yn ddefnyddiol mewn rhai achosion, yn enwedig pan geir gosodiadau cymharol fyr lle nad oes mwy na dau neu dri o baragraffau’n gwahanu’r geiriau agoriadol a’r geiriau olaf.

(4) Ond, peidiwch byth â defnyddio strwythur sy’n cynnwys brechdan yn cael ei dilyn gan ail set o baragraffau yn yr un frawddeg. Er enghraifft, peidiwch â drafftio fel a ganlyn:

> Pan fo’r cofrestrydd yn penderfynu—
> (a) gwrthod cais i gofrestru, neu
> (b) gwrthod cais i adnewyddu cofrestriad person,
> rhaid i’r cofrestrydd roi i’r person y mae’r penderfyniad yn ymwneud ag ef hysbysiad—
> (i) o’r penderfyniad,
> (ii) o’r rhesymau dros y penderfyniad, ac
> (iii) o’r hawl i apelio o dan adran 101.

(5) Yn hytrach, rhannwch y gosodiad yn ddwy frawddeg:

> (3) Mae is-adran (4) yn gymwys pan fo’r cofrestrydd yn penderfynu—
> (a) gwrthod cais i gofrestru, neu
> (b) gwrthod cais i adnewyddu cofrestriad person.
> (4) Rhaid i’r cofrestrydd roi i’r person y mae’r penderfyniad yn ymwneud ag ef hysbysiad—
> (a) o’r penderfyniad,
> (b) o’r rhesymau dros y penderfyniad, ac
> (c) o’r hawl i apelio o dan adran 101.

## 2.9 Cysyllteiriau a ffyrdd eraill o ddangos y berthynas rhwng paragraffau

(1) Wrth ddefnyddio paragraffau, gwnewch yn siŵr ei bod yn glir a ydych yn bwriadu iddynt weithredu’n gronnol ynteu fel dewisiadau amgen. Yn achos rhestrau syml, efallai y bydd y bwriad yn ddigon clir o’r cyd-destun ac nad oes angen dweud dim. Er enghraifft, mewn is-adran

sy'n cynnwys paragraffau sy'n rhestru'r mathau o ddarpariaeth y caniateir eu gwneud mewn rheoliadau, efallai y bydd yn ddigon clir bod y rheoliadau yn gallu gwneud unrhyw un neu bob un o'r mathau hynny o ddarpariaeth.

(2) Pan fydd angen mwy na hyn, mae'r technegau ar gyfer gwneud y bwriad yn glir yn cynnwys defnyddio cysyllteiriau priodol rhwng y paragraffau a gosod geiriad priodol o flaen y paragraffau.

(3) Yn Saesneg gall ystyr y cysylltair *"or"* fod yn gynhwysol (pan fo *"A or B"* yn golygu A neu B neu'r ddau) ac yn gyferbyniol (pan fo *"A or B"* yn golygu naill ai A ynteu B ond nid y ddau). Mae'n debyg mai'r ystyr gynhwysol yw'r fwyaf cyffredin mewn deddfwriaeth, ond bydd hyn yn dibynnu ar y cyd-destun. Weithiau bydd yn glir bod rhaid bod *"or"* yn gyferbyniol ei ystyr am fod yr opsiynau a ddisgrifir yn y paragraffau yn anghydnaws, ond mewn achosion eraill gall fod yn llai clir.

(4) Yn Gymraeg mae'r sefyllfa ychydig yn wahanol, am fod gennym ddau air gwahanol. Bydd *"neu"* yn cael ei ddefnyddio'n gyffredin i gyfleu'r ystyron cynhwysol a chyferbyniol, gan arwain felly at faterion tebyg i'r gair "or" yn Saesneg. Ond, i gyfleu'r ystyr gyferbyniol yn unig y defnyddir "ynteu", a hynny mewn cyfuniad yn aml ag "ai" neu "a" (yn cyfateb i *"either"* neu *"whether"* yn Saesneg).

(5) Un ffordd i'w gwneud yn glir bod y ddau ddewis amgen yn cael eu caniatáu yw i ddatgan hyn yn unswydd. Mewn rhai achosion mae'n arbennig o bwysig gwneud hyn: er enghraifft, dylai darpariaeth ynglŷn â chosb sy'n caniatáu rhoi dirwy neu ddedfryd o garchar ddweud bod modd rhoi'r ddwy gosb, os dyna'r bwriad. Mae modd gwneud hyn drwy gynnwys y geiriau "neu'r ddau" ar ôl y dewisiadau amgen.

(6) Gall materion tebyg godi yn sgil "a". Er enghraifft, os bydd darpariaeth yn rhoi pŵer i berson wneud "A a B" mae'n bosibl na fydd hi bob amser yn eglur a oes rhaid i'r person wneud y ddau, er ei bod yn debygol y ceir yr ateb yn y cyd-destun.

(7) Yn aml, mae'n ddigon gosod cysylltair ar ddiwedd y paragraff olaf ond un, gan ddibynnu ar yr awgrym bod pob un o'r paragraffau blaenorol wedi eu gwahanu gan yr un cysylltair. Ond mae hyn yn gorfodi'r darllenydd i aros tan hynny i ganfod a yw'r paragraffau yn gronnol ynteu'n gyferbyniol, a allai fod yn anodd gyda rhestrau hir. Yn lle gwneud hyn, mae'n bosibl gosod cysylltair ar ddiwedd pob paragraff, ond yn aml bydd hynny'n darllen yn lletchwith.

(8) Peidiwch â defnyddio cymysgedd o gysyllteiriau gwahanol yn yr un rhestr o baragraffau, gan y gall hyn greu amwysedd. Am yr un rheswm, osgowch "a/neu".

(9) Pan na fyddai dibynnu ar gysyllteiriau yn ddigon clir, ystyriwch gynnwys geiriad addas yn y testun sy'n dod o flaen y paragraffau, i nodi ai paragraffau cronnol sydd yma ynteu paragraffau cyferbyniol. Gan ddibynnu ar yr effaith arfaethedig, gall fod yn briodol i'r geiriau sy'n cyflwyno'r paragraffau gyfeirio at "un", "y cyfan" neu "un neu ragor" o'r dewisiadau sy'n dilyn. (Neu os nad oes ond dau ddewis, dylech gyfeirio at "y naill neu'r llall", "y ddau" neu "y naill neu'r llall neu'r ddau" ohonynt). Er enghraifft:

> Mae gwarediad deunydd yn esempt rhag treth os yw pob un o'r amodau a ganlyn wedi eu bodloni...
>
> Caiff y rheoliadau ddarparu bod cwyn yn cael ei hystyried gan un neu ragor o'r canlynol…
>
> Caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo'r corff llywodraethu i wneud naill ai un o'r canlynol neu'r ddau…

(10) Os yw'r geiriau sy'n cyflwyno rhestr o baragraffau yn egluro'n glir p'un a ydynt i gael eu darllen yn gynhwysol ynteu'n gyferbyniol, does dim angen cynnwys cysylltair hefyd (ac weithiau gall gwneud hynny fod yn ddi-fudd).

## 2.10 Dewisiadau eraill yn lle is-adrannau a pharagraffau: rhagymadrodd

Mae amryw o ffyrdd o gyflwyno gwybodaeth heblaw testun parhaus wedi ei rannu'n is-adrannau a pharagraffau. Mae'r paragraffau a ganlyn yn disgrifio'r prif ddewisiadau amgen. Gall pob un o'r technegau hyn fod yn ddefnyddiol yn y cyd-destun cywir, ond dim ond os ydynt yn creu canlyniad cliriach neu symlach na thestun safonol y dylech eu defnyddio.

## 2.11 Tablau

(1) Mae tabl yn aml yn ffordd gymen a chlir i nodi nifer o achosion gyda rheol sy'n gymwys i bob un. Gall fod yn ffordd o osgoi ailadrodd lle byddai gennych fel arall nifer o ddarpariaethau tebyg iawn. Er enghraifft, os oes angen i derm olygu pethau gwahanol mewn sefyllfaoedd gwahanol, efallai y byddai'n symlach rhestru'r sefyllfaoedd a'r ystyron mewn tabl, a chael un ddarpariaeth yn unig i egluro sut maent yn perthyn i'w gilydd.

(2) I gael enghreifftiau o dablau, gweler Atodlen 1 i Ddeddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012 ac adrannau 4 i 7 o Deddf Trawsblaniadau Dynol (Cymru) 2013.

## 2.12 Fformiwlâu[6]

(1) Efallai mai fformiwla fydd y ffordd fwyaf cymen i fynegi perthynas rhwng symiau gwahanol. Gallai nodi'r un peth mewn geiriau gymryd rhy hir a bod yn llai eglur. Wedi dweud hynny, os bydd y gosodiad yn un cymharol syml (megis adio dau rif), gallai defnyddio fformiwla beri iddo edrych yn fwy cymhleth nag ydyw.

(2) Weithiau gall dilyniant o gyfarwyddiadau ysgrifenedig, neu "datganiad dull", fod yn fwy defnyddiol na fformiwla (gweler isod). Wrth benderfynu pa un sydd fwyaf priodol, cymerwch natur y darllenwyr arfaethedig yn arweiniad: gallai fformiwla fod yn ddefnyddiol i gyfrifydd, ond nid i ddarllenydd y mae arno angen disgrifiad yn unig o'r hyn sy'n digwydd.

(3) Wrth ddefnyddio fformiwla, fel arfer mae'n well ymdrin â phob un o'r cyfrifiadau angenrheidiol yn y fformiwla ei hun, fel bod pob elfen yn cynrychioli un peth yn hytrach na chanlyniad cyfrifiad arall. Ond nid yw hynny'n bosibl bob amser.

(4) Ceisiwch ddefnyddio un llythyren i bob elfen yn y fformiwla, yn hytrach na llinyn o lythrennau: gallai rhai darllenwyr ddisgwyl bod talfyriad fel "ST" yn golygu lluoswm S a T. (Ond os ydych yn bwriadu cyfeirio at luoswm S a T, dywedwch "S x T".)

(5) Ceir nifer o enghreifftiau o fformiwlâu yn Atodlenni Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017.

## 2.13 Datganiadau dull a rhestrau eraill

(1) Wrth restru nifer o gamau, achosion, amodau neu eithriadau, gallech ddatgan pob un ar wahân mewn is-adran neu baragraff â rhif, ond dewis arall yw eu gosod o dan is-benawdau italig mewn un is-adran.

(2) Un enghraifft o'r dull hwn yw'r "datganiad dull": efallai mai dyma fydd y ffordd fwyaf cymen i nodi'r camau mewn cyfrifiad neu broses arall. Mae Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 yn cynnwys amryw o ddatganiadau dull. Er enghraifft, mae paragraff 29 o Atodlen 6 yn nodi'r dull ar gyfer cyfrifo'r dreth ar rent fel a ganlyn:

> ***Cam 1***
> Cyfrifo gwerth net presennol ("GNP") y rhent sy'n daladwy yn ystod cyfnod y les (gweler paragraff 31).
>
> ***Cam 2***
> Ar gyfer pob band treth sy'n gymwys i'r caffaeliad, lluosi hynny o'r GNP sydd o fewn y band gyda'r gyfradd dreth ar gyfer y band hwnnw.

6 I gael trafodaeth fanwl, gweler Armstrong, "Mathematics in Legislation," *The Loophole*, Ionawr 2018.

*Cam 3*

Cyfrifo cyfanswm y symiau sy’n deillio o Gam 2.

Y canlyniad yw swm y dreth sydd i’w godi mewn cysylltiad â rhent.

(3) Mae’r dull hwn yn arbennig o ddefnyddiol pan fydd pob amod neu eithriad yn osodiad cymhleth ar ei ben ei hun. Er enghraifft, mae adran 15 o Ddeddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017 yn cynnwys rhestr o ofynion y mae’n rhaid eu bodloni er mwyn i’r deunydd a arllwysir mewn safle tirlenwi fod yn “ddeunydd cymwys”, a’r rheiny wedi eu nodi o dan benawdau italig mewn is-adran unigol.

(4) Er hynny, fe all y dull hwn gael ei or-wneud a gallai’r label “achos” neu “amod” ar ddarpariaeth dynnu gormod o sylw ati.

(5) Os byddwch yn defnyddio’r dull hwn, dylech rifo’r camau, yr achosion neu’r amodau â rhifau 1, 2, 3 etc. (nid A, B, C etc.).

## 2.14 Diagramau, delweddau neu fapiau

(1) Weithiau, diagram neu ddelwedd arall fydd y ffordd gliriaf i gyflwyno gwybodaeth i’r darllenydd. Er enghraifft, mae Atodlen 1 i Orchymyn Cramenogion Penodedig (Gwahardd eu Pysgota, eu Glanio, eu Gwerthu a’u Cludo) (Cymru) 2015 (OS 2015/2076) yn cynnwys diagramau o gramenogion i ddangos sut y dylid mesur eu maint.

(2) Pan fo angen i offerynnau statudol nodi ardaloedd o dir neu o’r môr, gallant wneud hynny drwy gyfeirio at gyfesurynnau, ond weithiau maent wedi defnyddio mapiau i ddangos ardal a allai gael ei chaffael neu ardal y gellir arfer hawliau mewn perthynas â hi.

(3) Os ydych yn cyflwyno gwybodaeth mewn unrhyw un o’r ffyrdd hyn, mae’n bwysig sicrhau nid yn unig fod y diagram, y map neu’r ddelwedd yn cael eu cynhyrchu’n gywir, ond hefyd bod eu heffaith gyfreithiol wedi ei nodi’n glir yn y ddeddfwriaeth.

(4) Pan ddefnyddir cyfesurynnau neu dechnegau drafftio confensiynol eraill yn y ddeddfwriaeth ei hun, gall fod yn fuddiol o hyd ichi ddarparu map, diagram neu ddelwedd ddarluniadol yn y deunydd esbonio sy’n cyd-fynd â’r ddeddfwriaeth (gydag esboniad o’i statws).

# Pennod 3: Iaith ac arddull

## Rhagymadrodd

### 3.1 Trosolwg o'r Bennod

Mae'r Bennod hon yn cynnwys canllawiau cyffredinol ynghylch iaith ac arddull. Mae'n disgrifio:

(a) sut y gall cystrawen brawddegau a geirfa gyfrannu at eglurder deddfwriaeth;

(b) technegau at ddrafftio deddfwriaeth mewn termau sy'n niwtral o ran rhywedd;

(c) pwyntiau amrywiol o ran arddull wrth gyfeirio at bersonau a chyrff, at Gymru a Lloegr, ac at rifau, dyddiadau ac unedau mesur.

### 3.2 Iaith glir

(1) Dylai deddfwriaeth gael ei hysgrifennu mewn iaith glir, cyn belled ag y bo modd.

(2) Mae ysgrifennu mewn iaith glir yn golygu y dylai ddeddfwriaeth ddefnyddio brawddegau sy'n syml, sydd wedi eu saernïo'n rhesymegol, ac sy'n cyfleu eu hystyr yn uniongyrchol ac yn fanwl gywir.

(3) Gall yr egwyddorion a ganlyn helpu i gynhyrchu brawddegau sy'n cyflawni'r amcanion hyn, ac fe'u disgrifir yn fanylach yn ddiweddarach yn y Bennod hon:

(a) peidiwch â cheisio dweud gormod mewn un frawddeg;

(b) gofalwch fod trefn y geiriau yn naturiol ac nad yw'n creu amwysedd;

(c) peidiwch â defnyddio mwy (na llai) o eiriau nag sy'n angenrheidiol;

(d) osgowch droi berfau'n enwau;

(e) dewiswch y stâd weithredol yn hytrach na'r goddefol;

(f) dewiswch osodiadau cadarnhaol yn hytrach na rhai negyddol;

(g) ysgrifennwch yn yr amser presennol a'r modd mynegol lle bo modd.

(4) Mae defnyddio iaith glir hefyd yn golygu y dylai deddfwriaeth gael ei hysgrifennu mewn Cymraeg a Saesneg safonol, modern.

(5) Dylai'r egwyddorion a ganlyn gael eu dilyn fel arfer wrth ddewis y geiriau a ddefnyddir mewn deddfwriaeth, ac fe'u disgrifir yn fanylach yn ddiweddarach yn y Bennod hon:

(a) defnyddiwch eiriau syml a chyfarwydd, nid geiriau cymhleth neu anarferol;

(b) defnyddiwch eiriau sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd, yn hytrach na defnyddio geiriau hynafol neu fathu ymadroddion newydd;

(c) ceisiwch ddefnyddio geiriau sy'n cael eu deall yn gyffredinol ledled Cymru, nid jargon llywodraeth, acronymau sydd heb eu hesbonio neu amrywiadau o dafodieithoedd rhanbarthol;

(d) defnyddiwch eiriau Cymraeg a Saesneg, nid geiriau tramor neu Ladin;

(e) defnyddiwch eiriau manwl gywir a diriaethol, nid geiriau niwlog neu haniaethol.

### 3.3 Iaith glir mewn dwy iaith

(1) Iaith glir a ddylai gael ei defnyddio yn y testunau Cymraeg a Saesneg mewn deddfwriaeth. Er y bydd un testun wedi ei gynhyrchu fel arfer drwy gyfieithu'r llall, mae'n bwysig na ddylai'r naill destun ddilyn cystrawen y llall yn annaturiol. Mae i'r testunau Cymraeg a Saesneg yr un statws cyfreithiol at bob diben. Gan hynny, mae angen i ddrafftwyr, cyfieithwyr a gwirwyr cywerthedd sicrhau bod y ddau destun yn cyflawni'r un effaith gyfreithiol gan ddefnyddio iaith naturiol a modern.

(2) Er hynny, cofiwch y gall rhai ffyrdd o ysgrifennu mewn un iaith fod yn anodd i'w mynegi yn y llall o fewn cyfyngiadau ffurf a strwythur deddfwriaeth. Ceisiwch osgoi ysgrifennu mewn ffyrdd sy'n debygol o achosi anawsterau wrth gyfieithu, ac ystyriwch ailddrafftio'ch testun os bydd yn anodd i'w gyfieithu. Mae'r Bennod hon yn cynnwys canllawiau ar rai dulliau drafftio a all hwyluso'r broses gyfieithu.

## Brawddegau

### 3.4 Hyd brawddegau

(1) Peidiwch ag ysgrifennu mewn blociau hir o destun di-dor. Mae brawddegau'n mynd yn anodd i'w deall os ydynt yn cynnwys gormod o syniadau neu'n cynnwys gormod o elfennau yn ychwanegol at y goddrych a'r brif ferf. Yn gyffredinol mae'n gliriach defnyddio brawddegau byr sy'n mynegi un syniad. At ei gilydd mae brawddegau byr yn haws i'w cyfieithu.

(2) Peidiwch â gorddefnyddio is-gymalau. Ystyriwch a yw eich brawddegau'n cynnwys gormod o wybodaeth nad yw'n hanfodol i'r prif osodiad, ac a allen nhw gael eu torri drwy symud elfennau nad ydynt yn hanfodol i mewn i frawddegau byrrach ar wahân.

(3) Fydd brawddegau byr ddim yn briodol bob amser. Gall fod yn well nodi nifer o bwerau neu oleddfiadau fel rhestr mewn un frawddeg yn hytrach nag fel cyfres o frawddegau. Ond mewn tameidiau cryno y dylai gwybodaeth gael ei chyflwyno o hyd, er enghraifft drwy gynnwys pob pŵer neu oleddfiad mewn paragraff neu is-baragraff ar wahân.

### 3.5 Cystrawen brawddeg arferol

Dilynwch drefn geiriau arferol mewn Cymraeg a Saesneg cyn belled ag y bo modd. Defnyddiwch gyn lleied ag y gallwch o gystrawennau anarferol, a all fod yn anos i'w deall. Yn benodol, ceisiwch osgoi gosod geiriau neu is-gymalau mewn mannau lle maen nhw'n torri ar draws y prif osodiad rydych yn ceisio ei gyfleu. Er enghraifft, dywedwch:

> Caiff person ymddiswyddo drwy roi hysbysiad i Weinidogion Cymru.

NID:

> Caiff person, drwy roi hysbysiad i Weinidogion Cymru, ymddiswyddo.

### 3.6 Cystrawen brawddegau amodol

(1) Gall safle amod mewn brawddeg effeithio ar eglurder y frawddeg.

(2) Os un rhag-amod sydd i'w fodloni er mwyn i ddarpariaeth fod yn gymwys, fel arfer mae'n well ei ddatgan yn gyntaf. Er enghraifft:

> Os yw person yn talu'r swm a bennir mewn hysbysiad cosb, ni all y person gael ei euogfarnu o'r drosedd y mae'r hysbysiad yn ymwneud â hi.

(3) Os un amod dilynol sydd, a fydd yn atal darpariaeth rhag bod yn gymwys, fel arfer mae'n well ei osod ar ôl y prif gymal. Er enghraifft:

> Rhaid i achos gerbron y tribiwnlys gael ei gynnal yn breifat, ac eithrio pan fo'r tribiwnlys yn cyfarwyddo fel arall.

(4) Os oes sawl amod neu eithriad, fel arfer mae'n well datgan y prif osodiad yn gyntaf a rhestru'r amodau neu'r eithriadau wedyn, naill ai mewn paragraffau neu is-baragraffau i'r ddarpariaeth neu mewn darpariaethau ar wahân. Gall brawddeg sy'n dechrau â nifer o amodau fod yn anodd i'w deall.

(5) Wrth gyflwyno amodau neu eithriadau, mae "pan fo" yn ddefnyddiol at nodi achos neu set o amgylchiadau lle mae gosodiad diweddarach yn gymwys (neu lle nad yw'n gymwys). Bydd "os" fel arfer yn cael ei ddefnyddio er mwyn mynegi amodoldeb, hynny yw set o amodau a all gael

eu bodloni neu beidio. Ond does dim gwahaniaeth pendant, ac yn aml fe allai'r naill ymadrodd neu'r llall gael ei ddefnyddio. Yn yr achosion hyn, anaml y bydd "os" yna anghywir ac yn aml fe fydd yn haws i'r darllenydd ei ddeall fel gair sy'n cyflwyno amod.

(6) Peidiwch â defnyddio "ar yr amod bod" i gyflwyno amodau sy'n llywodraethu sut mae darpariaeth statudol yn cael ei chymhwyso.

## 3.7 Amwysedd a achosir gan drefn geiriau

(1) Gofalwch nad yw trefn y geiriau mewn brawddeg yn creu amwysedd. Gall rhai cystrawennau brawddeg sy'n ramadegol bosibl adael y berthynas rhwng y geiriau'n aneglur ac felly dylech eu hosgoi.

(2) Os yw brawddeg yn crybwyll sawl enw, weithiau gall safle ansoddeiriau neu oleddfwyr eraill greu amheuaeth ynghylch pa rai o'r enwau y bwriedir iddynt effeithio arnynt. Yn aml, bydd y broblem hon yn codi yn Gymraeg pan leolir y goleddfydd ar ôl rhestr o enwau ac yn Saesneg pan leolir y goleddfydd o flaen yr enwau. Er enghraifft, os yw'r testun Cymraeg yn cyfeirio at "taliad neu hepgoriad rhannol" ydy'r ansoddair "rhannol" yn gymwys i "hepgoriad" yn unig? Ac os yw'r testun Saesneg yn cyfeirio at *"partial payment or waiver"* ydy'r ansoddair *"partial"* yn gymwys i hepgoriadau, ynteu i daliadau yn unig?

(3) Fel arfer, mae'n bosibl osgoi'r amwysedd naill ai drwy ad-drefnu'r frawddeg neu drwy ailadrodd y goleddfydd, gan ddibynnu ar y bwriad. Er enghraifft, yn Gymraeg fyddai dim byd yn amwys pe baech chi'n cyfeirio at "taliad rhannol neu hepgoriad" (os na fwriedid i "rhannol" gyfeirio at hepgoriadau) neu "taliad rhannol neu hepgoriad rhannol" (os bwriedid iddo gyfeirio at y ddau). (Yn yr un modd, yn Saesneg fyddai dim byd yn amwys pe baech yn cyfeirio at *"a waiver or partial payment"* neu *"a partial payment or partial waiver"* yn y drefn honno.)

(4) Gall is-gymalau a osodir ar ôl enwau fod yn amwys yn yr un modd. Gofalwch ynglŷn â chymalau perthynol (a gyflwynir yn Gymraeg gan ferf berthynol fel "sydd" ac yn Saesneg gan ragenwau fel *"which"* neu *"that"*) ac ynglŷn â'r cymalau rhangymeriad cyfatebol (a gyflwynir gan rangymeriad presennol neu orffennol). Er enghraifft, mewn cyfeiriad at "darpariaeth mewn Deddf sy'n ymwneud â thai" neu "darpariaeth mewn Deddf yn ymwneud â thai ai'r ddarpariaeth ynteu'r Ddeddf gyfan sy'n cyfeirio at dai?

(5) Yn aml mae'n bosibl osgoi'r math hwn o amwysedd drwy ad-drefnu'r frawddeg. Os nad yw hynny'n bosibl, weithiau gall diffiniad gael ei ddefnyddio i ddileu geiriau sy'n peri problem o'r brif frawddeg (er enghraifft, drwy gyfeirio at "darpariaeth mewn Deddf tai" gan ddiffinio "Deddf tai" fel un sy'n ymwneud â thai).

## 3.8 Gofal wrth leoli "ni(d) ... ond", "dim ond" ac "yn unig"

(1) Cymerwch ofal arbennig na fyddwch yn camleoli'r ymadroddion *"ni(d) ... ond"*, *"dim ond"* ac *"yn unig"* (na'r gair cyfatebol *"only"* yn Saesneg). Yn Gymraeg, mae'r ymadroddion sy'n cynnwys "ond" fel rheol yn goleddfu'r hyn sy'n dilyn yn union ar ôl "ond", ac mae *"yn unig"* fel rheol yn dod ar ôl y gair neu'r ymadrodd y mae'n ei oleddfu. (Yn Saesneg bydd *"only"* fel rheol yn goleddfu'r hyn sy'n dod yn union ar ei ôl, a dylai gael ei osod mor agos ag y bo modd at yr hyn y mae'n ei oleddfu.) Er hynny, gall amwysedd godi am fod yr holl ymadroddion hyn yn gallu goleddfu ymadroddion cyfan yn ogystal â geiriau unigol.

(2) Er enghraifft, gallai darpariaeth ddweud:

> Ni chaiff Gweinidogion Cymru ond talu grant ar gyfer astudiaethau ôl-raddedig os yw'r myfyriwr yn preswylio fel arfer yng Nghymru.

(3) Y bwriad yn ôl pob tebyg yw cyfyngu'r amgylchiadau lle gallai grantiau ar gyfer astudiaethau ôl-raddedig gael eu talu, ac fe allai hynny fod yn glir o'r cyd-destun. Ond, os dyna oedd y bwriad, fe allai gael ei wneud yn gliriach drwy osod "dim ond" yn union o flaen y geiriau yr oedd i fod i'w haddasu, fel a ganlyn:

Ni chaiff Gweinidogion Cymru dalu grant … ond os yw'r myfyriwr yn preswylio fel arfer yng Nghymru.

(4) Fel arall, efallai fod yna fwriad i'r ddarpariaeth gyfyngu y ffyrdd y gallai Gweinidogion Cymru gefnogi astudiaethau ôl-raddedig (dim ond drwy dalu grantiau) neu gyfyngu lefel yr astudiaethau y gallai'r Gweinidogion dalu grantiau ar ei chyfer (lefel ôl-raddedig yn unig) pan fyddai'r myfyrwyr yn preswylio fel arfer yng Nghymru. Yn y naill neu'r llall o'r achosion hynny, mae'n debyg y byddai angen i'r frawddeg gael ei hailstrwythuro'n llwyr, e.e. yn yr achos olaf i ddweud:

… dim ond ar gyfer astudiaethau ôl-raddedig y caiff Gweinidogion Cymru dalu grant.

(5) Ystyriwch bob amser a oes angen ymadrodd fel "dim ond" mewn gwirionedd. Diben yr ymadrodd yw cyfyngu cymhwysiad y ddarpariaeth, ac felly ni ddylai gael ei gynnwys oni bai bod rheswm dros gredu bod achosion eraill yn bosibl y byddai'r ddarpariaeth yn gymwys iddynt.

## 3.9 Peidiwch â defnyddio mwy (na llai) o eiriau nag sy'n angenrheidiol

(1) Yn aml, bydd defnyddio mwy o eiriau nag sy'n angenrheidiol yn gwneud deddfwriaeth yn anos i'w darllen a gall greu dryswch ac amwysedd. Felly, ceisiwch ddileu unrhyw eiriau diangen.

(2) Peidiwch â defnyddio ymadroddion hir sydd yn draddodiadol yn cael eu gweld mewn ysgrifennu cyfreithiol os bydd un neu ddau o eiriau yn gwneud y tro lawn cystal. Yn benodol, mae'n aml yn bosibl defnyddio fersiynau byrrach a symlach yn lle ymadroddion adferfol hir ac arddodiaid cyfansawdd, mewn un iaith neu yn y ddwy. Er enghraifft, ystyriwch a allech ddefnyddio un o'r dewisiadau amgen a awgrymir yn lle'r ymadroddion traddodiadol hyn:

| Ymadrodd Cymraeg traddodiadol | Dewis amgen | Ymadrodd Saesneg traddodiadol | Dewis amgen |
|---|---|---|---|
| yr amser y mae (etc.) | pryd, pan | *the time at which* | *when* |
| at ddiben | i | *for the purpose* | *to* |
| at ddibenion (Deddf neu ddarpariaeth) | yn (gweler paragraff 4.8) | *for the purposes of (an Act or provision)* | *in (see paragraph 4.8)* |
| y modd y mae (etc.) | sut | *the manner in which* | *how* |
| os digwydd bod | os | *in the event that* | *if* |
| wedi ei leoli yn/ mewn | yn/mewn | *located in, situated in* | *in* |
| ynghylch a | a | *as to whether* | *whether* |
| yn unol â | gan, o dan | *in accordance with, pursuant to* | *by, under* |
| | | *otherwise than* | *except, not* |
| | | *otherwise than in* | *outside* |
| | | *until such time as* | *until* |

(3) Yn aml, gall yr ymadroddion cyfreithiol traddodiadol a ganlyn gael eu hepgor yn llwyr:

- “oni bai bod y cyd-destun yn mynnu fel arall” – gweler paragraff 4.8(5);
- “o’r Ddeddf hon” ac ymadroddion tebyg – gweler paragraff 5.4;
- “darpariaethau” – gweler paragraff 5.5(3);
- “yn ddarostyngedig i” – gweler paragraff 5.6;
- “y cyfnod o” – gweler paragraff 8.8.

(4) Mae ymadroddion eraill sydd weithiau’n ddiangen yn cynnwys “yn ôl y digwydd” ac “o bryd i’w gilydd”. Ystyriwch bob amser a yw’r geiriau a’r ymadroddion hyn yn ychwanegu rhywbeth at ystyr eich testun mewn gwirionedd.

(5) Eto i gyd, peidiwch â bod yn rhy brin eich geiriau. Os byddai ychydig yn rhagor o eiriau yn gliriach, defnyddiwch ragor o eiriau. Gallwch beri problemau i ddarllenwyr drwy orddefnyddio termau diffiniedig neu drwy geisio cynnwys gormod o achosion mewn un frawddeg neu ffurfeiriad.

(6) Un sefyllfa lle mae hepgor geiriau Saesneg yn gallu creu amwysedd yw lle mae rhangymeriad gorffennol yn cael ei ddefnyddio heb ferf atodol. Mewn cyfeiriad at offer sy’n cael ei ddefnyddio at ddiben penodol, gallai’r rhangymeriad *“used”* fod â sawl ystyr, gan gynnwys *“is used”*, *“was used”* neu *“will be used”*. Mae’n rhaid i’r ferf atodol sydd yn eisiau yn y Saesneg gael ei chynnwys yn y Gymraeg, felly does dim modd hepgor yr elfen amser.

## 3.10 Berfau nid enwau

Osgowch droi berfau’n enwau (neu “enwoli”), gan fod hyn yn arwain at frawddegau hirach. Yn aml bydd ffurfiau berfol yn fwy uniongyrchol ac yn haws i’w deall. Er enghraifft, at ei gilydd mae’r ffurfiau berfol a ganlyn yn gallu cael eu defnyddio yn lle’r ffurfiau enwol hirach:

| **Ffurf ferfol** | **Ffurf enwol hirach** |
|---|---|
| adolygu/*review* | cynnal adolygiad o/*carry out a review of* |
| apply for | *make an application for* |
| caniatáu/*permit* | rhoi caniatâd i/*give permission for* |
| trefnu/*arrange* | gwneud trefniadau ar gyfer/*make arrangements for* |
| ymgynghori â/*consult* | cynnal ymgynghoriad â/*carry out consultation with* |
| ystyried/*consider* | rhoi ystyriaeth i/*give consideration to*<br>bod o’r farn/*be of the opinion* |

## 3.11 Gweithredol nid goddefol

(1) Mae’r stâd weithredol yn gliriach fel arfer na’r stâd oddefol. Er enghraifft, mae’n haws deall:

Rhaid i Weinidogion Cymru roi hysbysiad.

na:

Rhaid i hysbysiad gael ei roi gan Weinidogion Cymru.

(2) Ond fe all y stâd oddefol fod yn briodol os yw’r gweithredwr yn ddibwys, yn gyffredinol neu’n anhysbys. Er enghraifft, os nad yw’n gwneud unrhyw wahaniaeth pwy sy’n rhoi hysbysiad, efallai y byddai’n briodol dweud:

Os rhoddir hysbysiad i Weinidogion Cymru…

(3) Gall y stâd oddefol fod yn ddefnyddiol hefyd fel techneg ar gyfer drafftio sy'n niwtral o ran rhywedd, lle gall gael ei defnyddio heb leihau eglurder: gweler paragraff 3.22.

## 3.12 Cadarnhaol nid negyddol

(1) Bydd brawddeg gadarnhaol yn aml yn haws ei deall na fersiwn negyddol o'r un peth. Er enghraifft, mae:

> Siaradwch ar ôl y tôn

yn haws i'w deall na

> Peidiwch â siarad nes i chi glywed y tôn

(2) Ond nid rheol gyffredinol yw hon. Bydd y cwestiwn a yw'r cadarnhaol yn well yn dibynnu ar natur y gosodiad a ble mae'r drafftiwr yn dymuno gosod y pwyslais. Efallai mai'r negyddol fydd y ffordd orau i fynegi gwaharddiad. Er enghraifft, mae:

> Peidiwch â cherdded ar y gwair

yn haws i'w deall na

> Cerddwch ar y llwybrau yn unig

(3) Gall cystrawennau cadarnhaol penodol yn Saesneg gael eu cyfleu gan gystrawennau negyddol yn Gymraeg. Er enghraifft, byddai:

> The regulations may designate a person only if … (cadarnhaol)

yn cael ei fynegi yn Gymraeg fel hyn:

> Ni chaiff y rheoliadau ddynodi person onid yw… (negyddol)

(4) Mae negydd dwbl yn aml yn anodd ei ddeall. Os gallwch fynegi yr un ystyr mewn ffordd arall, at ei gilydd mae'n well gwneud hynny.

(5) Fel rheol, dylai symiau gael eu mynegi yn gadarnhaol yn hytrach nag yn negyddol. Dywedwch:

> o leiaf 25%
> 25% neu fwy

yn hytrach na:

> nid llai na 25%

## 3.13 Amserau a moddau'r ferf

(1) Dylai'r berfau mewn deddfwriaeth fod yn yr amser presennol a'r modd mynegol, oni bai bod un o'r eithriadau isod yn gymwys. Yn benodol, y presennol mynegol a ddylai gael ei ddefnyddio wrth ddisgrifio o dan ba amgylchiadau y mae'r darpariaethau'n gymwys, wrth nodi canlyniadau cyfreithiol, ac wrth ddatgan sut mae'r ddeddfwriaeth yn gweithredu. Er enghraifft:

> Mae'r adran hon yn gymwys os yw'r landlord yn gwneud hawliad…
> Mae person sy'n torri is-adran (1) yn cyflawni trosedd.

(Er hynny, yn Gymraeg gall y ffurf ddibynnol "pan fo" gael ei defnyddio hefyd i ddisgrifio'r amgylchiadau lle mae darpariaeth yn gymwys, lle câi *"where"* ei ddefnyddio yn Saesneg.)

(2) Gall yr amser gorffennol a'r amser dyfodol gael eu defnyddio pan fo angen i ddarpariaeth wahaniaethu rhwng pethau sy'n digwydd ar hyn o bryd a phethau sydd eisoes wedi digwydd neu a fydd yn digwydd yn y dyfodol. Er enghraifft:

> Caiff ACC ganslo cofrestriad person os yw wedi ei fodloni bod y person wedi peidio â chyflawni gweithrediadau trethadwy.

(3) Dylai'r berfau moddol "caiff" a "rhaid" gael eu defnyddio i roi pwerau ac i osod dyletswyddau. Er enghraifft:

[Caiff][Rhaid i] ACC adolygu'r penderfyniad.

(4) At ei gilydd, dylech ffafrio'r ffurfiau "ni chaiff" a *"must not"* wrth osod gwaharddiad. Maen nhw'n llai tebygol o gael eu camddeall na'r dewisiadau eraill "rhaid peidio" (sy'n gallu golygu bod rhaid i berson beidio â gwneud rhywbeth o gwbl, neu fod rhaid iddo stopio gwneud rhywbeth y mae wrthi yn ei wneud eisoes) a *"may not"* (a allai gael ei ddarllen weithiau fel pe bai'n mynegi posibilrwydd yn hytrach na gwaharddiad).

(5) Dylech ddefnyddio'r gorchmynnol wrth gyfeirio'r darllenydd at ddarpariaethau eraill (e.e. "gweler adran 5") ac wrth ddiwygio testunau (gweler Pennod 7 i gael enghreifftiau manwl). Gall fod yn briodol hefyd wrth nodi'r camau mewn cyfrifiad neu mewn proses arall (gweler paragraff 2.13 i gael enghraifft).

(6) Gallwch ddefnyddio'r amodol wrth gyfeirio at sefyllfa ddamcaniaethol neu afreal. Er enghraifft, gallai deddfwriaeth ynghylch treth gyfeirio at swm o dreth "a fyddai wedi bod i'w godi fel arall" pe na bai esemptiad neu ryddhad yn gymwys. Yn Gymraeg, gallwch ddefnyddio'r ffurfiau dibynnol "pe bai" etc. hefyd.

(7) Dylai'r modd dibynnol gael ei ddefnyddio yn y ddwy iaith wrth wneud addasiadau i ddeddfwriaeth nad ydynt yn newid y testun, er enghraifft drwy ei gwneud yn ofynnol i'r ddeddfwriaeth gael ei darllen "fel pe bai'r cyfeiriad at X yn gyfeiriad at Y". Mae hyn yn helpu i ddangos nad yw'r testun yn cael ei ddiwygio (gweler paragraff 7.37).

## 3.14 Berfau problemus: *"shall"*, "is to" a *"will"*

(1) Ni ddylai deddfwriaeth Cymru ddefnyddio *"shall"* yn y testun Saesneg. Mae *"shall"* yn amwys am fod modd ei ddefnyddio i gyfeirio at y dyfodol, i osod rhwymedigaethau, neu mewn ystyr ddatganiadol. Dylai darpariaethau sy'n gosod rhwymedigaethau ddefnyddio *"must"*. Dylai darpariaethau datganiadol ddefnyddio'r presennol mynegol (gweler paragraff 3.13(1)).

(2) Does dim ffurf unigol yn Gymraeg sy'n cwmpasu pob un o'r ystyron sydd i *"shall"* yn Saesneg. Mae hynny'n golygu bod angen canfod yr ystyr benodol a fwriedir er mwyn i'r ferf gywir gael ei defnyddio yn y testun Cymraeg.

(3) Wrth ddiwygio deddfwriaeth sydd eisoes yn bod, fe all fod yn briodol defnyddio *"shall"* mewn testun sy'n cael ei ychwanegu yn agos i ddarpariaethau presennol sydd eisoes yn defnyddio *"shall"* yn yr un modd.

(4) Weithiau mae dewisiadau eraill megis "mae... i" a "maent i" (yn cael eu defnyddio, ond gall y rhain gario'r un ystod ystyron â *"shall"*. Gall y ffurfiau hyn fod yn ddefnyddiol, ond mae modd defnyddio'r presennol mynegol neu "must" yn eu lle yn aml. Er enghraifft, gallai darpariaeth yn dweud "mae X i'w drin fel Y" fod cystal â dweud bod "rhaid trin X fel Y".

(5) Weithiau mae is-ddeddfwriaeth wedi defnyddio "bydd" i osod rhwymedigaethau ar awdurdodau cyhoeddus neu i ddatgan canlyniadau cyfreithiol. **Ni** ddylech ddilyn y dull hwn: defnyddiwch "rhaid" ar gyfer rhwymedigaethau a'r mynegol presennol ar gyfer darpariaethau datganiadol.

# Geiriau

## 3.15 Defnyddiwch eiriau cyfarwydd

(1) Defnyddiwch y geiriau symlaf a mwyaf cyfarwydd a fydd yn cyfleu'r ystyr yr ydych yn bwriadu ei chyfleu. Ceisiwch osgoi geiriau cymhleth neu anarferol, gan fod geirfa anodd neu aneglur yn llai tebygol o gael ei deall. Os oes mwy nag un gair a allai fynegi'ch ystyr, ystyriwch ba un sy'n ymddangos yn fwyaf cyfarwydd a hawsaf ei ddeall.

(2) Dyma rai enghreifftiau o eiriau Saesneg sydd wedi eu defnyddio'n draddodiadol mewn deddfwriaeth, a dewisiadau symlach neu fwy cyfarwydd a all gael eu defnyddio yn eu lle yn aml iawn. Sylwch nad yw'r dewis amgen bob amser yn fyrrach na'r gair traddodiadol, ac na fydd yr un materion yn codi yn gyffredinol gyda'r termau cyfatebol yn y Gymraeg.

| Gair traddodiadol | Dewis arall | Gair traddodiadol | Dewis arall |
|---|---|---|---|
| *afford (facilities, opportunities, etc.)* | *give, provide* | *notwithstanding* | *despite* (gweler para 5.6(12)) |
| *commence* | *begin, start* | *particulars* | *information, details* |
| *comprise* | *consist of, have* | *prior* | *earlier* |
| *confer* | *give* | *prior to* | *before* |
| *construe* | *interpret* (gweler para 4.11(7)) | *procure* | *get, obtain* |
| *determine* | *decide, set* | *purchase, purchaser* | *buy, buyer* |
| *dispatch* | *send* | *save* (fel arddodiad) | *except, but* |
| *expiration, expiry* | *end* | *subsequent(ly)* | *later* |
| *forthwith* | *immediately, without delay* | *subsequent to* | *after* |
| *furnish* | *give, provide* | *sufficient(ly)* | *enough* |
| *initiate* | *begin, start* | *terminate* | *end, finish* |
| *like* (fel ansoddair) | *similar, same* | *undertake (activities)* | *do, carry out* |
| *location* | *place* | *utilise* | *use* |
| *manner* | *way* | *vendor* | *seller* |

## 3.16 Osgowch eiriau hynafol a bathiadau

(1) Dylai iaith deddfwriaeth adlewyrchu'r defnydd presennol lle bynnag y bo modd.

(2) Osgowch eiriau hynafol nad ydyn nhw'n cael eu defnyddio mwyach mewn Cymraeg neu Saesneg ysgrifenedig safonol. Yn ogystal ag ymddangos yn rhy ffurfiol ac yn gyfreithlyd, bydd y geiriau hyn yn aml yn ddiangen. Enghreifftiau o ffurfiau hynafol y dylech eu hosgoi wrth ysgrifennu Saesneg yw'r canlynol yn bennaf; does dim llawer o ffurfiau sy'n cyfateb yn uniongyrchol yn Gymraeg.

(3) Peidiwch â defnyddio *"same"* neu *"the same"* fel rhagenw dangosol, a pheidiwch â defnyddio "yr ... a enwyd" fel ansoddair dangosol. Ymadroddion cyfreithlyd yw'r rhain ac yn aml iawn gallwch eu hepgor heb golli ystyr. Os oes angen cyfeirio yn ôl at rywbeth rydych chi newydd ei grybwyll, defnyddiwch ragenw arall fel *"it"* neu *"them"*, neu ymadrodd arall fel *"the X"*, *"that X"* neu *"the X in question"*.

(4) Peidiwch â defnyddio adferfau sy'n dechrau â *"here-"*, *"there-"* a *"where-"* (e.e. *"hereby"*, *"hereinafter"*, *"therein"*, *"therefrom"*, *"whereof"*) na geiriau fel *"above-mentioned"* neu *"foregoing"*. Hwyrach y byddan nhw'n ateb diben weithiau os oes angen i ddarpariaeth gyfeirio ati hi ei hun neu gyfeirio yn ôl at rywbeth arall, ond yn yr achosion hynny defnyddiwch eiriau mwy penodol i egluro at beth rydych chi'n cyfeirio.

(5) At ei gilydd, dylai deddfwriaeth osgoi bathu termau newydd yn Gymraeg ac yn Saesneg. Er hynny, ambell waith fe all y bydd angen defnyddio gair sydd eisoes ar gael yn Gymraeg a phriodoli ystyr newydd iddo mewn deddfwriaeth. Er enghraifft, doedd y gair "mangre" ("lle, man, lleoliad, safle") ddim yn cael ei ddefnyddio'n gyffredin ond cafodd ei fabwysiadu i gyfateb i'r gair Saesneg *"premises"*.

## 3.17 Ceisiwch ddefnyddio geiriau sy'n cael eu deall yn gyffredinol ledled Cymru

(1) Ceisiwch osgoi jargon polisi neu jargon y gyfraith sy'n annhebygol o gael ei ddeall gan y darllenydd cyffredinol. Er hynny, nid yw bob amser yn bosibl (nac yn synhwyrol) mynegi cysyniadau cymhleth mewn iaith sy'n hawdd i bawb ei deall. Fe all termau technegol y gellid eu cyfrif yn jargon fod yn briodol os ydyn nhw wedi eu deall yn dda gan brif gynulleidfa'r ddeddfwriaeth. Ond mae angen cyfiawnhad llawn dros ddefnyddio'r rhain bob amser.

(2) Peidiwch â defnyddio acronymau mewn deddfwriaeth heb eu diffinio. I gael canllawiau ar greu acronymau newydd, gweler paragraff 4.4(5).

(3) Osgowch ddefnyddio geiriau lleol a thafodieithol yn Gymraeg ac yn Saesneg, gan ei bod yn bosibl na fyddant yn gyfarwydd i holl ddarllenwyr y ddeddfwriaeth. Er hynny, nid oes un gair Cymraeg derbyniol bob amser sy'n cael ei ddefnyddio ledled Cymru. Gan hynny, o dro i dro gall dau ddewis amgen rhanbarthol gael eu defnyddio yn yr un ddeddfwriaeth (gan eu gosod yn nhrefn yr wyddor a blaenslaes yn eu gwahanu). Er enghraifft, mewn sawl un o ddeddfau'r Cynulliad defnyddiwyd "tad-cu/taid, mam-gu/nain" wrth ddiffinio perthnasoedd mewn teulu.

## 3.18 Osgowch eiriau tramor a Lladin

(1) Defnyddiwch eiriau Cymraeg a Saesneg bob amser lle bo modd. Dim ond os nad oes dewis arall derbyniol ar gael y dylech ddefnyddio geiriau o'r Lladin neu o ieithoedd eraill.

(2) Erbyn hyn, mae llawer o'r termau Lladin a ddefnyddid ar un adeg yn y llysoedd wedi eu disodli, ac ar gyfer termau cyfreithiol Lladin eraill mae termau cyfatebol yn Gymraeg a Saesneg ar gael fel arfer sy'n debycach o gael eu deall gan ddarllenwyr cyffredin. Er enghraifft, ni ddylai deddfwriaeth ddweud bod person yn aelod o gorff "ex officio" (h.y. am fod ganddo swydd arall). Os oes angen dweud unrhyw beth, mae'n debygol y bydd geiriau fel "oherwydd y swydd honno" yn haws i'w deall.

(3) Eto i gyd, fe all termau Lladin fod yn dderbyniol yn yr achosion a ganlyn:

- (a) Pan nad oes term cyfatebol nad yw'n cynnwys Lladin (e.e. "gwarcheidwad ad litem", "treth stamp ad valorem");
- (b) pan fo'n angenrheidiol er mwyn nodi rhywogaeth benodol o organeb fyw drwy ddefnyddio'r system enwi draddodiadol sy'n cynnwys dau enw (e.e. "narcissus pseudonarcissus");
- (c) pan fo geiriau neu ymadroddion Lladin wedi eu mabwysiadu yn y Gymraeg neu'r Saesneg (e.e. "data", "agenda", "etc.").

## 3.19 Osgowch eiriau aneglur a haniaethol

(1) Bydd deddfwriaeth yn aml yn defnyddio geiriau cyffredinol neu haniaethol sy'n gallu bod yn gymwys mewn ystod eang o sefyllfaoedd. Weithiau yr ehangder ystyr hwnnw yw'r union beth y mae ar y drafftiwr ei angen, am fod angen i ddarpariaeth gwmpasu amrywiaeth eang o amgylchiadau. Ond os oes gan air neu ymadrodd amrywiaeth o ystyron posibl, bydd effaith y gair yn llai uniongyrchol a bydd rhaid i'r darllenwyr benderfynu pa ystyr a fwriedir. Os oes modd defnyddio geiriau mwy pendant a manwl, yn gyffredinol fe ddylai'r rheiny gael eu ffafrio.

(2) Mae amryw o ymadroddion cyffredinol eu geiriad yn cael eu defnyddio mewn deddfwriaeth i ddisgrifio perthnasoedd rhwng pethau. Yn Gymraeg, mae'r rhain yn cynnwys "mewn perthynas â", "mewn cysylltiad â" ac "o ran ", (yn Saesneg, maent yn cynnwys *"in relation to"*, *"in respect of"*, *"with respect to", "as respects" and "as regards"*). Mae'r ymadroddion hyn yn aml yn ddefnyddiol, ac mewn rhai achosion yn hanfodol, am nad ydynt yn nodi math penodol o berthynas.

(3) Ond ystyriwch a allech chi ddefnyddio term mwy uniongyrchol. Er enghraifft, gallai'r darllenwyr amgyffred yr ystyr yn gynt os byddwch yn dweud bod yr adran yn gymwys "i" achosion penodol nag os byddwch yn dweud ei fod yn gymwys "mewn perthynas â" yr achosion hynny. Gall y dewisiadau eraill mewn cyd-destunau eraill gynnwys "ar gyfer"ac "ynghylch".

(4) Mae paragraffau yn nes ymlaen yn y canllawiau hyn yn trafod termau eraill a allai fod yn aneglur ac yn awgrymu dewisiadau eraill a allai fod yn fwy defnyddiol i'r darllenwyr, yn enwedig:

- paragraff 5.6: "effeithio", "yn ddarostyngedig i", "heb ragfarnu";
- paragraff 9.4: "rhagnodi", "darparu ar gyfer", "gwneud darpariaeth ynghylch".

## 3.20 "O'r fath" ac "y cyfryw"

(1) Mae'r ansoddeiriau "o'r fath" neu "y cyfryw" ac "unrhyw" yn codi nifer o'r materion sydd wedi eu trafod yn y Bennod hon. Dylech ddefnyddio'r rhain gyn lleied ag y bo modd.

(2) Dylid osgoi "o'r fath" ac "y cyfryw" lle bynnag y bydd y fannod neu ansoddair dangosol yn gwneud y tro. Mewn rhai achosion gall y geiriau gael eu hepgor heb ddefnyddio dim yn eu lle. Yn yr un modd yn Saesneg, ni ddylai *"such"* gael ei ddefnyddio os bydd gair fel *"a"*, *"the"*, *"this"* neu *"that"* yn cyfleu'r un ystyr.

(3) Eto i gyd, mae "o'r fath" yn gallu bod yn llaw-fer ddefnyddiol i gyfeirio at rywbeth sydd o'r un fath â rhywbeth sydd wedi ei grybwyll eisoes, neu'n debyg iddo, (e.e. "mewn achos o'r fath"). Gall defnyddio "o'r fath" fel hyn osgoi'r angen i ailadrodd disgrifiadau neu oleddfiadau hir, ond gofalwch ei bod yn glir faint o'r geiriad blaenorol sy'n cael ei godi.

(4) Mae deddfwriaeth wedi defnyddio "y cyfryw" yn aml i gyfeirio at fath o beth sydd ar fin cael ei ddisgrifio, er enghraifft drwy ei gwneud yn ofynnol i ddarparu "y cyfryw wybodaeth y caiff Gweinidogion Cymru ei phennu mewn rheoliadau". Mae hyn yn ei gwneud yn glir bod rhaid i berson ddarparu'r wybodaeth i gyd, os caiff unrhyw wybodaeth ei phennu. Ond mae'n bur hynafol.

(5) Bydd "unrhyw" yn cael ei ddefnyddio weithiau yn yr un ystyr, er enghraifft mewn dyletswydd i Weinidogion Cymru ymgynghori ag "unrhyw bersonau y maent yn meddwl ei bod yn briodol ymgynghori â hwy". Ond mae hyn yn amwys, am nad yw'n gwbl glir a os rhaid ymgynghori â phob person y maent yn meddwl ei fod yn briodol, ynteu a allent gydymffurfio drwy ymgynghori ag unrhyw un yn unig o'r personau hynny.

(6) Os ydych yn bwriadu ei gwneud yn ofynnol i'r Gweinidogion ymgynghori â phawb y maent yn credu ei bod yn briodol ymgynghori â hwy, yn aml gallwch ddefnyddio'r fannod, er enghraifft drwy ei gwneud yn ofynnol iddynt ymgynghori "â'r personau y maent yn meddwl ei bod yn briodol ymgynghori â hwy". Er hynny, ni fydd yr awgrym bod yna wastad bobl y mae'n rhaid ymgynghori â hwy yn briodol os yw'r polisi yn caniatáu i'r Gweinidogion benderfynu nad oes neb. Gallwch osgoi'r awgrym drwy gyfeirio at "y personau (os oes rhai)…".

(7) Gall yr awgrym y bydd yna achosion bob amser y mae dyletswydd yn gymwys iddynt yn arbennig o ddi-fudd os yw'r ddyletswydd yn dibynnu ar y cwestiwn a fydd person arall yn arfer swyddogaeth ai peidio. Er enghraifft, gall dyletswydd i dalu "y ffi" a bennir mewn rheoliadau awgrymu bod y Gweinidogion yn gorfod gwneud rheoliadau yn pennu ffi. Os nad dyna'r bwriad, gall y drafftiwr ei gwneud yn glir na fydd ffi yn cael ei phennu o reidrwydd drwy ychwanegu'r geiriau "os pennir ffi" neu "os oes ffi" mewn cromfachau.

(8) Fel arall, yn aml gall y math hwn o ddarpariaeth gael ei ailsaernïo i osgoi'r materion hyn. Er enghraifft, gallai gofyniad i berson dalu ffi (os oes un) a bennir mewn rheoliadau gael ei fynegi yn hytrach fel pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n pennu bod rhaid i berson dalu ffi.

(9) Gall "unrhyw" gael ei ddefnyddio i bwysleisio bod rhywbeth yn gymwys yn gyffredinol neu heb ei amodi, ond dim ond os oes angen y pwyslais y dylai gael ei ddefnyddio fel hyn. Er enghraifft, gall fod yn briodol darparu y caiff "unrhyw berson" wneud neu wrthwynebu cais, er mwyn ei

gwneud yn glir nad oes angen bod gan y person unrhyw gysylltiad â phwnc y cais. Ond os nad oes dim byd yn y cyd-destun i awgrymu cyfyngiad neu gymhwyster, defnyddiwch yr enw heb y fannod yn Gymraeg (*"person"*) a'r fannod amhenodol yn Saesneg (*"a person"*).

## Drafftio sy'n Niwtral o ran Rhywedd

### 3.21 Osgowch iaith sy'n benodol o ran rhywedd

(1) Mae Penderfyniad y Llywydd o ran Ffurf Briodol Biliau Cyhoeddus yn dweud na "ddylai testun Saesneg Bil ddefnyddio iaith ryw-benodol oni bai nad oes modd mynegi ystyr y ddarpariaeth mewn unrhyw ffordd arall (e.e. mae'r ddarpariaeth yn un sy'n ymwneud â phobl o ryw benodol yn unig). Ni ddylai testun Cymraeg Bil ddefnyddio iaith ryw-benodol oni bai bod hyn yn ofynnol gan ramadeg y Gymraeg". Defnyddio iaith sy'n benodol o ran rhywedd hefyd yw un o'r seiliau y caiff y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad arnynt ynghylch offeryn statudol o dan Reol Sefydlog 21.2.

(2) Mae adran 8 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 yn darparu bod rhaid peidio â darllen geiriau sy'n dynodi personau o rywedd penodol fel pe baent yn gyfyngedig i bersonau o'r rhywedd hwnnw, ond ni ddylech ddibynnu ar yr adran hon i gyflawni canlyniad sy'n niwtral o ran rhywedd[7]. Yn hytrach, dylech sicrhau bod deddfwriaeth yn defnyddio iaith sy'n niwtral o ran rhywedd ac nad yw'n gwneud rhagdybiaethau ynghylch rhywedd pobl sy'n cyflawni rôl benodol (oni bai bod y rôl wedi ei chyfyngu i bobl o rywedd penodol).

(3) I sicrhau bod testun Saesneg deddfwriaeth yn cael ei mynegi mewn ffordd sy'n niwtral o ran rhywedd, osgowch ddefnyddio:

(a) rhagenwau sy'n benodol o ran rhywedd (*"he"* neu *"she"*), a

(b) enwau sy'n benodol o ran rhywedd (e.e. *"fireman"* neu *"manageress"*).

(4) Serch hynny, fe fydd iaith sy'n benodol o ran rhywedd yn briodol pan na all y deddfwriaeth fod yn gymwys ond i bobl o rywedd penodol, er enghraifft mewn deddfwriaeth ynghylch beichiogrwydd ac esgor. Hefyd dylai cyfeiriadau at Frenin neu Frenhines fod yn benodol o ran rhywedd gan gyfeirio at rywedd y Brenin neu'r Frenhines ar y pryd (ond ni ddylai cyfeiriadau at ddeiliaid swyddi eraill gael eu drafftio drwy gyfeirio at rywedd deiliad presennol y swydd).

(5) Nid yw'r materion hyn yn codi yn yr un modd yn y testun Cymraeg. Yn Gymraeg, cenedl ramadegol sydd i enwau, a bydd y rhagenwau'n dilyn cenedl ramadegol yr enwau y cyfeirir atynt. Nid yw cenedl ramadegol enw neu ragenw o reidrwydd yn awgrymu dim byd ynghylch rhywedd person.

(6) Mae'r paragraffau a ganlyn yn rhoi:

(a) enghreifftiau o dechnegau gwahanol y gall drafftiwr testun Saesneg deddfwriaeth eu defnyddio i osgoi rhagenwau sy'n benodol o ran rhywedd,

(b) canllawiau ar osgoi enwau sy'n benodol o ran rhywedd yn nhestun Saesneg deddfwriaeth a chrynodeb o'r ystyriaethau perthnasol yn y testun Cymraeg, ac

(c) canllawiau ar groesgyfeiriadau a diwygiadau i ddeddfwriaeth hŷn pan nad oedd y ddeddfwriaeth honno'n niwtral o ran rhywedd.

### 3.22 Technegau penodol at osgoi rhagenwau Saesneg sy'n benodol o ran rhywedd

(1) Ceisiwch osgoi defnyddio *"he or she"* fel dewis amgen yn lle dweud dim ond *"he"* neu *"she"*. Er bod y ffurfeiriad hwn wedi bod yn gyffredin mewn deddfwriaeth, gall fod yn lletchwith ac nid yw'n gwbl niwtral o ran rhywedd. Ceir technegau gwahanol eraill a all gynhyrchu iaith sy'n niwtral o ran rhywedd.

7 O ran deunydd a fewnosodir mewn deddfwriaeth nad yw Rhan 2 o Ddeddf 2019 yn gymwys iddi, gwneir darpariaeth debyg gan adran 6(a) a (b) o Ddeddf Dehongli 1978. Gweler hefyd baragraff 3.24 ynghylch iaith sy'n niwtral o ran rhywedd mewn diwygiadau.

### Aileiriwch er mwyn osgoi'r enw neu'r rhagenw

(2) Ystyriwch a oes modd aralleirio'r frawddeg i osgoi'r angen i gyfeirio'n ôl at yr enw, neu i ddileu'r ymadrodd sy'n cynnwys y cyfeiriad. Er engraifft:

> A justice of the peace may issue a warrant if satisfied…
>
> (Nid "... if he is satisfied...")
>
> The chairing member may resign…
>
> (Nid "... may resign his office...")

### Defnyddiwch rangymeriad

(3) Weithiau mae modd defnyddio rhangymeriad yn lle goddrych a berf. Er enghraifft:

> When entering premises, an inspector must…
>
> (Nid "When an inspector enters premises, he must...")

### Defnyddiwch "who" neu "whose"

(4) Mae "who" yn rhagenw heb rywedd a all osgoi'r angen am gyfeiriad yn ôl sy'n cynnwys rhagenw sy'n benodol o ran rhywedd neu enw sydd wedi ei ailadrodd. Er enghraifft:

> A person who contravenes subsection (1) commits an offence.
>
> (Nid "A person commits an offence if he contravenes subsection (1).")

(5) Weithiau fe fydd modd ddefnyddio "*whose*":

> A person whose application is refused may appeal.
>
> (Nid "If a person's application is refused, he may appeal.")

### Defnyddiwch "*the*", "*that*" neu "*those*" yn lle rhagenw meddiannol

(6) Weithiau gall y fannod "*the*" neu benderfynydd fel "*that*" neu "*those*" gael eu defnyddio yn lle'r rhagenw meddiannol, ond weithiau gall y dull hwn ei gwneud yn anos gweld y cysylltiad rhwng y person a'r enw. Er enghraifft:

> The Commissioner must give the advice…
>
> (Nid "... give his advice...")
>
> A person appointed as Deputy President of the Tribunal holds and vacates that position in accordance with the terms of appointment.
>
> (Nid "... his terms of appointment.")

### Defnyddiwch gystrawen amhersonol neu oddefol

(7) Gall cystrawen amhersonol fod yn briodol. Er enghraifft:

> It is an offence for a person to…
>
> (Nid "A person commits an offence if he...")

(8) Gall y stâd oddefol gael ei defnyddio yn hytrach na'r gweithredol, ond cymerwch ofal gan y gall y goddefol fod yn llai clir:

> The application must be made before the end of 14 days beginning with the day on which the person…
>
> (Nid "The person must apply before the end of 14 days beginning with the day on which he...")

### Ailadroddwch yr enw

(9) Gall enw gael ei ailadrodd yn hytrach na defnyddio rhagenw:

> A person ceases to be a non-executive member of WRA if the person becomes a member of staff of WRA.
>
> (Nid "…if he becomes a member of staff of WRA.")

(10) Er hynny, dylid defnyddio'r dechneg hon â gofal pan fo angen ailadrodd yr enw sawl gwaith neu pan fo'r enw'n enw cyfansawdd, gan y gall arwain at ddarpariaethau lletchwith a chlogyrnaidd.

### Defnyddiwch derm diffiniedig neu label

(11) Yn hytrach nag ailadrodd enw cyfansawdd, efallai y bydd modd defnyddio term diffiniedig byrrach, neu hyd yn oed llythyren yn label:

> If a person liable to a penalty ("P") has died, any penalty that could have been assessed on P may be assessed on the personal representatives of P.
>
> (Nid "… on his personal representatives.")

(12) Gall termau diffiniedig a llythrennau fod yn ddefnyddiol, ond maent yn gallu creu darpariaethau lletchwith. Maent hefyd yn gofyn i'r darllenydd wneud mwy o waith gan fod rhaid iddo roi'r union eiriad a fwriedir yn lle'r term diffiniedig.

(13) Gall label llythyren fod yn arbennig o anodd i'r darllenydd, gan nad yw'n adlewyrchu'r defnydd arferol. Er hynny, fe all fod o gymorth i wahaniaethu rhwng dau neu fwy o bobl wahanol.

### Defnyddiwch "they"

(14) Gall fod modd defnyddio enw lluosog ac wedyn defnyddio'r rhagenw "*they*" (neu "*their*", "*them*", "*themselves*" etc.) ond gofalwch na fydd hyn yn creu amwyster. Er engraifft:

> Participants may carry on regulated activities only if they hold a permit.
>
> (Nid "A participant may … only if he holds a permit.")

(15) Mae cyfeirio at enw unigol fel "*they*" yn naturiol wrth siarad Saesneg, ond mae rhai yn amau cywirdeb y peth ac felly fe ddylid osgoi hyn mae'n debyg mewn deddfwriaeth oni bai nad oes ffordd well o fod yn niwtral o ran rhywedd.

## 3.23 Osgoi enwau sy'n benodol o ran rhywedd

(1) Yn nhestun Saesneg deddfwriaeth, dylech osgoi geiriau sy'n dynodi neu'n awgrymu rhywedd penodol (megis geiriau sy'n gorffen â "*-man*"), oni bai bod bwriad i gyfeirio at rywedd penodol. Er enghraifft, yn lle "*chairman*", peth cyffredin yw defnyddio "*chair*", "*chairperson*" neu "*chairing member*".

(2) Bydd angen i ddrafftwyr ffurfio barn ynghylch beth yw dewis amgen sy'n niwtral o ran rhywedd ac sy'n dderbyniol. Wrth wneud hyn, dylent fod yn ymwybodol":

- (a) y gall geiriau fel "*testator*", "*manager*" a "*landlord*" gael eu gweld fel pe baent yn niwtral o ran rhywedd er bod iddynt ffurfiau benywaidd, gan fod tuedd bellach i beidio â defnyddio'r ffurfiau benywaidd;
- (b) y dylai'r terfyniad "*-ess*" gael ei osgoi.

(3) Yn Gymraeg, nid yw enwau sy'n gorffen ag "-wr" (sy'n cyfateb i "*-man*" yn Saesneg) o reidrwydd yn benodol i ddynion hyd yn oed os oes ffurf fenywaidd gyfatebol sy'n gorffen ag "-wraig". Gan hynny, fe all fod yn briodol (ac yn aml fe fydd yn briodol) defnyddio'r terfyniad "-wr". Y polisi yn gyffredinol yw defnyddio termau sydd wedi ennill eu plwyf yn hytrach na bathu termau newydd a allai ymddangos fel pe baent yn fwy niwtral o ran rhywedd, ond efallai y bydd achosion lle y bydd yn fwy priodol defnyddio dewis arall yn lle'r terfyniad "-wr".

(4) Un dewis yw'r terfyniad "-ydd", y bernir weithiau ei fod yn fwy niwtral o ran rhywedd; serch hynny, dim ond os yw'n naturiol gwneud hynny neu os nad oes term wedi ennill ei blwyf y dylai gael ei ddefnyddio.

(5) Dewis arall yw defnyddio parau o enwau gwrywaidd a benywaidd (megis "*athro neu athrawes*"). Ond dylid osgoi hyn os oes modd, gan ei fod yn arwain at ddarpariaethau annaturiol a chlogyrnaidd sy'n gofyn parau o ragenwau a threigladau i'r naill air a'r llall.

(6) Bydd angen i gyfieithwyr a drafftwyr deddfwriaeth ffurfio barn a yw enw Cymraeg penodol yn niwtral o ran rhywedd ai peidio.

## 3.24 Bod yn niwtral o ran rhywedd mewn croesgyfeiriadau a diwygiadau

(1) Dylid arddel yr un ymagwedd fel arfer at fod yn niwtral o ran rhywedd mewn darpariaethau sy'n diwygio deddfwriaeth arall neu'n cyfeirio ati. Hyd yn oed os yw'r ddeddfwriaeth bresennol yn defnyddio iaith sy'n benodol o ran rhywedd, dylai croesgyfeiriadau a thestun newydd ddefnyddio geiriad sy'n niwtral o ran rhywedd lle bynnag y bo modd gwneud hynny heb achosi dryswch neu nifer anghymesur o ddiwygiadau ychwanegol.

(2) Gall y ffaith bod offeryn statudol presennol yn defnyddio iaith rywedd-benodol fod yn rheswm i ystyried dirymu ac ail-wneud yr offeryn yn hytrach na'i ddiwygio. Mae pwyllgorau craffu'r Cynulliad wedi beirniadu offerynnau statudol sydd wedi defnyddio iaith rywedd-benodol mewn diwygiadau i ddeddfwriaeth bresennol. Nid ydynt wedi barnu bod cysondeb â'r ddeddfwriaeth wreiddiol yn gyfiawnhad dros ddefnyddio iaith rywedd-benodol; ac nid ydynt wedi derbyn dadleuon y gallai mewnosod darpariaethau sy'n niwtral o ran rhywedd beri dryswch na bwrw amheuaeth ar y ddeddfwriaeth wreiddiol.

### Cyfeirio at Gymru a gwledydd eraill

## 3.25 Cymru a Lloegr

(1) Mae Atodlen 1 i Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 yn darparu diffiniad cyffredinol o "Cymru" a fydd yn gymwys i gyfeiriadau yn neddfwriaeth Cymru oni bai bod darpariaeth benodol yn cael ei gwneud i'r gwrthwyneb neu fod y cyd-destun yn mynnu fel arall. Mae'r diffiniad yn cynnwys ardaloedd llywodraeth leol yng Nghymru a'r môr tiriogaethol cyfagos i Gymru, ac felly mae'n cynnwys yr un ardal â'r diffiniad yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006[8].

(2) Nid y diffiniad o Gymru yn Neddf 2019 yw'r un y bydd yn gymwys bob tro. Er enghraifft, pan fo un o Ddeddfau Senedd y Deyrnas Unedig yn cyfeirio at Gymru heb roi diffiniad, bydd i "*Wales*" yr ystyr a roddir iddo gan Ddeddf Dehongli 1978, sy'n cynnwys ardaloedd llywodraeth leol yn unig ac nid y môr tiriogaethol. Os yw Gweinidogion Cymru yn gwneud is-ddeddfwriaeth o dan Ddeddf lle mae i Gymru yr ystyr honno, efallai y bydd angen iddynt gymhwyso'r un diffiniad at yr is-ddeddfwriaeth.

(3) Er hynny, ni fydd y ffaith nad yw darn o ddeddfwriaeth Cymru yn gymwys i'r cyfan o'r môr tiriogaethol o reidrwydd yn golygu bod angen diffinio "Cymru" yn wahanol i Ddeddf 2019. Os bydd y darpariaethau eraill yn y ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn glir nad yw'n gymwys ond i bethau sy'n digwydd ar dir neu o fewn pellter penodol o'r lan, efallai na fydd ots bod ystyr ddamcaniaethol "Cymru" yn ehangach yn y ddeddfwriaeth.

8 Ni fydd y diffiniad hwn yn gymwys i gyfeiriad at "Cymru" a fewnosodir mewn deddfwriaeth nad yw Rhan 2 o Ddeddf 2019 yn gymwys iddi (gan gynnwys unrhyw ddeddfwriaeth a ddeddfir cyn 2020, ac unrhyw un o Ddeddfau Senedd y Deyrnas Unedig). Y diffiniad yn Neddf Dehongli 1978, nad yw'n cynnwys y môr tiriogaethol, fydd yn gymwys yn hytrach, oni bai bod bwriad i'r gwrthwyneb yn ymddangos. Os oes angen i "Cymru" gael yr ystyr ehangach yn y testun sydd wedi ei fewnosod, ac nad yw'r ddeddfwriaeth a ddiwygir eisoes yn gwneud darpariaeth i'r perwyl hwnnw, mae'n bosibl y bydd angen mewnosod diffiniad. Y dull arferol fu cymhwyso'r ystyr a geir yn adran 158 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

(4) Y ddiffiniad a roddir i “Lloegr” yn Neddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 yw bod iddo’r un ystyr ag sydd i “England” yn Neddf Dehongli 1978, sy’n golygu ei fod yn cynnwys ardaloedd llywodraeth leol Lloegr yn unig. Os oes angen i ddeddfwriaeth Cymru gyfeirio at unrhyw beth sy’n digwydd mewn unrhyw ran o’r môr tiriogaethol cyfagos i Loegr, bydd rhaid iddi wneud darpariaeth benodol i nodi’r rhan berthnasol o’r môr.

(5) Pan fo deddfwriaeth Cymru yn crybwyll Gymru a Lloegr gyda’i gilydd, dylid rhoi Cymru yn gyntaf yn y ddwy iaith; er enghraifft, “yng Nghymru neu yn Lloegr” neu “*in Wales or England*”. Er hynny:

(a) fe all fod yn briodol sôn am Loegr o flaen Cymru mewn testun sy’n cael ei fewnosod i ddeddfwriaeth uniaith sy’n gymwys i Loegr ;

(b) dylid cyfeirio at awdurdodaeth gyfreithiol Cymru a Lloegr bob amser fel “Cymru a Lloegr” yn Gymraeg ac “*England and Wales*” yn Saesneg.

## 3.26 “Rhanbarthol” a “cenedlaethol”

(1) Gall y geiriau “rhanbarth” a “rhanbarthol” gael eu defnyddio i gyfeirio at ran o Gymru (yn gyffredinol rhan sy’n cynnwys mwy nag un ardal awdurdod lleol) neu at ardal y tu allan i Gymru. Ni ddylent gael eu defnyddio i gyfeirio at Gymru gyfan, oni bai bod y ddeddfwriaeth bresennol yn ei gwneud yn ofynnol iddynt gael eu defnyddio felly.

(2) Y polisi cyffredinol o ran cyfathrebu ar ran Llywodraeth Cymru yw mai mewn perthynas â Chymru yn unig y dylid defnyddio’r gair “cenedlaethol”, ac nid mewn perthynas â’r Deyrnas Unedig. Dylai’r polisi hwn gael ei ddilyn hefyd yn neddfwriaeth Cymru, pan fo’n bosibl gwneud hynny. Ond yn aml mae’n well osgoi’r gair yn gyfan gwbl.

(3) Wrth sefydlu corff neu swydd i arfer swyddogaethau mewn perthynas â Chymru gyfan, neu wrth ddarparu ar gyfer unrhyw beth arall sydd i’w wneud mewn perthynas â Chymru gyfan, efallai y bydd yn briodol defnyddio label sy’n cynnwys y gair “cenedlaethol”. Er enghraifft, mae Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gofyn am gyhoeddi “dangosyddion cenedlaethol” o’r cynnydd tuag at y nodau llesiant, ac mae Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 yn gofyn am “strategaeth genedlaethol” ynghylch atal a lleihau gordewdra.

(4) Er hynny, fe fydd achosion pan fydd angen i ddeddfwriaeth Cymru ddefnyddio “*cenedlaethol*” neu “gwladol” i gyfeirio at y Deyrnas Unedig. Mae’r gair “national” i’w weld yn yr enwau a roddwyd i amryw o gynlluniau ledled y Deyrnas Unedig gan Ddeddfau Senedd y Deyrnas Unedig, megis “yswiriant gwladol” a’r the “isafswm cyflog cenedlaethol. Hefyd, mae’r term “diogelwch gwladol” yn cael ei ddefnyddio’n aml mewn deddfwriaeth heb ei ddiffinio ac mae’n cyfeirio at ddiogelwch y Deyrnas Unedig[9]. Does dim gwrthwynebiad i ddefnyddio’r termau hyn, sydd wedi ennill eu plwyf, yn neddfwriaeth Cymru – ac mae’n bosib nad oes dewis amgen ychwaith.

(5) Yn yr achosion uchod, mae’n amlwg ai at Gymru ynteu’r Deyrnas Unedig y mae’r gair “cenedlaethol” yn cyfeirio. Er enghraifft, mae Deddfau sy’n darparu ar gyfer dangosyddion cenedlaethol a strategaeth genedlaethol yn egluro sut mae’r pethau hynny yn ymwneud â Chymru.

9 Gall buddiannau diogelwch gwladol ymestyn hefyd i amddiffyn diogelwch gwladwriaethau eraill: gweler Secretary of State for the Home Department v Rehman [2003] 1 AC 153.

(6) Serch hynny, gall ymadroddion sy’n cynnwys y gair “cenedlaethol” greu ansicrwydd o’u defnyddio heb esboniad. Efallai na fydd yn glir ai at Gymru ynteu at y Deyrnas Unedig y mae’r gair “cenedlaethol” yn cyfeirio; a hyd yn oed os yw hi’n glir at ba wlad y cyfeirir, efallai y bydd angen rhagor o eglurhad ynglŷn â’r union berthynas. Er enghraifft, gallai gofyniad bod rhaid cyhoeddi mewn “papur newydd cenedlaethol” adael amheuaeth, sef a allai’r hysbysiad gael ei gyhoeddi mewn papur newydd sy’n cylchredeg yng Nghymru yn unig ynteu a fyddai’n gorfod cael ei gyhoeddi mewn papur newydd sy’n cylchredeg ledled y Deyrnas Unedig. Neu fe allai fod yn aneglur a fyddai “polisi cenedlaethol” yn golygu polisi i’r Deyrnas Unedig gyfan ynteu i Gymru’n unig (neu’n cynnwys y ddwy).

(7) Os defnyddir ymadroddion sy’n cynnwys y gair “cenedlaethol”, efallai y bydd angen diffinio er mwyn osgoi amwysedd; ond efallai y byddai’n well defnyddio disgrifiadau gwahanol sy’n osgoi’r gair “cenedlaethol” yn gyfan gwbl. Yn hytrach na chyfeirio at bapur newydd cenedlaethol, gallai fod yn gliriach ac yn symlach cyfeirio at bapur newydd sy’n cylchredeg yn gyffredinol yng Nghymru neu yn y Deyrnas Unedig; ac yn lle cyfeirio at bolisi cenedlaethol, efallai y bydd angen dweud mwy ynghylch pwy sy’n gwneud y polisi neu lle mae’n gymwys, er enghraifft drwy gyfeirio at bolisi i Gymru neu bolisi Gweinidogion Cymru.

## 3.27 “Cymreig”, “Cymru”

(1) Mae defnyddio “Cymreig” neu “Cymru” yn osgoi rhywfaint o amwysedd y gair “cenedlaethol” a hynny am mai dim ond at Gymru y gallant gyfeirio ac nid y Deyrnas Unedig. Eto i gyd, nid yw’r rhain yn nodi perthynas arbennig â Chymru, felly gall fod angen diffinio ymadroddion sy’n cynnwys “Cymru” neu “Cymreig”. Er enghraifft, mae Rhan 2 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gosod targedau ar gyfer lleihau “allyriadau net Cymru” o nwyon tŷ gwydr, ond yn gwneud darpariaeth fanwl ynghylch yr allyriadau a gyfrifir.

(2) Gall labeli sy’n cynnwys y gair “Cymru” neu “Cymreig” gael eu darllen hefyd fel pe baent yn awgrymu bod fersiwn arall o’r un peth nad yw’n Gymreig. Gall Deddfau Senedd y Deyrnas Unedig ddefnyddio labeli fel “*Welsh taxpayer*” neu “*Welsh Consolidated Fund*” er mwyn gwahaniaethu rhwng trefniadau yng Nghymru a threfniadau tebyg mewn mannau eraill yn y Deyrnas Unedig. Ond fe allai’r awgrym bod gwahaniaeth o’r fath yn cael ei dynnu fod yn annymunol pan fo deddfwriaeth Cymru yn creu trefniadau sy’n gymwys yng Nghymru yn unig.

(3) Serch hynny, weithiau fe fydd angen i ddeddfwriaeth Cymru ddefnyddio ymadroddion sy’n cynnwys y gair “Welsh” ac sydd wedi eu diffinio yn Neddfau Senedd y Deyrnas Unedig, fel “swyddog achosion teuluol Cymru” neu “cwch pysgota Cymreig”. Gall hyn fod yn fwy cyffredin pan fo Gweinidogion Cymru yn gwneud is-ddeddfwriaeth o dan un o Ddeddfau Senedd y Deyrnas Unedig.

(4) Yn Saesneg, gall y gair “Welsh” fod yn amwys am y gall gyfeirio at Gymru neu’r Gymraeg. Gan hynny, dylai’r testun Saesneg mewn deddfwriaeth ddefnyddio’r ymadrodd “*Welsh language*” wrth ddisgrifio unrhyw beth sydd yn Gymraeg (e.e. “*the Welsh language text*” mewn deddfwriaeth) neu wrth gyfeirio at yr iaith ei hun (e.e. “*the use of the Welsh language*”). Yn Gymraeg, nid yw’r mater hwn yn codi gan mai at yr iaith yn unig y mae “Cymraeg” yn cyfeirio, ac nad oes angen cynnwys y gair *“iaith”*)[10].

10 Mae’r pwyntiau hyn yn un mor gymwys i’r geiriau “Saesneg” ac “*English*”.

## Cyfeirio at gyrff ac unigolion

### 3.28 Cyfeirio at "person"

(1) Mae'r diffiniad o "person" yn Atodlen 1 i Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 yn cynnwys "corff o bersonau corfforedig neu anghorfforedig". Bydd y diffiniad hwn yn cael effaith oni bai bod darpariaeth benodol yn cael ei gwneud i'r gwrthwyneb neu fod y cyd-destun yn mynnu fel arall[11].

(2) Gan hynny, mae yna ragdybiaeth nad yw cyfeiriadau at "personau" yn gyfyngedig i fodau dynol unigol (neu "personau naturiol") ond eu bod hefyd yn cyfrif cyrff fel cwmnïau, corfforaethau statudol, partneriaethau a chymdeithasau anghorfforedig. Mae hyn yn golygu nad oes angen cyfeirio at "person neu gwmni" neu "person neu gorff" oni allai'r cyd-destun ei gwneud yn ofynnol i "person" gael ei ddarllen yn gul.

(3) Pan fwriedir i ddarpariaethau gyfeirio at bersonau naturiol yn unig, bydd y bwriad hwnnw yn aml yn glir o'r cyd-destun. Ond os yw'n bosibl na fydd yn amlwg, ystyriwch ddefnyddio term gwahanol fel "unigolyn".

### 3.29 Enwau unigol yw cyrff statudol a chyrff eraill

(1) Dylai cyrff cyhoeddus a sefydliadau eraill gael eu trin fel rheol fel enwau unigol, p'un a ydynt wedi eu corffori ai peidio. Er enghraifft, cyfeiriwch at awdurdod lleol, tribiwnlys neu bwyllgor fel "ef" yn hytrach na "hwy".

(2) Mae enwau rhai cyrff yn cynnwys enwau lluosog. Os yw'r enw lluosog yn rhan o ddisgrifiad o rôl y corff, megis Cymwysterau Cymru, cyfeiriwch at y corff yn yr unigol. Ond os enw'r corff yn cael ei ddisgrifio fel grŵp o aelodau unigol neu aelodau a benodir, megis "y Comisiynwyr" neu "yr ymddiriedolwyr", cyfeiriwch at y corff yn y lluosog.

(3) Hefyd, pan fyddwch yn diwygio testun deddfwriaeth sydd eisoes yn defnyddio'r lluosog, gall fod angen dilyn hynny er mwyn osgoi dryswch.

### 3.30 Darpariaethau sy'n sefydlu cyrff a swyddi

(1) Pan fo darpariaeth yn creu corfforaeth neu swydd statudol, dylai ddarparu bod y gorfforaeth neu'r swydd "wedi ei sefydlu" yn hytrach na defnyddio geiriad fel "bydd".

(2) Dylai darpariaeth sy'n ailddatgan deddfwriaeth gynharach a sefydlodd gorff neu swydd ddarparu bod y corff neu'r swydd "yn parhau mewn bodolaeth". Os yw'r ddarpariaeth hefyd yn newid enw'r corff neu'r swydd, dylai ddarparu bod y corff "wedi ei ailenwi" neu fod y swydd "wedi ei hailenwi" gyda'r enw newydd. Ac os yw'r darpariaethau newydd yn llwyr ddisodli'r darpariaethau a sefydlodd y corff neu'r swydd yn wreiddiol, dylai'r darpariaethau gwreiddiol gael eu diddymu.

(3) Bydd enw'n cael ei roi i gorff neu swyddfa statudol yn Gymraeg a Saesneg fel arfer. Os felly, dylai'r fersiwn o'r ddarpariaeth sy'n sefydlu neu'n parhau y corff neu'r swydd yn y naill iaith a'r llall roi'r enw yn yr iaith honno yn unig. Mewn Deddf neu offeryn dwyieithog, does dim angen i'r fersiwn o'r ddarpariaeth yn y naill iaith na'r llall gynnwys yr enw yn yr iaith arall.[12]

---

11 Mae Atodlen 1 i Ddeddf Dehongli 1978 yn diffinio "person" yn yr un ffordd ar gyfer cyfeiriadau a fewnosodir mewn deddfwriaeth nad yw Rhan 2 o Ddeddf 2019 yn gymwys iddi.

12 Er hynny, os yw'r ddarpariaeth sy'n sefydlu corff yn cael ei mewnosod yn un o Ddeddfau Senedd y Deyrnas Unedig, dim ond yn Saesneg y bydd y ddarpariaeth yn bodoli a bydd angen iddi roi enw'r corff yn y ddwy iaith. I gael enghraifft, gweler adran 81 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

## Rhifau, dyddiadau ac unedau mesur

### 3.31 Rhifolion

(1) Defnyddiwch ffigurau ar gyfer rhifau uwchlaw 10.

(2) Defnyddiwch ffigurau ar gyfer rhifau hyd at a chan gynnwys 10 yn y cyd-destunau a ganlyn:

(a) amserau, cyfnodau amser, oedrannau a dyddiadau (gweler hefyd baragraff 3.33);

(b) canrannau, symiau arian ac unedau mesur (gweler paragraff 3.34);

(c) cyfrifiadau, fformiwlâu a rhifau ac ynddynt bwynt degol;

(d) rhifau eiddo mewn cyfeiriadau.

(3) Mewn cyd-destunau eraill, gall rhifau hyd at ac yn cynnwys 10 gael eu mynegi mewn geiriau neu eu mynegi fel ffigurau, gan ddibynnu ar yr hyn sy'n ymddangos yn fwyaf naturiol neu briodol yn y cyd-destun penodol.

(4) Dylai rhif sy'n dechrau brawddeg gael ei fynegi mewn geiriau fel arfer.

(5) Osgowch gymysgu ffigurau a geiriau pan fyddwch yn cyfeirio at bethau o'r un math yn yr un cyd-destun. Os defnyddir rhifau hyd at 10 ac uwchben 10 gyda'i gilydd, dylech roi pob un mewn ffigurau fel rheol.

(6) Dylai ffracsiynau fod mewn ffigurau mewn cyfrifiadau neu fformiwlâu, ond dylent gael eu mynegi fel geiriau mewn testun (e.e. "traean").

(7) Yn nhestun Cymraeg deddfwriaeth, y system ugeiniol (vigesimal) draddodiadol a ddylai gael ei defnyddio, yn hytrach na'r system ddegol (*decimal*) wrth ddefnyddio geiriau i gyfleu rhifau. Ceir canllawiau manwl ar yr arddull fewnol wrth gyfeirio at rifau yn y testun Cymraeg yng nghanllawiau'r Gwasanaeth Cyfieithu, *Canllawiau Arddull Cyfieithu Deddfwriaethol*.

### 3.32 Trefnolion

(1) Ni ddylai trefnolion uwchlaw 10fed gael eu mynegi mewn geiriau fel rheol. Er enghraifft, dywedwch "yr 28ain diwrnod" yn hytrach na "yr wythfed diwrnod ar hugain".

(2) Penderfynwch a fyddwch yn mynegi trefnolion hyd at ac yn cynnwys 10fed ar ffurf geiriau yng ngoleuni'r hyn sydd yn ymddangos yn fwyaf naturiol neu briodol yn y cyd-destun.

(3) Dylai'r terfyniadau Cymraeg -ydd, -fed, -ed, -ain etc. a'r terfyniadau Saesneg -st, -rd a -th ymddangos mewn teip cyffredin, nid fel uwchysgrif.

### 3.33 Dyddiadau

(1) Dylech nodi dyddiadau yn y ffurf "1 Ebrill 2019".

(2) Sylwch y dylai'r diwrnod o'r mis gael ei roi fel ffigur bob tro, heb y fannod bendant a heb y terfyniadau Cymraeg -ydd, -fed, -ed, -ain etc. a heb y terfyniadau Saesneg -*st, -rd a -th*.

### 3.34 Unedau a symbolau

(1) Ar gyfer canrannau, defnyddiwch "%" yn hytrach nag "y cant".

(2) O ran symiau arian, defnyddiwch "£" yn hytrach nag "o bunnoedd" gan nodi'r ffigur yn llawn. Er enghraifft, dywedwch "£10,000,000" yn lle "deng miliwn o bunnoedd".

(3) O ran pellterau, pwysau a mesuriadau eraill, mae'n dderbyniol rhoi enwau llawn yr unedau mesur (e.e. "500 metr sgwâr" neu "15 gradd Celsius") neu ddefnyddio'r symbolau a'r byrfoddau safonol (e.e. "500 $m^2$" neu "*15°C*").

# Pennod 4: Diffinio

## Rhagymadrodd

### 4.1 Trosolwg o'r Bennod

Mae'r Bennod hon yn ymdrin â darpariaethau yn Neddfau'r Cynulliad ac is-ddeddfwriaeth ynghylch ystyr y termau a ddefnyddir mewn mannau eraill yn y ddeddfwriaeth. Mae'n cynnwys canllawiau ynghylch pryd i ddefnyddio diffiniadau, sut i'w hysgrifennu a ble i'w gosod.

### 4.2 Pryd i ddefnyddio diffiniadau

(1) Gall diffiniadau mewn deddfwriaeth ateb y dibenion a ganlyn:

(a) diffinio cysyniadau allweddol y bydd angen i'r darllenydd eu deall er mwyn gwneud synnwyr o'r ddeddfwriaeth (megis ystyr "anghenion dysgu ychwanegol" yn y ddeddfwriaeth ynglŷn â darpariaeth addysgol i bobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol);

(b) creu acronymau neu labeli eraill o ran cyfleustra wrth ddrafftio, er mwyn osgoi ailadrodd ymadroddion hir (er enghraifft, creu'r label "DCRhT" ar gyfer Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016);

(c) egluro, ehangu neu gyfyngu ystyr geiriau neu ymadroddion i sicrhau eu bod yn cael eu deall mewn ffyrdd penodol mewn darn o ddeddfwriaeth (er enghraifft, pennu mai person o dan 18 oed yw ystyr "plentyn" mewn deddfwriaeth, neu fod "prydles" yn cynnwys isbrydles).

(2) Ni ddylid cynnwys diffiniad oni fydd yn helpu eglurder neu sicrwydd. Os bwriedir i derm gyfleu ei ystyr cyffredin yn y geiriadur yn y Ddeddf, neu os yw'n amlwg o'r cyd-destun at beth y mae'r term yn cyfeirio, ni ddylai fod angen diffiniad. Er enghraifft, mewn darpariaethau ynglŷn â cheisiadau am drwyddedau, efallai y bydd yn ddiogel cyfeirio at "y ceisydd" gan ddibynnu ar y cyd-destun heb gynnwys diffiniad.

(3) Ystyriwch a fydd cynnwys diffiniad yn helpu darllenwyr y ddeddfwriaeth. Gall defnyddio diffiniad i greu label i gysyniad cymhleth helpu drwy rannu'r deunydd, ond fe allai ei gwneud yn anos i'r darllenydd ail-lunio'r stori. Ac efallai na fydd o gymorth os byddwch yn addasu ystyr gair bob dydd i olygu pethau na fyddent fel arall yn cael eu cynnwys (neu i hepgor pethau y byddai'r gair yn eu cynnwys fel arfer).

### 4.3 Pwyntiau eraill ynglŷn â defnyddio diffiniadau

(1) Ni ddylai Deddf neu offeryn gynnwys diffiniad o derm oni bai bod y term yn cael ei ddefnyddio yn y Ddeddf neu yn yr offeryn.

(2) Ni ddylai diffiniad gynnwys deunydd gweithredol arwyddocaol. Dylai pwerau, dyletswyddau a gofynion gweithdrefnol gael eu nodi mewn darpariaethau o sylwedd yn hytrach nag mewn diffiniadau. Er enghraifft, mae'n dderbyniol dweud mai ystyr "rheoliadau" yw rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru, ond byddai cynnwys gweithdrefn y Cynulliad yn y diffiniad yn ormod.

(3) Cyn cynnwys diffiniad o derm a ddefnyddir mewn diffiniad arall yn unig, ystyriwch a fydd o gymorth ichi wneud hynny. Ar y naill law, gall y dull hwn ofyn i'r darllenydd wneud mwy o waith i ddeall y testun. Ar y llaw arall, efallai mai "haenu" diffiniadau fel hyn fydd y ffordd orau i esbonio set gymhleth o gysyniadau neu i wneud y prif ddiffiniad yn hydrin.

## Drafftio diffiniadau

### 4.4 Dewis label

(1) Gofalwch fod y termau y byddwch yn eu diffinio yn briodol ar gyfer eu hystyron arfaethedig. Osgowch labeli sy'n gamarweiniol a pheidiwch â rhoi ystyr i dermau diffiniedig na fyddai'r darllenydd yn disgwyl ei gweld. Er enghraifft, byddai darpariaeth bod "cyfeiriadau at olion bysedd yn cynnwys olion traed" yn debygol o ddrysu darllenwyr y ddeddfwriaeth.

(2) Cofiwch y gall ystyr naturiol y term a ddiffinnir ddylanwadu ar sut mae'n cael ei ddehongli, o leiaf os bydd angen datrys amwysedd yn y diffiniad.[13]

(3) Wrth greu label, ceisiwch ddefnyddio term sy'n rhoi syniad o'r ystyr. Yn hytrach na defnyddio term plaen nad yw'n cynnig gwybodaeth fel "y person perthnasol", ystyriwch a oes term arall a fyddai'n fwy buddiol i'r darllenydd (ond heb dynnu ei sylw a heb ddylanwadu ar yr ystyr mewn ffordd annymunol).

(4) Gall fod yn gyfleus defnyddio llythrennau neu acronymau fel labeli i bobl neu gysyniadau, yn arbennig pan fo darpariaethau'n cynnwys nifer o gyfeiriadau at bobl wahanol neu pan fônt yn darparu ar gyfer cyfrifiadau (e.e. mewn fformiwla). Gall acronymau osgoi'r angen i ailadrodd enwau neu ymadroddion hir, ond fe allen nhw fod yn llai defnyddiol i'r darllenwyr. Ystyriwch bob amser a fydd yr acronym yn hawdd i'r darllenwyr ei ddeall.

(5) Pan ddefnyddir acronymau neu lythrennau fel labeli, mae'n debyg ei bod yn fwy buddiol defnyddio llythrennau cyntaf y geiriau a gynrychiolir. Mae hyn yn golygu y bydd angen yn aml i'r testunau Cymraeg a Saesneg ddefnyddio llythrennau gwahanol. Er enghraifft, os yw'r testun Saesneg yn defnyddio 'C' am claimant, byddai'r testun Cymraeg yn defnyddio "H" am hawlydd. Neu os yw'r testun Saesneg yn defnyddio "TCMA" fel label ar gyfer *Tax Collection and Management (Wales) Act 2016*, byddai'r testun Cymraeg yn defnyddio "DCRhT" ar gyfer Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016.

(6) Gallai defnyddio'r un label ar gyfer pethau gwahanol yn yr un darn o ddeddfwriaeth ddrysu darllenwyr (ac mae'n mynd yn groes i egwyddor drafftio cyson).

### 4.5 Diffiniadau cynhwysfawr ac anghynhwysfawr

(1) Mae'r modd y mynegir diffiniad yn dibynnu ar y cwestiwn a yw'n gynhwysfawr neu beidio.

(2) Mae diffiniad cynhwysfawr yn darparu datganiad cyflawn o ystyr yr ymadrodd. Darpariaeth o'r math hwn fel arfer fydd darpariaeth sy'n diffinio cysyniad allweddol neu sy'n creu label.

(3) Dim ond y materion y mae angen egluro neu addasu ystyr y term mewn perthynas â nhw fydd o dan sylw mewn diffiniad anghynhwysfawr. Gall fod yn ddiffiniad cynhwysol, y bwriedir iddo ehangu ystyr term neu egluro bod y term yn cynnwys pethau penodol; neu'n ddiffiniad anghynhwysol, y bwriedir iddo gulhau ystyr term neu egluro nad yw yn cynnwys pethau penodol. Bydd i'r term wedyn ei ystyr gyffredin neu gyffredinol fel y mae wedi ei haddasu gan y diffiniad.

(4) Mae'n bosibl i ddiffiniad defnyddio cymysgedd o'r ddau ddull, drwy ddatgan bod i derm ystyr benodol, ac wedyn egluro bod rhai pethau wedi eu cynnwys yn y diffiniad neu wedi eu hepgor ohono. At ei gilydd, dim ond os nad oes ffordd foddhaol arall i osgoi amwysedd mewn diffiniad cynhwysfawr y dylai'r dull hwn gael ei arfer.

### 4.6 Ffurfeiriad: diffiniadau cynhwysfawr

(1) At ei gilydd, dyma fydd ffurf diffiniad cynhwysol:

Ystyr "plentyn" yw person sydd o dan 18 oed.

13 Gweler, er enghraifft, MacDonald (Inspector of Taxes) v Dextra Accessories Ltd [2005] 4 All ER 107.

(2) Gall fod yn dderbyniol rhoi diffiniad yn y ffurf naratif a ganlyn hefyd:

> Y dyddiad y mae trafodiad tir yn cael effaith at ddibenion y Ddeddf hon yw'r dyddiad cwblhau.
>
> Mae cyfeiriad yn y Rhan hon at derfynu ysgol a gynhelir yn gyfeiriad at yr awdurdod lleol yn peidio â'i chynnal.

(3) Gall y dull naratif fod yn fuddiol wrth ddiffinio ymadrodd hirach sy'n ymddangos mewn ffurfiau gwahanol yn y ddeddfwriaeth, gan y gall fod yn llai tebygol o awgrymu y bydd yr ymadrodd bob amser yn ymddangos yn y ffurf a ddefnyddir yn y diffiniad. Mae hwn yn gwestiwn mewn deddfwriaeth ddwyieithog yn benodol, gan fod cystrawennau brawddeg gwahanol y Gymraeg a'r Saesneg yn peri ei bod yn debycach y bydd rhaid i'r ymadrodd gael ei rannu neu ei addasu mewn un o leiaf o'r ddau destun.[14]

(4) Yn hytrach na diffinio ymadrodd hirach, efallai y bydd modd lleihau nifer y geiriau y mae angen iddynt ymddangos yn y term diffiniedig ei hun, drwy gynnwys disgrifiad parenthetig o'r cyd-destun y mae'r diffiniad yn gymwys ynddo. Er enghraifft:

> Ystyr "rhiant", mewn perthynas â phlentyn, yw …

(5) Ond, mae'r dull hwn yn torri ar draws trefn geiriau arferol y frawddeg. Ystyriwch bob amser a oes gwir angen y geiriau parenthetig.

(6) Os ydych yn bwriadu i'r pethau a grybwyllir yn y diffiniad fod yn ddatganiad cynhwysfawr o ystyr y term, peidiwch â dweud bod y term "yn cynnwys" y pethau hyn, gan y gallai hynny gael ei gymryd i awgrymu bod yna bethau eraill sy'n cael eu cwmpasu gan y term hefyd.

(7) Yn hytrach na rhoi diffiniad mewn darpariaeth ar wahân, mae hefyd yn dderbyniol (ac efallai'n fwy cyfleus) rhoi label i gysyniad trwy gynnwys y label mewn cromfachau ar ôl y cyfeiriad cyntaf at y cysyniad hwnnw. Er enghraifft:

> Os nad yw'r swm wedi eu dalu ar y dyddiad y mae'n ofynnol ei dalu neu cyn hynny, mae'r swm yn dwyn llog (y cyfeirir ato yn y Rhan hon fel "llog taliadau hwyr") …
>
> Caiff CNC wneud cytundeb â pherson sydd â buddiant mewn tir yng Nghymru ynghylch rheolaeth y tir neu ddefnydd o'r tir ("cytundeb rheoli tir") …

(8) Wrth ddiffinio term fel hyn, gofalwch sicrhau ei fod yn gwbl glir pa eiriau yn y ddarpariaeth sy'n ffurfio'r diffiniad o'r term.

## 4.7 Ffurfeiriad: diffiniadau anghynhwysfawr

(1) At ei gilydd, bydd diffiniad cynhwysol (sy'n datgan bod term yn cynnwys pethau penodol a allai fod y tu allan i'w ystyr gyffredin fel arall) yn cymryd y ffurf a ganlyn:

> Mae "rhent" yn cynnwys swm sy'n daladwy o dan drwydded.

(2) Bydd diffiniad anghynhwysol (sy'n datgan nad yw term yn cynnwys pethau penodol a allai gael eu cynnwys fel arall) at ei gilydd yn cymryd y ffurf a ganlyn:

> Nid yw "corff anghorfforedig" yn cynnwys partneriaeth.

(3) Mae hefyd yn bosibl defnyddio'r dull naratif. Er enghraifft:

> Mae cyfeiriadau at ddogfennau y deuir o hyd iddynt yn y fangre yn cynnwys—
>
> (a) dogfennau a gedwir ar gyfrifiaduron neu ddyfeisiau electronig eraill yn y fangre, a
>
> (b) dogfennau a gedwir yn rhywle arall ac y gellir cael mynediad iddynt drwy gyfrifiaduron neu ddyfeisiau electronig eraill yn y fangre.

---

14 Ni fydd diffinio ymadrodd ar ffurf naratif o reidrwydd yn newid effaith gyfreithiol y diffiniad, gan fod adran 9 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 eisoes yn golygu y bydd y diffiniad yn gymwys i ffurfiau ac addasiadau gramadegol eraill ar yr ymadrodd (gweler paragraff 4.9). Ond ystyriwch ba ddull o nodi'r diffiniad sy'n debygol o fod yn fwyaf buddiol i'r darllenydd.

(4) Wrth ddefnyddio’r dull naratif, mae’n ddigon ichi ddweud “mae cyfeiriadau at x yn cynnwys y”. Does dim angen dweud bod cyfeiriadau at x “yn cynnwys **cyfeiriadau** at y”.

(5) Ni fydd dweud bod term “yn cynnwys” pethau penodol yn golygu o reidrwydd y caiff ei ddehongli fel pe bai’n cwmpasu pethau tebyg eraill. Gall y ffaith bod pethau penodol wedi eu crybwyll gael ei chymryd fel pe bai’n awgrymu bod pethau eraill o’r un fath yn cael eu hepgor, yn niffyg unrhyw reswm arall dros sôn am rai yn unig ohonynt. Os ydych yn bwriadu i’r term gwmpasu pethau eraill, ystyriwch a oes angen dweud mwy.

## 4.8 Egluro pryd mae diffiniad yn gymwys

(1) Mae’n bwysig egluro pryd y bydd pob diffiniad yn gymwys. Felly yn gyffredinol, dylai diffiniadau gynnwys geiriau fel “yn y Ddeddf hon” neu “yn yr adran hon” oni bai nad oes yna le i amheuaeth. Gofalwch fod y diffiniad yn cael ei gymhwyso at y darpariaethau cywir.

(2) Ran amlaf, bydd “at ddibenion y Ddeddf hon, ystyr x yw y” yn golygu’r un peth ag “Yn y Ddeddf hon, ystyr x yw y”. Oni bai bod rheswm arbennig dros ddefnyddio’r ffurf “at ddibenion”, dylech ffafrio “yn y Ddeddf hon” am ei fod yn fyrrach.

(3) Nid yw’r cwestiwn a fydd diffiniad mewn Deddf yn gymwys i ddeddfwriaeth arall neu gyd-destunau eraill yn debygol o gael ei ateb ar y sail ei fod wedi ei fynegi fel pe bai’n gymwys “yn” y Ddeddf sy’n ei gynnwys neu “at ddibenion” y Ddeddf honno). Os ydych yn bwriadu i’r term fod yn gymwys (neu beidio) mewn cyd-destunau eraill, efallai y bydd angen i chi wneud hynny’n glir mewn rhyw ffordd arall.

(4) Gallai diffiniadau sy’n edrych ymlaen megis “Yn yr adran hon a’r adran nesaf, ystyr x yw y” arwain at risg y bydd darllenwyr yr ail adran yn colli’r diffiniad yn yr adran gyntaf. Gall fod yn fwy buddiol os yw’r ddarpariaeth gyntaf yn rhoi diffiniad cyffredinol sy’n gymwys i’r Bil neu’r offeryn cyfan gan ei fynegeio yn y ddarpariaeth gyffredinol ar ddehongli; neu os nad yw hynny’n briodol, ystyriwch a ddylai’r ail ddarpariaeth ailadrodd y diffiniad neu ddarparu bod i’r term yr ystyr a roddir gan y ddarpariaeth gyntaf.

(5) Yn gyffredinol nid yw’n ddefnyddiol dweud bod diffiniadau yn gymwys “oni bai bod y cyd-destun yn mynnu fel arall”. Peidiwch â defnyddio’r geiriad hwn o gwbl os nad oes achosion lle mae’r cyd-destun yn mynnu fel arall. Ac os oes achos o’r fath, ceisiwch egluro ble mae’r diffiniad yn gymwys neu’n anghymwys yn hytrach na gadael i’r darllenydd weithio hynny .

## 4.9 Cymhwyso diffiniadau at dermau perthynol

(1) Yn gyffredinol does dim angen darparu bod diffiniad o derm yn gymwys i ffurfiau neu amrywiadau eraill ar y term hwnnw. Mae adran 9 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 yn darparu bod “rhannau ymadrodd eraill a ffurfiau neu oleddfiadau gramadegol” i’w dehongli yn unol â’r diffiniad, a’u bod yn cael effaith oni bai bod darpariaeth bendant yn cael ei gwneud i’r gwrthwyneb neu fod y cyd-destun yn mynnu fel arall.[15]

(2) Er enghraifft, os bydd Deddf neu offeryn yn diffinio “y gofrestr”, mae adran 9 yn golygu mai’r sefyllfa ddiofyn yw bod termau sy’n perthyn yn ramadegol megis “cofrestru” a “cofrestriad” yn cael eu dehongli drwy gyfeirio at y diffiniad hwnnw.[16] Fydd dim angen i’r diffiniad o “y gofrestr” ddarparu bod “ymadroddion perthynol i’w dehongli yn unol â hynny” er mwyn sicrhau’r canlyniad hwnnw[17].

15 Mae amryw o ddarpariaethau Deddf 2019 wedi eu hepgor “i’r graddau … y mae’r cyd-destun yn mynnu fel arall” am y byddai’n amhosibl i Ddeddf 2019 nodi ymlaen llawn yr holl gyd-destunau lle y dylai ei darpariaethau cyffredinol fod yn gymwys neu’n anghymwys. Dyma eithriad prin i’r argymhellion ym mharagraff 4.8(5).

16 I gael trafodaeth fanwl ar yr ymadroddion y bydd yr adran yn gymwys iddynt, gweler Atodiad A i’r llythyr dyddiedig 8 Mawrth 2019 oddi wrth y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog Brexit at Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, ymat **www.senedd.assembly.wales/documents/s86243/**.

17 Nid yw Deddf Dehongli 1978 yn cynnwys darpariaeth sy’n cyfateb i adran 9. Mae’n bosibl, felly, y gall fod angen darpariaeth o’r math a grybwyllir yn y paragraff hwn wrth fewnosod testun mewn deddfwriaeth nad yw rhan 2 o Ddeddf 2019 yn gymwys iddi (gan gynnwys unrhyw ddeddfwriaeth a ddeddfir cyn 2020, ac unrhyw un o Ddeddfau Senedd y Deyrnas Unedig).

(3) Ystyriwch bob amser a fydd adran 9 o Ddeddf 2019 yn rhoi'r canlyniad cywir, ac a fydd yn rhoi ystyr ddigon clir a manwl ar gyfer term perthynol.

## Diffiniadau mewn deddfwriaeth arall

### 4.10 Diffiniadau cyffredinol yn Neddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019

(1) Mae Atodlen 1 i Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 yn cynnwys diffiniadau o amryw o dermau, a fydd yn gymwys i ddeddfwriaeth Cymru oni bai bod yna ddarpariaeth bendant i'r gwrthwyneb neu fod y cyd-destun yn mynnu fel arall. Mae'r termau a ddiffinnir yn Atodlen 1 yn cynnwys "tir", "person", "Cymru" ac "ysgrifennu". Maent hefyd yn cynnwys termau sy'n ymwneud â deddfwriaeth (megis "deddfu" ac "is-ddeddfwriaeth), termau sy'n ymwneud â'r Undeb Ewropeaidd ac ymadawiad y Deyrnas Unedig ohono, ac enwau amryw o gyrff cyhoeddus.

(2) Pan fo Deddf neu offeryn yn defnyddio term a ddiffinnir yn Atodlen 1 gan fwriadu i'r term fod â'r un ystyr, ni ddylai ailadrodd y diffiniad. Os yw'n ymddangos ei bod yn bwysig tynnu sylw'r darllenwyr at ddiffiniad penodol yn Atodlen 1, dylid gwneud hynny yn y deunydd esboniadol sy'n cyd-fynd â'r ddeddfwriaeth. Mewn offeryn statudol, gall yr wybodaeth gael ei rhoi mewn troednodyn hefyd.

### 4.11 Cymhwyso diffiniadau o ddeddfwriaeth arall

(1) Os bydd Bil neu offeryn statudol yn defnyddio term y bwriedir iddo fod â'r ystyr sydd wedi ei rhoi mewn darn o ddeddfwriaeth sy'n bodoli eisoes, ystyriwch bob amser a fyddai'n well ailddatgan y diffiniad yn llawn yn hytrach na chymhwyso'r diffiniad presennol. (Peidiwch â gwneud y ddau.) Gall copïo'r diffiniad fod yn fwy defnyddiol os yw'n bwysig neu'n gymharol fyr; ac os cafodd y ddeddfwriaeth sydd eisoes yn bodoli ei gwneud yn uniaith Saesneg, bydd ailddatgan y diffiniad yn sicrhau bod fersiwn Gymraeg ar gael hefyd.

(2) Un rheswm dros gymhwyso diffiniad sy'n bodoli fyddai er mwyn codi newidiadau yn y diffiniad yn y dyfodol. Os yw Bil Cynulliad neu is-offeryn Cymreig yn darparu bod i derm yr ystyr a roddir gan ddeddfiad arall, y sefyllfa ddiofyn o dan adran 25 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 yw y bydd hyn yn cynnwys diwygiadau yn y dyfodol i'r deddfiad arall sy'n effeithio ar yr ystyr honno. Os **nad** ydych yn bwriadu i'r Bil neu'r offeryn gael eu heffeithio gan newidiadau i ddeddfwriaeth arall ar ôl deddfu'r Bil neu'r offeryn, bydd angen gwneud hynny'n glir[18].

(3) Mae amryw o ffyrdd i fenthyca diffiniadau o ddeddfwriaeth arall. Gallech ddefnyddio'r ffurfiau a ganlyn i gymhwyso diffiniad o derm a geir mewn Deddf arall:

> Yn y Ddeddf hon, mae i "llesiant" yr ystyr a roddir gan adran 2 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (dccc 4).
>
> In y Ddeddf hon, mae i "llesiant" yr un ystyr ag yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (dccc 4) (gweler adran 2).

(4) Os yw'r ffurf gyntaf yn creu'r effaith a ddymunir, dylech ddewis hon am ei bod yn fwy cryno a phenodol. Ond fe allai'r ail ddull fod yn fwy priodol os oes rhaid i ystyr y term mewn deddfwriaeth flaenorol gael eu hadeiladu ar sail nifer o ddarpariaethau gwahanol, a gall fod yn well hefyd os ydych am gynnwys cyfraith achosion sydd wedi ymhelaethu ar y diffiniad.

(5) Mae hefyd yn bosibl mabwysiadu ffurf naratif, a gall hyn fod yn briodol pan fo'r ymadrodd sy'n cael ei ddiffinio yn ymadrodd hirach, neu lle mae'r diffiniad i'w gael mewn nifer o ddarpariaethau gwahanol. Er enghraifft:

> Mae'r cyfeiriad at weithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy i'w ddehongli yn unol ag adran 5 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (dccc 2).

---

18 Wrth ddiwygio deddfwriaeth nad yw Rhan 2 o Ddeddf 2019 yn gymwys iddi, dylid cadw mewn cof y bydd y diffiniadau yn Atodlen 1 i Ddeddf Dehongli 1978 yn gymwys yn lle'r rhai yn Atodlen 1 i Ddeddf 2019. Ceir nifer o wahaniaethau rhwng y diffiniadau yn y ddwy Atodlen, fel yr amlinellir ym mharagraffau 60 i 64 o'r Nodiadau Esboniadol i Ddeddf 2019.

(6) Os ydych yn cymhwyso diffiniad o ddeddfwriaeth sy'n bodoli yn Saesneg yn unig, y ffordd i wneud hyn yn y testun Cymraeg yw cyfeirio at y diffiniad Saesneg. Er enghraifft, os yw'r testun Saesneg yn dweud:

> In this Act, "hospital" has the meaning given by section 206 of the National Health Service (Wales) Act 2006 (c. 42).

Bydd angen i'r testun Cymraeg ddweud:

> Yn y Ddeddf hon, mae i "ysbyty" yr ystyr a roddir i "hospital" gan adran 206 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 (p. 42).

(7) Sylwch ar y pwyntiau arddull a ganlyn:

(a) Does dim gwahaniaeth ai at yr ystyr a roddir "yn" y ddarpariaeth arall ynteu "gan" y ddarpariaeth arall y byddwch yn cyfeirio.

(b) Osgowch ffurfiau fel "ystyr x yw x o fewn ystyr Deddf Y". Efallai na fydd hyn yn glir iawn i'r darllenwyr, a'r cyfan sydd yma yw ffordd fwy cymhleth o ddweud "mae i x yr un ystyr ag yn Neddf Y".

(c) Yn lle defnyddio'r gair "construe" yn y testun Saesneg wrth ddarparu sut mae term i gael ei ddehongli, ystyriwch ddefnyddio "*interpret*" neu "*read*" sy'n fwy cyfarwydd. (I gyfleu "dehongli" mae'r Saesneg yn defnyddio "*construe*" ac "*interpret*" ill dau.)

## 4.12 Rhoi i dermau mewn is-ddeddfwriaeth yr un ystyr ag yn y ddeddfwriaeth sylfaenol

(1) Nid yw Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 yn cynnwys darpariaeth sy'n cyfateb i adran 11 o Ddeddf Dehongli 1978, sy'n darparu bod i ymadroddion a ddefnyddir mewn is-ddeddfwriaeth yr ystyr sydd iddynt yn y Ddeddf neu'r Mesur (neu yn neddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir) y gwneir yr is-ddeddfwriaeth odanynt. Gan hynny, dylai is-offeryn Cymreig gynnwys darpariaeth bendant lle bynnag y bwriedir i ymadrodd gario ystyron sy'n dod o'r ddeddfwriaeth sylfaenol.

(2) Pan fo is-offeryn Cymreig yn defnyddio termau sydd wedi eu diffinio yn y ddeddfwriaeth sylfaenol, a'r cyfan y mae ei angen yw cymhwyso'r diffiniadau hynny at y termau yn yr offeryn, bydd yr ystyriaethau drafftio yr un fath yn gyffredinol ag mewn unrhyw achos lle bwriedir i derm fod â'r ystyr a roddwyd iddo gan ddarn arall o ddeddfwriaeth: gweler paragraff 4.11.

(3) Er hynny, efallai na fydd bob amser yn ymarferol rhestru pob diffiniad mewn rhiant-Ddeddf sy'n berthnasol i offeryn. Hefyd, efallai y bydd achosion lle mae'r bwriad yn ehangach na dim ond cymhwyso diffiniadau a nodir yn y rhiant-ddeddf at yr offeryn, gan ddibynnu hefyd ar ffyrdd eraill y mae geiriau ac ymadroddion yn y rhiant-ddeddf wedi magu ystyron arbennig. Er enghraifft, gall y rhiant-Ddeddf ddefnyddio term heb ei ddiffinio, ond bod yna ddealltwriaeth ynglŷn ag ystyr y term hwnnw sy'n deillio o gyd-destun y Ddeddf neu o'r gyfraith achosion.

(4) Yn y sefyllfaoedd hyn, gall fod yn briodol i'r offeryn gynnwys darpariaeth debyg i adran 11 o Ddeddf Dehongli 1978 sy'n rhoi i dermau a ddefnyddir yn yr offeryn (neu mewn Rhan neu ddarpariaeth benodol) yr un ystyr ag sydd iddynt yn y rhiant-Ddeddf (neu yn y Rhan neu'r ddarpariaeth berthnasol o'r Ddeddf honno). Er enghraifft:

> Mae i ymadroddion a ddefnyddir yn y [Rheoliadau hyn] [Rhan hon] ac yn Neddf Tai (Cymru) 2014 (dccc 7) yr un ystyr ag yn y Ddeddf honno.

(5) Un o effeithiau'r math hwn o ddarpariaeth yw hyn: os bydd y rhiant-ddeddf yn defnyddio term a ddiffinnir yn Atodlen 1 i Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 ond ei bod yn ei ddefnyddio gydag ystyr sy'n wahanol i'r ystyr yn Atodlen 1, ystyr y term yn yr offeryn fydd yr un a geir yn y rhiant-ddeddf yn hytrach nag yn Atodlen 1. Os nad dyna'r bwriad ynglŷn â therm penodol, bydd angen gwneud eithriad ar gyfer y term hwnnw.

(6) Nid yw'r dull hwn o gymhwyso ystyron yn gwbl foddhaol ar gyfer offerynnau a wneir o dan Ddeddfau Senedd y Deyrnas Unedig neu ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir, gan na fydd termau a ddefnyddir yn nhestun Cymraeg yr offeryn yn ymddangos yn y hiant-ddeddf. Yn hytrach dylai'r testun Cymraeg ddarparu bod i ymadroddion a ddefnyddir yn yr offeryn yr un ystyr â'r ymadroddion Saesneg cyfatebol yn y rhiant-ddeddf.

(7) Gan hynny, fe fydd y darpariaethau sy'n cymhwyso ystyron termau yn y rhiant-ddeddf yn wahanol yn nhestunau Cymraeg a Saesneg yr offeryn. Er enghraifft:

> Mae i ymadroddion Cymraeg yn y Rheoliadau hyn sy'n cyfateb i ymadroddion Saesneg a ddefnyddir yn Neddf Iechyd Planhigion 1967 (p. 8) yr un ystyr â'r ymadroddion hynny yn y Ddeddf honno.
>
> Expressions used in these Regulations and in the Plant Health Act 1967 (c. 8) have the same meaning as in that Act.

(8) Mae'r math hwn o ddarpariaeth yn dal yn gofyn i ddarllenydd y testun Cymraeg wneud rhywfaint o waith i adnabod y termau y mae eu hystyron yn cael eu cymhwyso. Ond, dyma'r gorau y gellir ei wneud os na chafodd y rhiant-ddeddf ei gwneud yn Gymraeg, os nad yw'n ymarferol i'r offeryn gymhwyso diffiniadau penodol sy'n dod o'r rhiant-ddeddf.

## Lleoli diffiniadau

### 4.13 Ble i osod diffiniadau yn Neddfau'r Cynulliad

(1) Pan fo term diffiniedig yn cael ei ddefnyddio mewn un ddarpariaeth yn unig mewn Deddf dylai'r diffiniad ymddangos yn yr un ddarpariaeth (e.e. yr un adran neu'r un paragraff mewn Atodlen) a bod yn gymwys i'r ddarpariaeth honno yn unig.

(2) Pan fo Deddf yn defnyddio term diffiniedig mewn amryw o leoedd, bydd angen i'r diffiniad fod yn gymwys yn fwy cyffredinol. Gall gael ei roi mewn adran ddehongli gyffredinol, sef un o'r darpariaethau cyffredinol tua diwedd y Ddeddf, neu gall ymddangos mewn man arall. Dylai'r penderfyniad am leoliad y diffiniad gael ei lywodraethu gan yr hyn sy'n debygol o fod yn fwyaf buddiol i'r darllenydd, a fydd yn dibynnu ar bwysigrwydd y term.

(3) Os yw'r term mor bwysig nes bod angen i'r darllenydd fod wedi darllen y diffiniad er mwyn deall yr hyn sy'n cael ei ddweud, dylai'r diffiniad ymddangos naill ai yn y lle cyntaf y defnyddir y term neu mewn darpariaeth ragarweiniol ynglŷn â diffiniadau ar ddechrau'r Ddeddf (neu ddechrau'r grŵp perthnasol o ddarpariaethau).

(4) Pan fo term sy'n cael ei ddefnyddio mewn mwy nag un ddarpariaeth wedi ei ddiffinio ymlaen llaw fel hyn, dylech gyfeirio at y diffiniad o hyd tua diwedd y Ddeddf yn y ddarpariaeth gyffredinol ynghylch dehongli neu'r mynegai o dermau diffiniedig (os oes un). Bydd cyfeiriad at y diffiniad yn dilyn y ffurf a ganlyn:

> Mae i "anghenion dysgu ychwanegol" yr ystyr a roddir gan adran 2.

(5) Yn aml bydd modd ymdrin â mân ddiffiniadau yn yr adran ddehongli gyffredinol tua diwedd y Ddeddf. Gall diffiniadau sy'n egluro neu'n addasu ystyr termau cyffredin gael eu gadael fel arfer tan y diwedd, oni bai bod yna berygl y caiff y darllenydd ei gamarwain o ddifrif.

(6) Gan hynny, mae adran ddehongli gyffredinol (o dan y pennawd "Dehongli") fel arfer yn gymysgedd o fân ddiffiniadau a chyfeiriadau at ddiffiniadau a roddwyd eisoes. Mae hyn yn golygu y gall y darllenwyr weld mewn un man a yw unrhyw derm wedi ei ddiffinio neu beidio.

(7) Y cyfan y mae "Mynegai o ymadroddion wedi eu diffinio" neu "Mynegai o dermau wedi eu diffinio" yn ei wneud yw rhestru termau sydd wedi eu diffinio mewn man arall a'r darpariaethau sy'n eu diffinio. Gall hyn fod yn ddefnyddiol mewn darn o ddeddfwriaeth sy'n cynnwys nifer fawr o ddiffiniadau. Weithiau gall fod yn briodol cael adran ddehongli gyffredinol sy'n nodi mân ddiffiniadau yn llawn, a mynegai sy'n rhestru pob un o'r termau diffiniedig a ddefnyddir yn y Ddeddf.

## 4.14 Ble i osod diffiniadau mewn offerynnau statudol

(1) Fel yn achos Deddf, dylai'r diffiniad o derm a ddefnyddir mewn un ddarpariaeth yn unig mewn offeryn statudol ymddangos yn yr un ddarpariaeth (e.e. yr un rheoliad neu'r un erthygl).

(2) Pan fo term diffiniedig yn cael ei ddefnyddio mewn mwy nag un ddarpariaeth mewn offeryn, dylai'r penderfyniad ble i leoli'r diffiniad gael ei seilio ar beth fydd yn fwyaf buddiol i'r darllenwyr, fel yn achos Deddfau.

(3) O ran confensiwn, mae darpariaeth ddehongli gyffredinol mewn offeryn statudol yn ymddangos tua dechrau'r offeryn yn hytrach na thua'r diwedd. Dewis amgen a geir weithiau mewn offerynnau sy'n cynnwys nifer fawr iawn o ddiffiniadau yw rhestru'r rheiny mewn Atodlen a gyflwynir gan ddarpariaeth yn agos i ddechrau'r offeryn.

(4) Mae darpariaeth ddehongli gyffredinol yn rhestru'r holl dermau diffiniedig a ddefnyddir drwy'r offeryn (a hynny fel arfer o dan y pennawd "Dehongli" fel mewn Deddf). Serch hynny, efallai y byddai'n fwy defnyddiol i'r darllenwyr pe baech yn cyflwyno ac yn diffinio term mewn erthygl neu reoliad o sylwedd, yn enwedig os yw'r diffiniad yn hir neu'n gymhleth. Os felly, dylai'r ddarpariaeth ddehongli gyffredinol gynnwys cyfeiriad at y diffiniad. Er enghraifft:

> Mae i "myfyriwr cymwys" yr ystyr a roddir gan reoliad 6.

(5) Gall fod yn briodol i roi diffiniad yn rhaglith yr offeryn neu mewn troednodyn, er enghraifft drwy greu acronym i osgoi ailadrodd enw Deddf. Serch hynny, dim ond ar gyfer cyfeiriadau at y term yn y rhaglith neu mewn troednodiadau y dylech wneud hynny, ac nid cyfeiriadau mewn darpariaethau gweithredol. Rhaid i'r diffiniad o derm a ddefnyddir yng nghorff yr offeryn gael ei roi mewn darpariaeth weithredol (megis rheoliad neu erthygl). Ar y llaw arall, ni ddylai term sy'n cael ei ddefnyddio yn y rhaglith neu mewn troednodiadau yn unig gael ei ddiffinio mewn darpariaeth weithredol.

### Rhestrau o ddiffiniadau

## 4.15 Fformat rhestrau o ddiffiniadau

(1) Mewn rhai achosion, gall wneud synnwyr i ddarpariaeth ddehongli restru diffiniadau mewn trefn gysyniadol gan ddefnyddio darpariaeth ar wahân, wedi ei rhifo, ar gyfer pob diffiniad, er enghraifft lle mae pob diffiniad yn adeiladu ar y diffiniad blaenorol. Ond ran amlaf dylai diffiniadau gael eu rhestru yn nhrefn yr wyddor gan ddefnyddio paragraffau heb rifau.

(2) Mae'r diffiniadau yn cael eu trefnu yn ôl yr wyddor Gymraeg yn y testun Cymraeg, ac yn ôl yr wyddor Saesneg yn y testun Saesneg. Yn y ddwy iaith, mae'r fannod bendant yn cael ei hanwybyddu, ond mae arddodiaid yn cael eu cyfrif. Dylai diffiniadau sy'n dechrau â rhifau, megis diffiniad o'r "*2050 emissions target*" yn Saesneg, ymddangos gyntaf a chael eu rhestru yn nhrefn y rhifau.

(3) Mewn offeryn statudol, dylai diffiniadau sy'n labeli ar gyfer darnau eraill o ddeddfwriaeth (megis "Deddf 2018") fynd ar ddechrau'r rhestr yn hytrach nag yn nhrefn yr wyddor. Dylid rhestru deddfwriaeth sylfaenol o flaen is-ddeddfwriaeth, ac ym mhob categori dylid rhestru'r deddfiadau mewn trefn gronolegol.

(4) Gall diffiniadau a nodir mewn rhestrau heb rif yn nhrefn yr wyddor ymddangos mewn trefn wahanol yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae hyn yn codi'r materion drafftio a ganlyn.

(5) Yn gyntaf, ni ddylech ysgrifennu diffiniadau mewn ffordd sy'n rhagdybio y byddant yn ymddangos mewn trefn benodol. Er enghraifft, os yw'r diffiniad cyntaf yn Saesneg yn crybwyll Deddf wrth ei henw a bod yr ail ddiffiniad yn cyfeirio'n ôl at "*that Act* ", ni fydd yr un dull yn gweithio yn y Gymraeg os bydd trefn y ddau ddiffiniad yn wahanol. I leihau'r risg o wneud camgymeriadau, efallai y byddai'n well rhoi enw llawn y Ddeddf yn y ddau ddiffiniad.

(6) Yn ail, i'w gwneud yn haws cymharu fersiynau Cymraeg a Saesneg o restr heb rifau, dylai pob term a ddiffinnir gael ei ddilyn gan gyfeiriad at y term yn yr iaith arall, a ddylai gael ei roi mewn cromfachau ac mewn llythrennau italig. Bydd y diffiniadau felly yn ymddangos fel hyn:

ystyr "awdurdod lleol" (*"local authority"*) yw …

"local authority" (*"awdurdod lleol"*) means …

(7) Dim ond mewn rhestrau heb rifau y mae hyn yn gymwys. Os rhoddir pob diffiniad mewn darpariaeth sydd â rhif ar wahân, ni ddylai'r termau yn yr iaith arall gael eu cynnwys. Bydd y rhifau yn sicrhau bod y rhestr yn ymddangos yn yr un drefn yn y ddwy iaith.

(8) Mewn darpariaeth sy'n cynnwys rhestr o ddiffiniadau, dylai pob cofnod orffen â hanner colon, heb gysylltair.

# Pennod 5: Croesgyfeirio a'r Perthnasoedd Rhwng Darpariaethau

## 5.1 Trosolwg o'r Bennod

(1) Fe ddylai'r berthynas rhwng darpariaethau statudol fod yn glir, ond nid yw hynny o reidrwydd yn awgrymu y dylid cael croesgyfeiriadau rhyngddynt. Mae'r bennod hon yn rhoi canllawiau ynghylch pa bryd y gall fod yn briodol cynnwys croesgyfeiriadau a sut i wneud eu diben yn glir.

(2) Gweler Pennod 6 i gael canllawiau manwl ar y geiriad i'w ddefnyddio wrth ddyfynnu darn arall o ddeddfwriaeth, a Phennod 7 i gael canllawiau ar ddrafftio diwygiadau i ddeddfwriaeth arall.

## 5.2 Defnyddio croesgyfeiriadau

(1) Gall croesgyfeiriadau at ddarpariaethau eraill neu ddarnau eraill o ddeddfwriaeth fod yn waith caled i'r darllenydd, felly ceisiwch beidio â'u defnyddio. Weithiau gallwch eu hosgoi drwy ad-drefnu deunydd.

(2) At ei gilydd, mae'n fwy defnyddiol cyfeirio at syniad neu reol o sylwedd, yn hytrach nag at y ddarpariaeth statudol sy'n eu cynnwys (nad yw'n debygol o fod o ddiddordeb i'r darllenwyr). Ac yn gyffredinol gall darpariaethau gael eu darllen yng ngoleuni'r hyn sydd wedi mynd o'u blaen, o leiaf yn yr un adran neu'r un rheoliad, fel na fydd angen cyfeirio'n ôl at ddarpariaeth gynharach o bosibl.

> Fel engraifft, mae adran 143(1) o Ddeddf Rheoli a Chasglu Trethi (Cymru) 2016 yn darparu bod trethdalwyr sy'n methu cydymffurfio â gofynion penodol ar gadw cofnodion yn "agored i gosb". Mae yna eithriad os oes gan Awdurdod Refeniw Cymru dystiolaeth arall sy'n profi'r materion a fyddai wedi cael eu profi gan y cofnodion coll.
>
> Fe allai'r eithriad ddweud "Nid yw is-adran (1) yn gymwys" o dan yr amgylchiadau hynny. Yn hytrach, mae is-adran (2) yn parhau'r gosodiad heb groesgyfeiriad, gan ddweud yn syml "Ond nid oes unrhyw gosb i'w thalu"os oes tystiolaeth arall sy'n profi'r materion. Mae hyn yn fwy defnyddiol na chyfeirio at is-adran (1).

(3) Gall defnyddio diffiniadau fod yn ffordd arall i leihau'r angen i groesgyfeirio, er enghraifft drwy ddiffinio "trwydded" fel trwydded a ddyroddwyd o dan adran benodol fel nad oes angen cyfeirio at yr adran honno o hyd. I gael canllawiau ar ddefnyddio diffiniadau, gweler Pennod 4.

## 5.3 Cyfeirio tuag ymlaen

(1) Gall fod yn ddi-fudd os yw darpariaeth yn cyfeirio at ddeunydd y mae angen i'r darllenydd ei ddeall y pryd hwnnw, ond nad yw'n ymddangos tan yn ddiweddarach yn y Ddeddf neu'r offeryn. Gall cyfeiriad o'r fath tuag ymlaen fod yn arwydd bod angen ad-drefnu'r deunydd.

(2) Er hynny, weithiau mae'n ddefnyddiol cyfeirio at ddeunydd diweddarach (neu gynharach) sy'n berthnasol ond na fydd angen i'r darllenwyr ei ddeall y pryd hwnnw o reidrwydd. Gall hyn gynnwys deunydd ynghylch materion fel gweithdrefn neu ddehongli, neu achosion neu eithriadau penodol. Er enghraifft, mae adran 194 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn gwneud darpariaeth gyffredinol ynghylch ystyr "preswylfa arferol" ond mae hefyd yn darparu yn is-adran (7):

> Gweler hefyd adrannau 185(1) i (3) a 186(2) am ddarpariaeth o ran preswylfa arferol personau sydd mewn carchar, llety cadw ieuenctid neu lety mechnïaeth etc.

## 5.4 Cyfeirio at ddarpariaethau yn yr un ddeddfwriaeth: “uchod”, “isod”, “o’r Ddeddf hon” etc.

(1) Pan fo darpariaeth mewn Deddf neu offeryn yn cyfeirio at raniad arall yn yr un Ddeddf neu offeryn, fel arfer mae’n ddigon cyfeirio at y rhaniad arall yn ôl rhif, e.e. fel Rhan 1, adran 2 neu reoliad 3.

(2) Peidiwch â defnyddio ymadroddion fel “adran 2 uchod” neu “reoliad 3 isod”.

(3) Yn gyffredinol dyllech osgoi ymadroddion fel “adran 4 o’r Ddeddf hon”, “is-adran (5) o’r adran hon” a “pharagraff 6 o’r Atodlen hon”. Ond, fe allai’r math hwn o eiriad gynnig eglurhad buddiol mewn rhai achosion:

(a) Gall fod yn briodol cyfeirio at ddarpariaeth “o’r Ddeddf hon” neu “o’r Rheoliadau hyn” pan fydd angen gwahaniaethu rhwng darpariaethau yn y Ddeddf neu’r offeryn o dan sylw a darpariaethau mewn darn arall o ddeddfwriaeth (e.e. pan fo Deddf yn cyfeirio at adran o Deddf arall un union o flaen neu ar ôl crybwyll un o’i hadrannau hi ei hun).

(b) Pan fo Deddf neu offeryn wedi eu rhannu’n Rhannau a hefyd yn cynnwys Atodlenni sydd wedi eu rhannu’n rhannau, fe all fod yn ddymunol i ddarpariaeth mewn un o’r Atodlenni hyn ei gwneud yn glir ai at Ran o’r Atodlen ynteu at Ran o’r Ddeddf y cyfeirir.

(c) Pan fo Deddf neu offeryn yn cynnwys dwy neu ragor o Rannau sydd wedi eu rhannu’n benodau, a bod darpariaeth mewn un o’r Rhannau hynny’n cyfeirio at bennod arall yn yr un Rhan, gall fod yn fuddiol dangos mai cyfeiriad yw hwn at y Bennod berthnasol “yn y Rhan hon”.

(4) Wrth fewnosod deunydd mewn darn presennol o ddeddfwriaeth sy’n defnyddio “uchod” neu “isod” neu unrhyw un neu ragor o’r ymadroddion eraill a grybwyllir yn y paragraff hwn, nid yw’n angenrheidiol defnyddio’r ymadroddion hynny er mwyn bod yn gyson ag arddull y gwreiddiol.

## 5.5 “Darpariaethau”

(1) Peth cyffredin yw defnyddio’r gair “darpariaethau” i gyfeirio at gynnwys darn o ddeddfwriaeth neu raniad ynddo. Gall cyfeirio at “ddarpariaethau” Deddf neu adran gwmpasu unrhyw beth ynddi, gan nad yw’r term wedi ei gyfyngu i unrhyw raniad penodol o’r testun. Gall “darpariaeth” olygu Deddf gyfan, adran neu uned lai o destun, neu hyd yn oed rheol neu gysyniad nad yw’n ffurfio uned benodol o destun.

(2) Gan hynny, gall cyfeiriad at “unrhyw ddarpariaeth yn y Ddeddf hon” fod yn ffordd fuddiol i gyfeirio’n gyffredinol at unrhyw beth sydd wedi ei gynnwys yn y Ddeddf. Ar y llaw arall, gall y math hwn o ffurf fod yn llai defnyddiol i’r darllenydd nag i’r drafftiwr, felly ystyriwch a oes modd bod yn fwy penodol.

(3) Pan ddefnyddir y gair “darpariaethau” i gyfeirio at y cyfan o Ddeddf neu o raniad mewn testun, ar y cyfan mae’r gair yn ddiangen a gall gael eu hepgor. Er enghraifft, does dim angen dweud “mae darpariaethau adran 2 o’r Ddeddf yn gymwys”. Gallwch gyfleu’r un ystyr mewn llai o eiriau drwy ddweud “mae adran 2 o’r Ddeddf yn gymwys”.

## 5.6 Dangos perthnasoedd rhwng darpariaethau: “yn ddarostyngedig i”, “er gwaethaf”, “heb ragfarnu” ac “yn benodol”

(1) Pan fo Deddf neu offeryn yn cynnwys darpariaethau a allai wrthdaro â’i gilydd, neu â darpariaethau mewn darn arall o ddeddfwriaeth, mae wedi bod yn gyffredin dangos y berthynas yn y ffyrdd a ganlyn:

(a) drwy ddweud bod darpariaeth sy’n cael ei hamodi gan ddarpariaeth arall neu ei threchu ganddi “yn ddarostyngedig” i’r ddarpariaeth honno;

(b) drwy ddweud bod darpariaeth sy’n amodi darpariaeth arall neu’n ei threchu yn gymwys “er gwaethaf” y ddarpariaeth arall;

(c) drwy ddweud bod darpariaeth na fwriedir iddi amodi na threchu darpariaeth arall “heb ragfarnu” y ddarpariaeth arall honno neu “nid yw’n effeithio” arni.

(2) Ystyriwch bob amser a allwch ymdopi heb eiriad o’r mathau hyn a dibynnu yn hytrach ar y cyd-destun i wneud y berthynas rhwng y ddau osodiad yn glir. Yn aml bydd modd gwneud hyn pan fo gosodiad amodi yn agos at y gosodiad y mae’n ei amodi. Er enghraifft, os yw is-adran (1) o adran yn nodi rheol gyffredinol a bod is-adran (2) yn creu eithriad, ni ddylai fod angen i is-adran (1) ddweud ei bod “yn ddarostyngedig i is-adran (2)”.

(3) Yn y sefyllfa hon, gallech ddangos bod yr ail osodiad yn amodi’r un cyntaf drwy ddechrau’r ail is-adran ag “Ond”. Ni ddylech orddefnyddio’r dull hwn, gan fod geiriau rhy bendant yn gallu tynnu sylw’r darllenydd. Ac ni fydd angen y dull hwn os yw eisoes yn amlwg bod yr ail osodiad yn amodi’r un cyntaf.

(4) Os oes angen egluro’r berthynas rhwng dwy ddarpariaeth, nid yw dweud bod y naill yn gymwys “yn ddarostyngedig” i’r llall, “er gwaethaf” y llall neu “heb ragfarnu” y llall, neu “nad yw’n effeithio” ar y llall, yn fanwl iawn. Mae’r ymadroddion hyn weithiau yn gyfleus i ddrafftwyr ond efallai na fyddant o gymorth i’r darllenwyr. Ceisiwch ddweud rhywbeth mwy penodol am y ffordd y mae’r naill ddarpariaeth yn effeithio ar y llall neu beidio.

(5) Os bwriedir i un gosodiad gael ei amodi gan un arall, gallech nodi’r achosion y mae’r rheol wahanol yn gymwys iddynt a chyfeirio at y ddarpariaeth sy’n ymdrin â’r achosion hynny. Er enghraifft:

> Nid yw’r adran hon yn gymwys i blentyn sy’n derbyn gofal gan awdurdod lleol (gweler adrannau 17 a 18).

(6) Fel arall, fe allech ychwanegu eithriad ar ddiwedd y gosodiad cyntaf yn dechrau â’r geiriau “ac eithrio” neu “oni bai”. Os nad oes modd disgrifio’r berthynas yn hawdd, ystyriwch ddefnyddio ymadrodd arall i ddangos bod yna amod (e.e. “ond gweler adran x”). Peidiwch â defnyddio “ar yr amod bod “ i gyflwyno amodau.

(7) I egluro nad yw un ddarpariaeth yn amodi un arall, ceisiwch ddweud rhywbeth penodol am yr effaith rydych chi’n ceisio ei hosgoi. Er enghraifft, os oes pryder y gallai cynnwys pwerau penodol arwain at ddarllen pwerau cyffredinol yn gul, gallech ddweud nad yw’r pwerau penodol yn cyfyngu’r pwerau cyffredinol (neu eu bod yn enghreifftiau o’r pwerau cyffredinol, os dyna yw’r bwriad). Os nad ydych yn gwybod yr holl effeithiau posibl neu os ydynt yn rhy anodd i’w disgrifio, efallai y bydd yn ddigon dweud nad yw’r naill ddarpariaeth yn effeithio ar y llall.

(8) Mae deddfwriaeth yn aml yn defnyddio’r geiriau “yn benodol” wrth gyflwyno enghreifftiau o bethau penodol sy’n dod o fewn darpariaeth gyffredinol, er mwyn dangos nad yw’r enghreifftiau yn cyfyngu cwmpas y ddarpariaeth gyffredinol. Yn 2017 cadarnhaodd y Llys Apêl *“The natural and ordinary meaning of the words ‘in particular’ is ‘especially’ or ‘by way of example’ which does not connote exclusivity.”*[19] Ond aeth ymlaen i ddyfarnu na allai pŵer cyffredinol gael ei ddefnyddio i danseilio cyfyngiadau pendant neu ymhlyg ar bŵer penodol.

(9) Gallwch ei gwneud yn glir na fwriedir i restr o enghreifftiau fod yn gyflawn drwy ddefnyddio ymadroddion eraill fel “gan gynnwys”, “er enghraifft” ac “ymhlith pethau eraill”. Ond, fel “yn benodol”, ni fydd y ffurfiau hyn o reidrwydd yn galluogi pŵer cyffredinol i gael ei ddefnyddio i osgoi cyfyngiadau ar bŵer penodol. Os ydych am ganiatáu i bŵer cyffredinol gael ei ddefnyddio fel hyn, efallai y bydd angen mynd i’r afael â’r pwynt yn benodol.

(10) Gall y berthynas rhwng dau osodiad fod yn arbennig o anodd i’w dilyn os oes ymadrodd fel “yn ddarostyngedig i”, “er gwaethaf” neu “heb ragfarn i” ar ddechrau brawddeg. At ei gilydd, mae’n well datgan y ddau osodiad ac yna egluro sut maent yn perthyn i’w gilydd. Er enghraifft, yn lle dechrau darpariaeth benodol â datganiad ei bod “heb ragfarnu cyffredinolrwydd” darpariaeth gyffredinol gynharach, gallech nodi’r ddarpariaeth benodol ac wedyn dweud nad yw’n cyfyngu yr un cyffredinol, neu gyflwyno’r ddarpariaeth benodol â geiriau fel “er enghraifft”.

19 *R (JM (Zimbabwe)) v Secretary of State for the Home Department [2018] 1 WLR 2329, per Flaux LJ, para 71.*

(11) Yn achlysurol, gall croesgyfeiriad cyffredinol fel “yn ddarostyngedig i ddarpariaethau eraill y Ddeddf hon” fod yn amhosibl eu hosgoi, ond maent yn gallu bod yn anodd eu deall a’u cymhwyso hefyd. Os nad oes modd osgoi’r cyfeiriad, ceisiwch ddangos ble mae’r ddarpariaeth berthnasol yn cael ei gwneud.

(12) Ceisiwch osgoi defnyddio “*notwithstanding*” yn Saesneg, gan ei fod braidd yn ffurfiol a hynafol. Yn gyffredinol gallwch ddefnyddio “*despite*” yn ei le (ac os felly bydd y testun Cymraeg yn dweud “er gwaethaf”, p’un bynnag o’r ddau derm a ddefnyddir), neu ag ymadrodd fel “*even though*” (“er”) or “*even if*” (“hyd yn oed os”).

## 5.7 Disgrifiadau o ddarpariaethau mewn cromfachau

(1) Wrth gyfeirio at ddarpariaeth arall, mae’n gyffredin cynnwys disgrifiad byr o’r ddarpariaeth mewn cromfachau, i helpu’r darllenydd i ddeall arwyddocâd y cyfeiriad. Yn aml, mae’n ddefnyddiol cynnwys disgrifiad pan fo’r cyfeiriad yn gyfeiriad at ddarpariaeth mewn darn arall o ddeddfwriaeth, ac weithiau gall fod o gymorth pan fydd y ddarpariaeth yn yr un Ddeddf neu offeryn. Ond ystyriwch a yw’ch testun eisoes yn egluro effaith y ddarpariaeth y cyfeirir ati, ac a yw defnyddioldeb unrhyw eiriau disgrifiadol yn fwy na’r anfantais o dorri ar draws llif y testun.

(2) I gael rhagor o ganllawiau ar ddefnyddio disgrifiadau mewn cromfachau mewn darpariaethau diwygio, gweler paragraff 7.10.

(3) Os byddwch yn cynnwys disgrifiad mewn cromfachau, gofalwch ei fod yn disgrifio y ddarpariaeth rydych chi’n cyfeirio ati. Yn aml pennawd yr adran, y rheoliad neu’r Atodlen fydd y disgrifiad, ond y nod yw rhoi disgrifiad yn hytrach na dyfyniad. Efallai fod y pennawd wedi ei ddyfeisio yng nghyd-destun penawdau eraill yn y Ddeddf neu’r offeryn o dan sylw, ac efallai na fydd yn ddefnyddiol iawn ar ei ben ei hun. Gall fod yn well disgrifio’r ddarpariaeth mewn ffordd wahanol.

(4) Hefyd, efallai na fydd pennawd adran, rheoliad neu Atodlen yn ddisgrifiad defnyddiol o is-raniad o’u mewn. Gall fod angen ichi ddisgrifio’r is-adran neu’r paragraff penodol rydych chi’n cyfeirio atynt. Er enghraifft, os oes gan adran 1 o Ddeddf y pennawd “achosion y mae Rhan 1 yn gymwys iddynt” a’i bod yn nodi’r achosion hynny, ond bod is-adran (3) yn nodi eithriadau, byddai’n gamarweiniol cyfeirio at “adran 1(3) (achosion y mae Rhan 1 yn gymwys iddynt)”. Efallai y byddai’n well cyfeirio at “adran 1(3) (eithriadau)”.

(5) Er mwyn sicrhau eich bod yn disgrifio’r darpariaethau perthnasol mewn ffordd fuddiol a chywir, weithiau bydd yn briodol cynnwys disgrifiadau o ddarpariaethau ar wahanol lefelau. Yn yr enghraifft uchod, gallai fod yn ddefnyddiol pe bai cyfeiriad at adran 1(3) yn defnyddio ffurf fel “Yn adran 1 (achosion y mae Rhan 1 yn gymwys iddynt), yn is-adran (3) (eithriadau)…”).

# Pennod 6: Enwau a Chyfeiriadau Statudol

## Rhagymadrodd

### 6.1 Trosolwg o’r Bennod

(1) Mae’r Bennod hon yn rhoi canllawiau ar sut i gyfeirio at yr amryfal fathau o ddeddfwriaeth ddomestig a deddfwriaeth yr UE a sut i ddisgrifio’r rhaniadau a’r is-raniadau ynddynt. Nodir rheolau technegol y dylid eu dilyn er mwyn sicrhau cysondeb.

(2) Sylwch fod terminoleg wahanol yn cael ei defnyddio i ddisgrifio darpariaethau a grwpiau o ddarpariaethau, gan ddibynnu ar y math o ddeddfwriaeth a lleoliad y darpariaethau. Er enghraifft, mae darpariaeth sy’n dwyn y rhif “(1)” neu “(2)” yn is-adran os yw’n ymddangos yng nghorff Deddf, yn baragraff yng nghorff offeryn statudol, yn is-baragraff mewn Atodlen i Ddeddf neu offeryn statudol, ac yn bwynt mewn darn o ddeddfwriaeth yr UE.

(3) Dylid darllen y Bennod hon gyda Phennod 5, sy’n rhoi canllawiau cyffredinol ar ddefnyddio croesgyfeiriadau at ddarpariaethau statudol eraill. Gweler hefyd Bennod 7 i gael canllawiau ar ddrafftio darpariaethau sy’n diwygio deddfwriaeth arall (gan gynnwys canllawiau ychwanegol ar ddisgrifio’r darpariaethau sy’n cael eu diwygio).

### 6.2 Cyfeiriadau at ddeddfwriaeth y DU a’r UE yn y testun Cymraeg

(1) Yn uniaith Saesneg y deddfir Deddfau Senedd y Deyrnas Unedig, Gorchmynion y Cyfrin Gyngor ac is-ddeddfwriaeth a wneir gan Weinidogion y Goron[20]. Cyhoeddir offerynnau deddfwriaethol a wneir gan sefydliadau’r UE yn ieithoedd swyddogol yr UE, sy’n cynnwys Saesneg ond nid Cymraeg, a deuir â deddfwriaeth uniongyrchol yr UE (gan gynnwys rheoliadau a phenderfyniadau) i mewn i’r gyfraith ddomestig o’r diwrnod ymadael yn unig ar ffurf y fersiwn Saesneg.[21]

(2) Pan fo testun Cymraeg Bil Cynulliad neu offeryn statudol Cymreig yn cyfeirio at ddeddfwriaeth nad yw’n bodoli yn Gymraeg, yr arfer sydd wedi ennill ei blwyf yw cyfeirio at y ddeddfwriaeth drwy ddefnyddio “cyfieithiad cwrteisi” Cymraeg o’i henw yn hytrach na’r enw Saesneg gwreiddiol.

(3) Wrth gyfeirio at raniadau o ddeddfwriaeth y DU a’r UE, dylai testun Cymraeg Bil neu offeryn ddefnyddio’r derminoleg Gymraeg briodol. Er enghraifft, dylid galw Rhan o Ddeddf Seneddol yn “Rhan”, a dylid galw Erthygl o Gyfarwyddeb UE yn “Erthygl”, er nad yw’r ddeddfwriaeth wreiddiol yn defnyddio’r termau hynny.

## Cyfeiriadau at ddeddfwriaeth ddomestig ym Miliau’r Cynulliad

### 6.3 Sut i gyfeirio at Ddeddfau a Mesurau yn gyffredinol

(1) Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Senedd y DU ill dau’n pasio deddfwriaeth o’r enw Deddfau. Os bydd darpariaeth yn cyfeirio’n gyffredinol at Ddeddfau gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru neu Ddeddfau gan Senedd y DU, dylai wneud yn glir ai Deddfau a basiwyd gan y Cynulliad ynteu gan Senedd y DU a olygir, neu’r ddwy.

(2) Cyflwynwyd Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru) yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru ar 12 Chwefror 2019. Os caiff ei basio, bydd y Bil yn ailenwi’r Cynulliad a’i Ddeddfau. Wedyn bydd angen i gyfeiriadau at y sefydliad a’i ddeddfwriaeth adlewyrchu’r enwau newydd.

---

20 Cafwyd ambell eithriad. Gorchymyn gan y Cyfrin Gyngor oedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Anghymhwyso) 2015. Roedd angen cymeradwyaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru iddo a chafodd ei wneud yn ddwyieithog.

21 Nid yw hyn yn effeithio ar ddefnyddio fersiynau mewn ieithoedd eraill er mwyn dehongli deddfwriaeth uniongyrchol yr UE sy’n cael ei ddargadw: gweler adran 3(4) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.

(3) Yn achos Deddfau gan Senedd y DU, cyfeiriwch at “Ddeddf Seneddol” neu “Deddf gan Senedd y Deyrnas Unedig”.

(4) Yn ystod tymor y trydydd Cynulliad (2007-2011), bu Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn pasio deddfwriaeth o’r enw Mesurau. Mae Atodlen 1 i Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 yn cynnwys diffiniad cyffredinol o “Mesur Cynulliad” a’r term hwnnw a ddylai gael ei ddefnyddio wrth gyfeirio’n gyffredinol at Fesurau.

(5) Mae “Deddf” a “Mesur” bob amser yn dechrau â phriflythyren, boed wrth gyfeirio at Ddeddf neu Fesur penodol, ynteu at Ddeddfau neu Fesurau yn gyffredinol.

## 6.4 Sut i gyfeirio at enw Deddf neu Fesur penodol mewn Bil

(1) Pan fo Bil yn cyfeirio at enw Deddf penodol gan Senedd y DU (boed yn Ddeddf gyffredinol gyhoeddus ynteu’n Ddeddf leol), dylai’r cyfeiriad llawn gynnwys enw byr y Ddeddf, ac wedyn ei rhif pennod mewn cromfachau. Er enghraifft:

Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32)
(Government of Wales Act 2006 (c. 32))

Deddf Prifysgol Cymru, Caerdydd 2004 (p. vi)
(University of Wales, Cardiff Act 2004 (c. vi))

(2) Wrth gyfeirio at Ddeddfau Seneddol hŷn, dylid nodi dau bwynt arall:

(a) Mewn Deddfau a basiwyd cyn diwedd sesiwn Seneddol 1961-62, roedd yr enw’n cynnwys coma rhwng y gair “*Act*” a’r flwyddyn (e.e. “*Pipe-lines Act, 1962*”). Dylai’r coma gael ei hepgor mewn cyfeiriad at y Ddeddf.

(b) Tan ddiwedd 1962, gallai dwy Ddeddf a oedd wedi eu pasio yn yr un flwyddyn gael yr un rhif pennod, gan fod yna gyfres newydd o rifau pennod i bob sesiwn Seneddol. Byddai deddfau’n cael eu henwi drwy roi blwyddyn deyrnasol y sesiwn ac wedyn y rhif pennod. Wrth gyfeirio at Ddeddf a basiwyd cyn diwedd 1962, dylai’r flwyddyn deyrnasol gael ei chynnwys o flaen y rhif pennod os (ond **dim ond** os) cafodd Deddf arall ei phasio yn yr un flwyddyn galendr â’r un rhif pennod. Er enghraifft:

Deddf Pysgodfeydd 1955 (3 a 4 Eliz. 2 p. 7)
(Fisheries Act 1955 (3 & 4 Eliz. 2 c. 7))

Deddf Telegraffiaeth Ddiwifr (Personau Dall) 1955 (4 a 5 Eliz. 2 p. 7)
(Wireless Telegraphy (Blind Persons) Act 1955 (4 & 5 Eliz. 2 c. 7))

(3) Pan fo Bil yn cyfeirio at Ddeddf neu Fesur Cynulliad penodol, dylai’r cyfeiriad llawn gynnwys enw byr y Ddeddf neu’r Mesur, ac wedyn y rhif “*dccc*” neu “mccc” mewn cromfachau.
Er enghraifft:

Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (dccc 1)
Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (mccc 1)

(4) Mae’r wybodaeth hon i gyd i’w chael ar ddechrau’r Ddeddf neu’r Mesur a gyhoeddwyd.

## 6.5 Sut i gyfeirio at is-ddeddfwriaeth: pwyntiau cyffredinol

(1) Rheoliadau, rheolau a gorchmynion yw'r mathau mwyaf cyffredin o is-ddeddfwriaeth a wneir drwy offeryn statudol. Mewn cyfeiriadau at reoliadau, rheolau neu orchmynion yn gyffredinol, nid yw'r geiriau hyn yn dechrau â phriflythrennau. Er enghraifft, gallai adran o' Ddeddf gyfeirio'n gyffredinol at "rheoliadau o dan yr adran hon".

(2) Bydd "Rheoliadau" a "Rheolau" yn dechrau â phriflythrennau wrth gyfeirio at set benodol o reoliadau neu reolau, a bydd "Gorchymyn" yn dechrau â phriflythyren wrth gyfeirio at orchymyn penodol. Er enghraifft, byddai darpariaeth mewn set o reoliadau yn cyfeirio atynt fel "y Rheoliadau hyn".

(3) Mae i "Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor" briflythrennau bob tro, hyd yn oed wrth gyfeirio at Orchmynion yn y Cyfrin Gyngor yn gyffredinol.

## 6.6 Sut i gyfeirio at enw offeryn statudol penodol mewn Bil

(1) Pan fo Bil yn cyfeirio at offeryn statudol penodol a wneir gan un o Weinidogion y Goron neu gan Ei Mawrhydi yn y Cyfrin Gyngor, dylai'r cyfeiriad llawn gynnwys enw'r offeryn, wedyn y rhif O.S. mewn cromfachau. Er enghraifft:

> Rheoliadau Adeiladu 2010 (O.S. 2010/2214)

(2) Dylai'r cyfeiriad llawn at offeryn statudol a wnaed gan un o Weinidogion Cymru neu gan hen Gynulliad Cenedlaethol Cymru gynnwys enw'r offeryn, ac wedyn y rhif O.S. yng nghyfres y DU mewn cromfachau, gyda'r is-rif yng nghyfres Cymru y tu mewn i set arall o gromfachau. Er enghraifft:

> Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 (O.S. 2017/202 (Cy. 57))

(3) Yn yr un modd, dylai'r cyfeiriad llawn at orchymyn cychwyn neu reoliadau cychwyn gynnwys yr is-rif yn y gyfres gychwyn, a dylai'r cyfeiriad llawn at offeryn statudol ynghylch ffioedd neu weithdrefnau llys gynnwys yr is-rif yn y gyfres gyfreithiol. Er enghraifft:

> Gorchymyn Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 1) 2017 (O.S. 2017/152 (Cy. 44) (C. 16))
>
> Gorchymyn Ffioedd Achosion Sifil 2008 (O.S. 2008/1053 (Cyfr. 5))

(4) Mae'r enw a'r rhif cyfeirnod i'w gweld ar ddechrau'r offeryn a gyhoeddwyd.

## 6.7 Ble i osod cyfeiriadau llawn mewn Bil

(1) Y tro cyntaf y mae Bil yn cyfeirio at Ddeddf, Mesur neu offeryn penodol, dylai roi cyfeiriad llawn sy'n cynnwys teitl ac wedyn y rhif cyfeirnod mewn cromfachau. O ran cyfeiriadau diweddarach at yr un darn o ddeddfwriaeth, ystyriwch a fyddai'n fuddiol cynnwys y rhif cyfeirnod ar ôl yr enw. Yn gyffredinol, dylai'r rhif gael ei gynnwys yn y cyfeiriad cyntaf at y ddeddfwriaeth mewn adran neu Atodlen, ond does dim angen ei roi mewn cyfeiriadau wedyn yn yr un adran neu Atodlen.

(2) Pan fo Bil yn cynnwys Atodlen o ddiwygiadau a drefnwyd o dan benawdau italig yn rhoi enw pob darn o ddeddfwriaeth y mae'n ei ddiwygio, dylid rhoi'r rhifau cyfeirnod yn y penawdau hynny (p'un a ydynt wedi eu rhoi mewn man arall yn y Bil ai peidio) ond nid ym mharagraffau'r Atodlen. Ym mhob achos arall, dylai'r rhif cyfeirnod ymddangos yn nhestun y ddarpariaeth sy'n cynnwys y cyfeiriad.

## 6.8 Mae cyfeiriadau at ddeddfiadau yn cynnwys diwygiadau'r gorffennol a'r dyfodol

(1) Pan fo Deddf gan y Cynulliad neu is-offeryn Cymreig yn cyfeirio at ddeddfiad arall, mae adran 25 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 yn golygu bod y cyfeiriad yn gyfeiriad at y deddfiad hwnnw fel y mae wedi ei ddiwygio, wedi ei ymestyn neu wedi ei gymhwyso gan unrhyw ddeddfiad arall. Mae adran 25 yn gymwys p'un a yw'r deddfiad diwygio wedi ei wneud cyn ynteu ar ôl y Ddeddf neu'r offeryn sy'n cynnwys y cyfeiriad[22], ac mae'n cael effaith oni bai bod darpariaeth bendant i'r gwrthwyneb yn cael ei gwneud neu fod y cyd-destun yn mynnu fel arall[23].

(2) Mae adran 25 yn golygu nad oes angen fel arfer i Fil neu offeryn sy'n cyfeirio at ddeddfiad arall sôn bod y deddfiad wedi ei ddiwygio neu y gallai gael ei ddiwygio yn y dyfodol. Ni ddylai'r cyfeiriad grybwyll diwygiadau'r gorffennol neu'r dyfodol oni bai bod rhywbeth yn y cyd-destun yn awgrymu nad ydynt wedi eu cynnwys. Os oes angen dweud rhywbeth, cynhwyswch eiriau fel "fel y'i diwygir [o bryd i'w gilydd]".

(3) Os yw'n bwysig sicrhau eich bod yn cyfeirio at ddeddfiad dim ond fel y mae'n cael effaith ar yr adeg y caiff eich Bil neu'ch offeryn ei ddeddfu, gall fod angen ichi gynnwys darpariaeth benodol i'r perwyl hwnnw er mwyn atal adran 25 rhag gweithredu mewn perthynas â diwygiadau yn y dyfodol.

(4) Yn yr un modd, os ydych yn cyfeirio at ddeddfwriaeth a ddiwygiwyd eisoes, ond eich bod am gyfeirio ati fel y cafodd effaith cyn y diwygiadau, fe all fod arnoch angen geiriad pendant i sicrhau bod adran 25 yn cael ei hepgor. Er enghraifft, efallai y bydd yn briodol cyfeirio at adran "fel y'i deddfwyd yn wreiddiol".

## 6.9 Cyfeirio at Fil mewn Bil arall

(1) Weithiau mae'n angenrheidiol i Fil Cynulliad gyfeirio at Fil arall sy'n cael ei ystyried gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru neu Senedd y DU.

(2) Ni ddylid gweld unrhyw wrthwynebiad i gyfeirio at Fil Cynulliad sydd wedi pasio cyfnod 1, neu at Fil Seneddol sydd wedi cael ei Ail Ddarlleniad yn y ddau Dŷ. Ni ellir cyhuddo'r Cynulliad o gymryd y ddeddfwrfa berthnasol yn ganiataol, gan fod y ddeddfwrfa honno eisoes wedi cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil.

(3) Gall fod adegau hefyd pan fo'n briodol cyfeirio at Fil sydd mewn cyfnod cynharach, er enghraifft os nad yw'r Bil hwnnw'n ddadleuol, neu os bydd cynnwys cyfeiriadau ato yn golygu ei bod gryn dipyn yn haws i Aelodau'r Cynulliad ddeall effaith arfaethedig y Bil Cynulliad sy'n cynnwys y cyfeiriadau.

(4) Pan fo Bil Cynulliad yn cyfeirio at Fil arall, mae yna risg y gallai'r Bil y cyfeirir ato newid cyn cael ei ddeddfu neu beidio â chael ei ddeddfu o gwbl. Wedyn gall fod angen i'r Bil Cynulliad sy'n cyfeirio ato gael ei ddiwygio.

(5) Dylai Bil Cynulliad gyfeirio at Fil arall fel pe bai eisoes yn Ddeddf, gan ddefnyddio'r enw a roddir gan y ddarpariaeth ynglŷn â'r enw byr. Ni fydd gan y Bil arall rif dccc na rhif pennod eto, felly dylid rhoi'r rhif "00" iddo. Dylid mewnosod y rhif gwirioneddol fel newid argraffu pan fydd y Bil arall wedi ei basio.

---

22 Wrth fewnosod croesgyfeiriad at ddeddfiad arall mewn deddfwriaeth nad yw Rhan 2 o Ddeddf 2019 yn gymwys iddi (gan gynnwys unrhyw ddeddfwriaeth a ddeddfir cyn 2020, ac unrhyw un o Ddeddfau Senedd y Deyrnas Unedig), cofiwch na fydd adran 20(2) o Ddeddf Dehongli 1978 o reidrwydd yn cael yr un effaith.

23 Ar ôl i'r deddfiad gwreiddiol gael ei ddiwygio, bydd cyd-destun y cyfeiriad at y deddfiad hwnnw yn cynnwys y ddeddfwriaeth sy'n ei diwygio yn ogystal â'r ddeddfwriaeth sy'n cyfeirio ati.

## Ffurf cyfeiriadau mewn offerynnau statudol

### 6.10 Sut a ble i roi cyfeiriadau llawn

(1) Pan fo darpariaeth yng nghorff neu raglith offeryn statudol yn cyfeirio at Ddeddf, Mesur neu offeryn statudol arall, bydd enw'r ddeddfwriaeth arall yn ymddangos yn nhestun y ddarpariaeth, a rhoddir y cyfeiriad rhifiadol mewn troednodyn.

(2) Yn gyffredinol, dim ond y tro cyntaf y crybwyllir y Ddeddf, y Mesur neu'r offeryn y bydd angen cynnwys troednodyn er mwyn rhoi'r enw. Er hynny, efallai y byddai'n briodol cynnwys troednodyn ar gyfer cyfeiriad yn nes ymlaen at yr un ddeddfwriaeth os oes gwybodaeth arall y byddai'n fuddiol ei rhoi mewn perthynas â'r cyfeiriad hwnnw (er enghraifft, am ei fod yn cyfeirio at ddarpariaeth arall sydd wedi ei diwygio'n wahanol). Os felly, bydd y troednodyn diweddarach fel arfer yn dechrau drwy ailadrodd y cyfeiriad rhifiadol.

(3) Yn achos Deddfau a Mesurau, dylai'r troednodyn ddechrau â'r flwyddyn ac wedyn y bennod, y rhif dccc neu mccc, na ddylai fod mewn cromfachau. Er enghraifft:

2018 p. 12
2018 dccc 2

(4) Os crybwyllir Deddf neu Fesur mewn unrhyw le arall mewn troednodyn, dylid rhoi'r enw ar y ffurf a ddefnyddir ym Miliau'r Cynulliad, sef yr enw byr gyda'r rhif cyfeirnod mewn cromfachau.

(5) Pan fo darpariaeth mewn un offeryn statudol yn cyfeirio at offeryn statudol arall, dylai'r troednodyn i'r cyfeiriad ddechrau â rhif O.S. yr offeryn y cyfeirir ato (gan gynnwys unrhyw is-rif mewn cromfachau).

(6) Os bydd unrhyw offeryn statudol arall yn cael ei grybwyll mewn troednodyn, cyfeirir ato fel arfer yn ôl y rhif O.S. yn unig, heb gynnwys yr enw. Er hynny, mae troednodiadau i raglithiau yn aml yn rhoi enwau Gorchmynion Trosglwyddo Swyddogaethau yn llawn y tro cyntaf y maent yn sôn amdanynt.

(7) Pan fo gan offeryn statudol Atodlen o ddiwygiadau wedi eu trefnu o dan benawdau sy'n rhoi enwau'r ddeddfwriaeth a ddiwygiwyd, gellir rhoi'r rhifau cyfeirnod naill ai yn y penawdau mewn cromfachau (gan ddilyn arddull Biliau), neu mewn troednodiadau i'r cyfeiriadau at y ddeddfwriaeth ym mharagraffau'r Atodlen.

### 6.11 Esbonio darpariaethau newydd

(1) Pan fo offeryn statudol yn cyfeirio at ddeddfwriaeth sydd wedi ei diwygio, dylai'r troednodyn i'r cyfeiriad nodi diwygiadau sy'n berthnasol i'r offeryn (gan gynnwys trosglwyddo swyddogaethau). Dyma enghraifft o gyfeiriad at Ddeddf gyda throednodyn sy'n esbonio gwelliant perthnasol:

… adran 14A o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014[(1)]…

[(1)] 2014 dccc 4. Mewnosodwyd adran 14A gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (dccc 2), Atodlen 4, paragraff 34.

(2) Os yw offeryn yn cyfeirio at ddarn o ddeddfwriaeth sydd wedi ei ddiwygio, ond nad yw rhai neu'r cyfan o'r diwygiadau yn berthnasol i'r offeryn, dylai'r troednodyn nodi hynny. Dyma'r ffurfeiriadau arferol.

(a) Os nad yw'r un o'r deddfiadau diwygio yn gymwys:

O.S. 1996/1502, y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(b) Os oes o leiaf un deddfiad diwygio sy'n berthnasol ac o leiaf ddau nad ydynt yn berthnasol:

O.S. 1997/2182, a ddiwygiwyd gan O.S. 2016/639 (Cy. 175); mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(c) Os oes o leiaf ddau ddeddfiad diwygio sy'n berthnasol ac o leiaf un nad yw'n berthnasol:

O.S. 1997/818; yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 2001/3323 (Cy. 276), 2003/955 (Cy. 129).

## Rhaniadau mewn deddfwriaeth ddomestig

### 6.12 Rhagymadrodd

(1) Mewn deddfwriaeth ddomestig, gall yr enw a roddir i ddarpariaeth sydd wedi ei rhifo mewn ffordd benodol amrywio yn ôl a yw'r ddarpariaeth yn ymddangos mewn deddfwriaeth sylfaenol ynteu is-ddeddfwriaeth, ac a yw'n ymddangos yng nghorff y ddeddfwriaeth ynteu Atodlen. Mae'r tabl yn crynhoi'r confensiynau sy'n llywodraethu enwi a rhifo darpariaethau, a ddisgrifir yn fanylach yn y paragraffau sy'n dilyn.

<table>
<tr><th>Rhif y Ddarpariaeth</th><th>Deddf neu Fesur</th><th colspan="2">Offeryn Statudol (rheoliadau, gorchmynion, rheolau)</th><th colspan="2">Atodlen i Ddeddf, Mesur neu Offeryn Statudol</th></tr>
<tr><td>1, 2, 3</td><td>adran</td><td colspan="2">rheoliad, erthygl neu reol</td><td colspan="2">paragraff</td></tr>
<tr><td>(1), (2), (3)</td><td>is-adran</td><td>paragraff</td><td>↓</td><td>is-baragraff</td><td>↓</td></tr>
<tr><td>(a), (b), (c)</td><td>paragraff</td><td>is-baragraff</td><td>paragraff</td><td>paragraff</td><td>is-baragraff</td></tr>
<tr><td>(i), (ii), (iii)</td><td>is-baragraff</td><td>paragraph</td><td>is-baragraff</td><td>is-baragraff</td><td>paragraff</td></tr>
</table>

(2) Sylwch y gall darpariaethau sy'n cael eu rhifo yn yr holl ffyrdd hyn gael eu galw'n baragraffau, gan ddibynnu ar ble maent yn ymddangos. Ond mae is-adran o baragraff bob amser yn is-baragraff, ac mae is-adran o is-baragraff bob amser yn baragraff.

### 6.13 Cyfeirio at ddarpariaethau Deddfau a Mesurau

(1) Mewn Deddfau Seneddol a Deddfau a Mesurau gan y Cynulliad, mae hierarchaeth sylfaenol y darpariaethau fel a ganlyn (gan fynd o'r uchaf i'r isaf):

- adran
- is-adran
- paragraff
- is-baragraff

(2) Rhennir Deddfau a Mesurau yn adrannau sy'n dwyn y rhifau 1, 2, 3 etc. Cyfeiriwch at "adran o" Ddeddf neu Fesur a sylwch nad yw "adran" yn dechrau â phriflythyren. (Cyn 2001, dilynid rhifau adrannau yn Neddfau Senedd y DU gan atalnod llawn, ond ni ddylid cynnwys atalnod llawn ar ôl y rhifau mewn cyfeiriadau at adrannau.)

(3) Mae adran sy'n cynnwys mwy nag un frawddeg fel arfer yn cael ei rhannu'n is-adrannau â'r rhifau (1), (2), (3) etc. Sylwch fod cysylltnod yn "is-adran" yn Gymraeg ond nad oes cysylltnod yn "*subsection*" yn Saesneg.

(4) Gall is-adran gynnwys paragraffau sydd wedi eu rhifo (a), (b), (c) etc.

(5) Gall paragraffau gynnwys is-baragraffau sydd wedi eu rhifo (i), (ii), (iii) etc. Sylwch fod "is-baragraff yn Gymraeg a "*sub-paragraph*" yn Saesneg ill dau yn cynnwys cysylltnod.

(6) Ni fydd adran sy'n cynnwys un frawddeg yn unig yn cael ei rhannu'n is-adrannau, ond fe all gynnwys paragraffau wedi eu rhifo (a) (b), (c) etc. a all gynnwys is-baragraffau wedi eu rhifo (i), (ii) (iii) etc. (fel yn achos is-adran).

(7) Gall adran neu is-adran hefyd gynnwys rhestr o ddiffiniadau heb rifau. Cyfeiriwch at ddiffiniad o'r fath fel "y diffiniad o x". Gall diffiniad heb rif gynnwys paragraffau (a) (b), (c) etc. a all gynnwys is-baragraffau (i), (ii) (iii) etc.

## 6.14 Cyfeirio at Atodlenni

(1) Cyfeiriwch at "Atodlen i", nid "o", Deddf neu Fesur. Sylwch fod "Atodlen" bob amser yn dechrau â phriflythyren.

(2) Mae Atodlenni'n cael eu rhifo 1, 2, 3 etc. Ond os un Atodlen yn unig sydd, dylech roi'r pennawd "Yr Atodlen" iddi a chyfeirio ati fel "yr Atodlen".[24]

(3) Mewn Atodlen ac ynddi ddarpariaethau sy'n sefyll ar eu traed eu hunain mae'r hierarchaeth sylfaenol fel a ganlyn:

- paragraff
- is-baragraff
- paragraff
- is-baragraff

(4) At ei gilydd bydd Atodlen o ddarpariaethau sy'n sefyll ar eu traed eu hunain yn cael ei rhannu'n baragraffau â'r rhifau 1, 2, 3 etc. ond mae'n bosibl iddi fod yn un paragraff heb rif.

(5) Os yw paragraff yn cynnwys mwy nag un frawddeg, bydd fel rheol yn cael ei rannu'n is-baragraffau wedi eu rhifo (1), (2), (3) etc.

(6) Gellir rhannu is-baragraffau yn baragraffau wedi eu rhifo (a), (b), (c) etc. (Sylwch mai paragraffau yw'r enw arnynt, ac nid is-is-baragraffau.) Gall y paragraffau hyn yn eu tro gael eu rhannu'n is-baragraffau wedi eu rhifo (i) (ii), (iii) etc.

(7) Os yw paragraff mewn Atodlen yn cynnwys un frawddeg yn unig, nid yw'n cael ei rannu'n is-baragraffau wedi eu rhifo (1), (2), (3) etc. Ond fe all yn hytrach gynnwys is-baragraffau (a), (b), (c) etc. a all eu hunain gynnwys paragraffau (i), (ii), (iii) etc.

(8) Gall paragraff mewn Atodlen, neu is-baragraff ac iddo'r rhif (1), (2), (3) etc, gynnwys rhestr o ddiffiniadau heb rifau. Cyfeiriwch at "y diffiniad o x". Gall diffiniad heb rif gynnwys paragraffau (a) (b), (c) etc. a all gynnwys is-baragraffau (i), (ii), (iii) etc.

## 6.15 Cyfeirio at ddarpariaethau mewn is-ddeddfwriaeth

(1) Mewn offerynnau statudol, mae hierarchaeth sylfaenol y darpariaethau fel a ganlyn:

- rheoliad, rheol neu erthygl
- paragraff
- is-baragraff
- paragraff

(2) Mae prif raniadau'r gwahanol fathau o offerynnau fel a ganlyn:

- Rhennir set o reoliadau yn nifer o reoliadau unigol. Cyfeiriwch at "reoliad [rhif] o" y rheoliadau o dan sylw. Er enghraifft:

  Gweler rheoliad 4 o Reoliadau Ardrethu Annomestig (Darpariaethau Amrywiol) (Cymru) 2017.

- Rhennir set o reolau yn nifer o reolau unigol. Cyfeiriwch at "reol [benodol] o" y rheolau.

24 Yn achlysurol, mae Atodlen ar ei phen ei hun wedi ei rhifo'n Atodlen 1. Ni ddylech ddilyn y dull hwn mewn Bil neu offeryn newydd; ond os ydych yn cyfeirio at Atodlen sydd wedi ei rhifo fel hyn, cyfeiriwch ati fel "Atodlen 1" ("Schedule 1").

- Rhennir gorchymyn neu Orchymyn y Cyfrin Gyngor yn nifer o erthyglau. Cyfeiriwch at “erthygl [benodol] o” y gorchymyn. Sylwch nad yw “erthygl” yn dechrau â phriflythyren.[25]

(3) Mae rheoliadau, rheolau ac erthyglau yn cael eu rhifo 1, 2, 3 etc. (Peidiwch â chynnwys atalnod llawn ar ôl y rhif, hyd yn oed os oes un ar ôl y rhif yn yr offeryn gwreiddiol.)

(4) Os yw rheoliad, rheol neu erthygl yn cynnwys mwy nag un frawddeg, fe’i rhennir fel rheol yn baragraffau wedi eu rhifo (1), (2), (3) etc.

(5) Gall paragraffau gael eu rhannu’n is-baragraffau wedi eu rhifo (a), (b), (c) etc.

(6) Gall is-baragraffau gael eu rhannu’n baragraffau wedi eu rhifo (i), (ii), (iii) etc. (Yr enw ar yr is-raniadau hyn yw paragraffau, nid is-is-baragraffau.)

(7) Os yw rheoliad, rheol neu erthygl yn cynnwys un frawddeg yn unig, nid ydynt yn cael eu rhannu’n baragraffau wedi eu rhifo (1), (2), (3) etc. Er hynny, fe allant gynnwys paragraffau (a), (b), (c) etc. a all eu hunain gynnwys is-baragraffau (i), (ii), (iii) etc.

(8) Gall rheoliad, rheol neu erthygl, neu baragraff wedi ei rifo (1), (2) etc, hefyd gynnwys rhestr o ddiffiniadau heb rifau. Mae rhestrau o’r math hwn yn gweithio yn yr un modd mewn offerynnau statudol ag mewn Deddfau.

(9) Mae Atodlenni yn gweithio yn yr un modd mewn offerynnau statudol ag mewn Deddfau.

## 6.16 Cyfeiriadau at is-raniadau penodol mewn darpariaethau

(1) Mae cyfeiriad at is-raniad penodol mewn darpariaeth yn cael ei roi fel arfer yn y ffurf “gyfansawdd” a ganlyn sy’n cynnwys rhifau pob lefel darpariaeth sy’n berthnasol:

adran 3(1)(a)
rheoliad 2(2)(b)

(2) Pan fyddwch yn nodi is-raniad o ddeddfwriaeth gan ddefnyddio’r math hwn o gyfeiriad cyfansawdd, defnyddiwch y term bob amser ar gyfer y lefel uchaf o ddarpariaeth y cynhwysir ei rhif yn y cyfeiriad. Er enghraifft, cyfeiriwch at “adran 3(1)(a)” am mai adran 3 yw’r lefel uchaf, ac nid at “paragraff 3(1)(a)” er eich bod yn nodi paragraff penodol mewn un is-raniad o’r adran.

(3) Os oes nifer o gyfeiriadau at elfennau o’r un ddarpariaeth yn ymddangos yn agos at ei gilydd, gall fod yn well osgoi cyfeiriadau “cyfansawdd” a fyddai’n golygu ailadrodd rhif y ddarpariaeth. Er enghraifft, os ydych eisoes wedi crybwyll adran 3 a bod angen cyfeirio wedyn at adran 3(1)(a), efallai y bydd yn well gennych ddweud “is-adran (1)(a) o’r adran honno”.

## 6.17 Cyfeirio at ddarpariaethau sydd wedi eu grwpio yn Rhannau a Phenodau

(1) Gall y darpariaethau yng nghorff Deddf neu offeryn statudol gael eu grwpio mewn dwy neu ragor o Rannau sy’n ymdrin â phynciau gwahanol. Gall y paragraffau mewn Atodlen i Ddeddf neu offeryn gael eu trefnu mewn Rhannau hefyd. Cyfeiriwch at “Rhan o” y Ddeddf, yr offeryn neu’r Atodlen. Mae “Rhan” bob amser yn dechrau â phriflythyren.

(2) Gellir rhannu Rhan o Ddeddf neu offeryn yn ddwy neu ragor o Benodau, ac yn achlysurol iawn mae Rhan o Atodlen yn cael ei rhannu’n Benodau. Cyfeiriwch at “Pennod o” y Rhan. Mae “Pennod” bob amser yn dechrau â phriflythyren.

(3) Deellir yn gyffredinol fod cyfeiriad at Ran o Ddeddf neu offeryn, neu at Bennod o un o’u Rhannau, yn cynnwys unrhyw Atodlenni a gyflwynir gan adrannau, rheoliadau neu erthyglau yn y Rhan neu’r Bennod.

25 Mae rheol wahanol yn gymwys i ddeddfwriaeth Gogledd Iwerddon a’r UE. Mewn cyfeiriadau at orchmynion Gogledd Iwerddon neu Orchmynion yn y Cyfrin Gyngor ar gyfer Gogledd Iwerddon, dylai “Erthygl” bob amser ddechrau â phriflythyren. Mae’r un peth yn wir am Erthyglau yn offerynnau’r UE: gweler paragraff 6.26 isod.

(4) Wrth gyfeirio at baragraff penodol o Atodlen sydd wedi eu rhannu'n Rhannau, nid yw fel rheol yn angenrheidiol nodi y Rhan y mae'r paragraff yn ymddangos ynddi. Ond, mewn rhai Atodlenni i hen Ddeddfau mae rhifau'r paragraffau'n dechrau o'r newydd ym mhob rhan, felly bydd angen ichi gyfeirio at y Rhan i egluro pa baragraff yr ydych yn ei olygu.

## 6.18 Rhifau Rhannau a Phenodau mewn deddfwriaeth hŷn

(1) Cyn 2001, rhifau Rhufeinig a gâi eu defnyddio i rifo Rhannau a Phenodau mewn Deddfau Seneddol a'u Hatodlenni. Dechreuwyd defnyddio y rhifolion Arabaidd o 2001 ymlaen. Parhâi drafftwyr rhai offerynnau statudol i ddefnyddio rhifolion Rhufeinig ar ôl hynny, ond rhifolion Arabaidd sy'n cael eu defnyddio bellach ar gyfer Rhannau a Phenodau yn yr holl ddeddfwriaeth ddomestig.

(2) Rhifolion Arabaidd a ddylai gael eu defnyddio ym mhob cyfeiriad at Rannau a Phenodau yn y ddeddfwriaeth bresennol, hyd yn oed os oedd y ddeddfwriaeth wreiddiol yn defnyddio rhifolion Rhufeinig. Er enghraifft, os yw'r pennawd ar drydedd Ran o'r Ddeddf yn dweud "Part III", dylid cyfeirio ati fel "Rhan 3".

(3) Rhifolion Arabaidd a ddylai gael eu defnyddio hefyd wrth fewnosod neu amnewid Rhannau neu Benodau, hyd yn oed os rhifolion Rhufeinig sydd i'r Rhannau neu'r Penodau sydd eisoes yn bodoli: gweler paragraff 7.19.

(4) Ond os oes angen dyfynnu testun sy'n cynnwys rhifolion Rhufeinig (e.e. er mwyn ei ddiwygio), dylech ddyfynnu'r testun fel y mae.

## Cyfeiriadau at ddeddfwriaeth yr UE

## 6.19 Rhagymadrodd

(1) Y prif fathau o offeryn deddfwriaethol a wneir gan sefydliadau'r UE o dan y Cytuniadau yw rheoliadau, cyfarwyddebau a phenderfyniadau. Mae'r canllawiau a ganlyn yn ymwneud â sut y dylai Biliau ac offerynnau statudol gyfeirio at offerynnau o'r mathau hyn, sy'n tueddu i ddilyn fformat safonol.

(2) Weithiau gall fod angen cyfeirio at offerynnau eraill gan yr UE nad ydynt yn gyfrwymol, megis argymhellion, safbwyntiau, cynigion a datganiadau. Mae fformat yr offerynnau hyn yn amrywio, ac mae'n bosibl na fyddant yn dilyn y confensiynau sy'n gymwys i ddeddfwriaeth gyfrwymol yr UE. Gan hynny, mae'n anos rhoi canllawiau ynghylch cyfeirio at yr offerynnau hyn.

(3) Mae'r canllawiau a ganlyn yn adlewyrchu'r sefyllfa o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, sy'n diddymu Deddf Cymunedau Ewropeaidd 1972 "ar y diwrnod ymadael" ond sy'n darparu i gyfraith yr UE barhau yn rhan o gyfraith y Deyrnas Unedig. Yn benodol, mae adran 3 o Ddeddf 2018 yn darparu bod "deddfwriaeth uniongyrchol yr UE" (sy'n cynnwys y rhan fwyaf o reoliadau a phenderfyniadau'r UE) yn cael ei dargadw yn y gyfraith ddomestig ar y diwrnod ymadael ac wedyn. Adeg ysgrifennu, mae adran 20(1) o'r Ddeddf yn diffinio'r "diwrnod ymadael" fel 11.00 pm ar 31 Hydref 2019.

(4) Nid yw cyfarwyddebau'r UE yn cael eu dargadw yng nghyfraith y DU ar y diwrnod ymadael ac wedyn. Ond, mae adran 2 o Ddeddf 2018 yn cadw effaith is-ddeddfwriaeth a wnaed o dan Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 a deddfwriaeth ddomestig arall sy'n rhoi cyfraith yr UE ar waith, ac mae adran 4 yn darparu bod hawliau a rhwymedigaethau eraill yng nghyfraith yr UE yn dal i gael eu cydnabod yn y gyfraith ddomestig.

(5) Nid yw Deddf 2018 yn gwneud darpariaeth ar gyfer gweithredu cytundeb ymadael rhwng y DU a'r UE.[26] Byddai angen Deddf arall gan Senedd y DU i roi ei effaith i unrhyw gytundeb a gâi ei wneud, ac fe fyddai'r Ddeddf honno'n debyg o addasu neu atal gweithrediad Deddf 2018 yn ystod unrhyw gyfnod pontio y darperid ar ei gyfer yn y cytundeb. Gan hynny mae Deddf 2018 yn nodi'r sefyllfa a fyddai'n gymwys pe bai'r DU yn ymadael â'r UE heb gytundeb ymadael.

26 Mae adran 13 o Ddeddf 2018 yn gwneud darpariaeth fanwl ynghylch y broses Seneddol y mae'n rhaid ei dilyn cyn y caniateir i gytundeb ymadael gael ei ddilysu.

## 6.20 Cyfeiriadau at ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir ar ôl ymadael â'r UE

(1) Pan fo un o offerynnau deddfwriaethol yr UE yn parhau i gael effaith yn y Deyrnas Unedig fel "deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir", bydd dwy fersiwn o'r offeryn hwnnw o'r diwrnod ymadael ymlaen: y fersiwn sy'n ffurfio rhan o'r gyfraith ddomestig ac a all gael ei diwygio gan ddeddfwriaeth ddomestig arall; a'r fersiwn sy'n dal yn ffurfio rhan o gyfraith yr Undeb Ewropeaidd ac nad yw'n gymwys mwyach i'r Deyrnas Unedig.

(2) Pan fo Deddf gan y Cynulliad neu is-offeryn Cymreig yn cyfeirio at ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir yng nghyfraith y DU, mae adran 24 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 yn darparu bod y cyfeiriad yn gyfeiriad at y ddeddfwriaeth honno fel y mae'n ffurfio rhan o gyfraith y DU (ac nid fel mae'n ffurfio rhan o gyfraith yr UE)[27]. Gan hynny, dylai Biliau ac is-ddeddfwriaeth y Cynulliad gyfeirio at y ddeddfwriaeth hon yn yr un ffordd ar ôl ymadael â'r UE ag o'r blaen. Does dim angen dweud bod y cyfeiriad yn gyfeiriad at y ddeddfwriaeth fel y mae wedi ei dargadw yn y gyfraith ddomestig gan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, oni bai bod y cyd-destun yn awgrymu fel arall.

(3) Serch hynny, os bydd Bil neu offeryn yn cyfeirio at unrhyw ddeddfwriaeth uniongyrchol gan yr UE a oedd yn bodoli cyn y diwrnod ymadael, gan fwriadu cyfeirio ati yn y ffurf y bydd yn dal yn gymwys i'r Undeb Ewropeaidd ar ôl y diwrnod ymadael, bydd angen i'r cyfeiriad gynnwys geiriau i egluro hynny. Er enghraifft, gallai gyfeirio at reoliad "fel y mae'n cael effaith yng nghyfraith yr UE".

(4) Mae "deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir" hefyd yn cynnwys Protocol 1 i Gytundeb yr AEE a'r Atodiadau i'r Cytundeb hwnnw, i'r graddau y maent yn cymhwyso ac yn addasu deddfwriaeth uniongyrchol arall gan yr UE mewn perthynas â'r AEE. Mae adran 24 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 yn golygu y bydd cyfeiriadau at ddarpariaethau'r Protocol a'r Atodiadau sy'n cael eu dargadw yn y gyfraith ddomestig yn gyfeiriadau at y rheiny fel y maent yn ffurfio rhan o'r gyfraith ddomestig.

(5) Mae Atodlen 1 i Ddeddf 2019 hefyd yn darparu diffiniad cyffredinol o "cytundeb yr AEE" sy'n cynnwys unrhyw newidiadau yn y cytundeb neu ychwanegiadau ato yn y dyfodol, ond sy'n hepgor deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir o'r diwrnod ymadael ymlaen. Felly, os yw Bil neu offeryn yn cynnwys cyfeiriad at Gytundeb yr AEE nad yw adran 24 yn gymwys iddo, bydd y cyfeiriad y gyfeiriad at y cytundeb fel y mae'n dal yn gymwys i'r AEE[28].

(6) Mae Atodlen 1 i Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 yn diffinio "Offeryn UE" fel pe na bai'n cynnwys unrhyw ran o ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir o'r diwrnod ymadael ymlaen, ac felly bydd cyfeiriad cyffredinol at offerynnau'r UE yn gyfeiriad at yr offerynnau hynny sy'n gymwys i'r UE[29].

## 6.21 Sut i gyfeirio at reoliadau, cyfarwyddebau a phenderfyniadau

(1) Os ydych yn cyfeirio at reoliadau, cyfarwyddebau neu benderfyniadau'r UE yn gyffredinol, ni ddylai'r geiriau hynny ddechrau â phriflythrennau. Ond dylai Rheoliad, Cyfarwyddeb neu Benderfyniad ddechrau â phriflythyren bob amser wrth gyfeirio at offeryn penodol.

(2) Pan fydd Bil Cynulliad neu offeryn statudol Cymreig yn cyfeirio at ddarn penodol o ddeddfwriaeth yr UE am y tro cyntaf, dylai roi enw llawn yr offeryn. Mae'r enw llawn yn cynnwys yr elfennau a ganlyn:

- y math o offeryn (e.e. rheoliad neu gyfarwyddeb)
- y sefydliad yn yr UE a wnaeth yr offeryn (e.e. y Cyngor neu'r Comisiwn)

27 Mae'r un peth yn wir am gyfeiriadau mewn deddfwriaeth y mae Deddf Dehongli 1978 yn gymwys iddi, yn rhinwedd adran 20(3) i (5) o'r Ddeddf honno. Daw'r is-adrannau hynny i rym ar y diwrnod ymadael.

28 Mae i'r diffiniad o "Cytundeb yr AEE" yn Neddf 2019 yr un effaith â'r diffiniad o "EEA Agreement" yn Neddf Dehongli 1978, a fydd yn gymwys i gyfeiriadau a fewnosodir mewn deddfwriaeth nad yw Rhan 2 o Ddeddf 2019 yn gymwys iddi.

29 Mae i'r diffiniad o "Offeryn UE" yn Neddf 2019 yr un effaith â'r diffiniad o "EU instrument" yn Neddf Dehongli 1978, a fydd yn gymwys i gyfeiriadau a fewnosodir mewn deddfwriaeth nad yw Rhan 2 o Ddeddf 2019 yn gymwys iddi.

- rhif cyfeirnod yr offeryn (gweler isod)
- y dyddiad y cafodd ei fabwysiadu
- disgrifiad o bwnc yr offeryn (a all gynnwys datganiad ei fod yn diddymu neu'n diwygio offerynnau eraill)

(3) Dylai'r holl wybodaeth hon ymddangos ar ddechrau'r offeryn fel y'i cyhoeddwyd yng Nghyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd neu ar deddfwriaeth.gov.uk.

(4) Ar ôl i enw llawn un o offerynnau deddfwriaethol yr UE gael ei roi, gall y cyfeiriadau dilynol at yr un offeryn hepgor y dyddiad a'r pwnc

(5) Ers dechrau 2015, mae'r UE yn defnyddio system rifo safonedig ar gyfer ei holl offerynnau deddfwriaethol ac wedi rhoi rhif cyfeirnod unigryw i bob offeryn. Fformat rhif cyfeirnod offeryn a gyhoeddwyd ar neu ar ôl 1 Ionawr 2015 yw:

*(parth) blwyddyn/rhif*

Y "parth" yw un o'r byrfoddau (EU), (Euratom), (EU, Euratom) neu (CFSP), ac mae'r flwyddyn bob amser yn cael ei hysgrifennu â phedwar digid (e.e. 2017).

(6) Dyma enghreifftiau o enwau llawn offerynnau a wnaed ers dechrau 2015:

> Rheoliad (EU) 2017/1130 Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 14 Mehefin 2017 sy'n diffinio nodweddion llestrau pysgota
>
> Cyfarwyddeb y Comisiwn (EU) 2015/996 ddyddiedig 19 Mai 2015 sy'n sefydlu dulliau cyffredin o asesu sŵn yn unol â Chyfarwyddeb 2002/49/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor

(7) Ceid sawl arfer gwahanol ar gyfer rhifo offerynnau cyn 2015. Dyma'r prif bwyntiau i'w nodi am y sefyllfa cyn 2015.

(a) Roedd cyfres rifo ar wahân i bob math o offeryn.

(b) Roedd rhif cyfeirnod rheoliad yn cael ei osod mewn trefn a fformat gwahanol (e.e. "Rheoliad (EC) Rhif 44/2001") i rif cyfeirnod cyfarwyddeb neu benderfyniad (e.e. "Cyfarwyddeb 2008/98/EC").

(c) Nid oedd y rhif cyfeirnod a roddid mewn cromfachau ar ôl enw penderfyniad yn rhan ffurfiol o'r enw. (Serch hynny, fe ddylai cyfeiriad at enw penderfyniad a wnaed cyn 2015 gynnwys y rhif cyfeirnod.)

(d) Cyn 2000 roedd y flwyddyn yn cael ei hysgrifennu ar ffurf dau ddigid yn hytrach na phedwar.

(8) Dyma enghreifftiau o enwau llawn offerynnau a wnaed cyn 2015:

> Rheoliad (EU) Rhif 1151/2012 Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 21 Tachwedd 2012 ynghylch cynlluniau ansawdd ar gyfer cynhyrchion amaethyddol a bwydydd
>
> Cyfarwyddeb y Cyngor 98/83/EC ddyddiedig 3 Tachwedd 1998 ar ansawdd dŵr y bwriedir iddo gael ei yfed gan bobl

(9) Yn nhestun Cymraeg Bil neu offeryn statudol, mae'r cyfan o enw offeryn deddfwriaethol UE yn cael ei gyfieithu, ac eithrio'r "parth" (megis EU neu EC) yn y rhif cyfeirnod.

## 6.22 Cyfeirio at ddeddfwriaeth yr UE fel y'i diwygiwyd

(1) Mae adran 25 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 yn darparu bod cyfeiriad at ddeddfiad mewn Deddf gan y Cynulliad neu is-offeryn Cymreig yn gyfeiriad ato fel y'i diwygiwyd ar unrhyw adeg, boed cyn neu ar ôl i'r Ddeddf neu'r offeryn ddod yn gyfraith (gweler paragraff 6.8). Mae'r diffiniad o "deddfiad" yn Atodlen 1 i Ddeddf 2019 yn cynnwys deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir. Gan hynny, mae cyfeiriad at ddarn o ddeddfwriaeth yr UE a ddargedwir yn y gyfraith ddomestig ar y diwrnod ymadael yn gyfeiriad at y ddeddfwriaeth honno fel y'i diwygiwyd gan unrhyw ddeddfwriaeth ddomestig arall unrhyw bryd.

(2) Gan hynny, os ydych yn bwriadu cyfeirio at y fersiwn a ddargedwir o ddarn o ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE (megis rheoliad neu benderfyniad), a chyfeirio ato fel y'i diwygiwyd o bryd i'w gilydd, does dim angen ichi ddweud pa fersiwn yr ydych yn cyfeirio ati oni bai bod rhywbeth yn y cyd-destun yn awgrymu bwriad gwahanol. Os ydyw, fe allech gynnwys geiriau fel "fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd".

(3) Fel yn achos cyfeiriadau at ddeddfwriaeth ddomestig gyffredin, dylai offerynnau statudol sy'n cyfeirio at ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir gynnwys troednodiadau sy'n crybwyll diwygiadau perthnasol a wnaed gan Ddeddfau ac offerynnau statudol eraill.

(4) Mae adran 26 o Ddeddf 2019 yn darparu bod cyfeiriad mewn Deddf gan y Cynulliad neu offeryn Cymreig at un o offerynnau'r UE yn gyfeiriad at yr offeryn fel y'i diwygiwyd gan unrhyw un arall o offerynnau'r UE cyn y diwrnod y caiff y Ddeddf y Cydsyniad Brenhinol neu y gwneir yr offeryn[30]. Mae Atodlen 1 i Ddeddf 2019 yn darparu bod "offeryn UE" yn golygu unrhyw offeryn a gyhoeddwyd gan un o sefydliadau'r UE, ond nid yw'n cynnwys dim sy'n dod yn ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir.

(5) Gan hynny, os yw Deddf neu offeryn statudol yn cyfeirio at ddarn o ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE fel y mae'n dal i gael effaith yn yr Undeb Ewropeaidd, neu at fath gwahanol o ddeddfwriaeth yr UE megis cyfarwyddeb, y rhagdybiaeth yw bod y cyfeiriad yn cynnwys diwygiadau a wnaed gan ddeddfwriaeth arall yr UE cyn i'r Ddeddf neu'r offeryn gael eu deddfu. Os yw'r cyfeiriad hefyd wedi ei fwriadu i gynnwys diwygiadau a wnaed gan ddeddfwriaeth ddiweddarach yr UE (sy'n ymddangos yn annhebygol ar ôl y diwrnod ymadael), fe fydd angen egluro hynny.

(6) Os bwriedir i gyfeiriad at unrhyw ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir neu offeryn UE hepgor diwygiadau a fyddai'n cael eu cynnwys fel arall, dylid ychwanegu geiriad i egluro hynny. Er enghraifft, os ydych am hepgor unrhyw ddiwygiadau a wnaed ar neu ar ôl y diwrnod ymadael, fe allech chi gyfeirio at y ddeddfwriaeth "fel yr oedd yn cael effaith yn union cyn y diwrnod ymadael".

## 6.23 Cyfeirio at y Cyfnodolyn Swyddogol mewn offeryn statudol

(1) Mewn offeryn statudol, ni ddylid cael troednodyn i gyd-fynd â chyfeiriad at reoliad neu benderfyniad UE yn cyfeirio at Gyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd os yw'r cyfeiriad yn gyfeiriad at yr offeryn fel y mae'n ffurfio rhan o gyfraith y DU. Dim ond os ydych yn cyfeirio at offeryn fel y mae'n gymwys yn yr Undeb Ewropeaidd y dylech gynnwys troednodyn yn cyfeirio at y Cyfnodolyn Swyddogol y cyhoeddwyd yr offeryn ynddo.

(2) Gan nad yw cyfarwyddebau'n cael eu dargadw yn y gyfraith ddomestig, rhaid i unrhyw gyfeiriad at gyfarwyddeb gyfeirio at y gyfarwyddeb fel y mae neu yr oedd yn gymwys yn yr Undeb Ewropeaidd. Gan hynny, dylid cynnwys troednodyn yn cyfeirio at y Cyfnodolyn Swyddogol y cyhoeddwyd y cyfarwyddeb ynddo i gyd-fynd â'r cyfeiriad at ei henw llawn.

(3) Dylid rhoi'r enw mewn troednodyn i'r cyfeiriad cyntaf at yr offeryn. Rhaid iddo gynnwys cyfres a rhif y Cyfnodolyn Swyddogol (mae deddfwriaeth yn cael ei chyhoeddi yng nghyfres "L"), y dyddiad cyhoeddi a rhif y tudalen, yn y fformat a ganlyn:

> OJ Rhif L 119, 4.5.2016, t. 1

(4) Os yw'r offeryn statudol yn cyfeirio at offeryn UE sydd wedi ei ddiwygio, dylai'r troednodyn sy'n rhoi'r cyfeiriad at y Cyfnodolyn Swyddogol hefyd grybwyll y diwygiadau sy'n berthnasol (fel yn achos diwygiadau i ddeddfwriaeth ddomestig).

---

30 Mae i adran 26 o Ddeddf 2019 yr un effaith ag adran 20A o Ddeddf Dehongli 1978, a fydd yn gymwys i gyfeiriadau at offerynnau'r UE sy'n cael eu mewnosod mewn deddfwriaeth nad yw Rhan 2 o Ddeddf 2019 yn gymwys iddi.

## Rhaniadau rheoliad, cyfarwyddeb neu benderfyniad

### 6.24 Strwythur offerynnau: cyffredinol

(1) Dilynir enw un o offerynnau deddfwriaethol yr UE gan raglith sy'n nodi cefndir cyfreithiol yr offeryn a'r rhesymau dros ei fabwysiadu.

(2) Dilynir y rhaglith gan ddarpariaethau gweithredol yr offeryn. Mae hierarchaeth sylfaenol y darpariaethau mewn rheoliad, cyfarwyddeb neu benderfyniad fel a ganlyn:

- erthygl
- paragraff
- is-baragraff
- pwynt
- indent

### 6.25 Cronicliadau

(1) Yn achlysurol mae angen cyfeirio at gronicliad. Cyflwynir cronicliadau gan y geiriau "Gan fod:" ac os oes mwy nag un maent fel arfer yn cael eu rhifo (1), (2) etc. (Mae hyn yn ofynnol ar gyfer y rhan fwyaf o offerynnau ers Chwefror 2000.)

(2) Os yw'r cronicliadau wedi eu rhifo, dylid cyfeirio at "cronicliad 1", "cronicliad 2" etc. (heb gromfachau o gwmpas y rhifau). Os nad oes ganddynt rifau, cyfeiriwch at "y cronicliad cyntaf", "yr ail gronicliad" etc. Cyfeiriwch at gronicliadau "o" yr offeryn, nid "i" yr offeryn.

### 6.26 Erthyglau a pharagraffau

(1) Bydd darpariaethau gweithredol rheoliad, cyfarwyddeb neu benderfyniad yn cynnwys un neu fwy o Erthyglau. Os dim ond un Erthygl sydd, cyfeirir ati fel yr "Unig Erthygl". Os oes dwy neu fwy, maent yn cael eu rhifo 1, 2, 3 etc. Cyfeiriwch at "Erthygl 1", "Erthygl 2" etc. o'r offeryn. Sylwch fod "Erthygl" bob amser yn dechrau â phriflythyren (yn wahanol i erthyglau mewn rheolau domestig).

(2) Gall Erthygl gynnwys mwy nag un frawddeg, pryd y gall gael ei rhannu'n nifer o baragraffau (ond ni fydd bob amser yn cael ei rhannu felly). Sylwer nad yw "paragraff" yn dechrau â phriflythyren.

(3) Gellir rhifo paragraffau Erthygl. Cyfeiriwch atynt fel paragraff 1, 2, 3 etc. Peidiwch â rhoi atalnod llawn ar ôl rhif y paragraff, er bod un yn yr offeryn. Os rhoddir rhif yr Erthygl hefyd, cyfeiriwch at Erthygl 1(1), 1(2), 1(3) etc. Yn y math hwn o gyfeiriad "cyfansawdd", rhowch rif y paragraff mewn cromfachau er nad oes cromfachau yn yr offeryn ei hun.

(4) Fel arall, gall paragraffau fod heb rifau. Cyfeiriwch at baragraffau heb rifau mewn Erthygl fel "y paragraff cyntaf","yr ail baragraff" etc.

(5) Gall paragraff â rhif mewn Erthygl gynnwys mwy nag un frawddeg, pryd y gall gael ei rannu'n ddau neu fwy o is-baragraffau heb rifau (ond ni fydd bob amser yn cael ei rannu felly). Cyfeiriwch at "yr is-baragraff cyntaf", "yr ail is-baragraff" etc. Sylwch nad oes cysylltnod yn "subparagraph" yn Saesneg (yn wahanol i is-baragraffau mewn deddfwriaeth ddomestig) ond bod yna gysylltnod yn "is-baragraff" yn Gymraeg. Nid ydynt yn dechrau â phriflythrennau.

(6) Os yw Erthygl, paragraff neu is-baragraff yn cynnwys may na dwy frawddeg mewn un bloc o destun, cyfeiriwch atynt fel y frawddeg gyntaf, yr ail frawddeg etc.

## 6.27 Pwyntiau ac indentiau

(1) Gall Erthyglau, paragraffau ac is-baragraffau gynnwys pwyntiau. Nid yw'r rhain fel arfer yn frawddegau cyflawn, ac yn gyffredinol ceir geiriau rhagarweiniol o'u blaen.

(2) Mae pwyntiau'n cael eu rhifo, a gellir cael mwy nag un lefel o bwyntiau yn y ddarpariaeth. Gelir rhifo'r lefel uchaf (1), (2), (3) etc. neu (a), (b), (c) etc. Gall pwyntiau sydd wedi eu rhifo (1), (2), (3) etc. gynnwys pwyntiau wedi eu rhifo (a), (b), (c) etc. Os yw pwyntiau sydd wedi eu rhifo (a), (b), (c) etc. yn cynnwys rhagor o bwyntiau, mae'r rheiny'n cael eu rhifo (i), (ii) (iii) etc.

(3) Gellir nodi pwynt drwy ddefnyddio ffurf "gyfansawdd" i gyfeirio ato. Er enghraifft, gellir cyfeirio at bwynt (a) o baragraff 1 o Erthygl 4 o offeryn fel "Erthygl 4(1)(a)" neu "paragraff 1(a)".

(4) Wrth gyfeirio at lefelau is o bwyntiau, ceisiwch osgoi ailadrodd y gair "pwynt". Er enghraifft, dylai cyfeiriad fel arfer ddweud "ym mhwynt (1)(c)(ii)" yn hytrach nag "ym mhwynt (1), ym mhwynt (c), ym mhwynt (ii)".

(5) Gall diffiniadau ymddangos unrhyw le mewn offeryn, ond mae Erthygl "diffiniadau" fel arfer yn nodi diffiniadau fel rhestr o bwyntiau wedi eu rhifo. Mewn diffiniad, mae'r term diffiniedig yn ymddangos mewn dyfynodau sengl (er mai dyfynodau dwbl a ddefnyddir mewn deddfwriaeth ddomestig).

(6) Gall Erthyglau, paragraffau, is-baragraffau a phwyntiau gynnwys indentiau hefyd. Fel pwyntiau, nid yw indentiau'n frawddegau cyflawn fel rheol, ac yn gyffredinol fe'u rhagflaenir gan eiriau rhagarweiniol.

(7) Nid oes rhifau i indentiau, ac fe'u nodir â llinell doriad hir "—". Cyfeiriwch atynt fel yr indent cyntaf, yr ail indent etc.

## 6.28 Grwpiau o ddarpariaethau

(1) Gall yr Erthyglau mewn offeryn UE gael eu trefnu mewn nifer o grwpiau. Dyma hierarchaeth arferol y grwpiau:

- Teitl
- Pennod
- Adran

(2) Y peth mwyaf cyffredin yw grwpio Erthyglau fesul Pennod. Cyfeiriwch at "Pennod o" yr offeryn (gan ddechrau â phriflythyren bob tro).

(3) Yn ei thro gall Pennod gael ei rhannu'n Adrannau, ac yn achlysurol bydd Erthyglau offeryn wedi eu grwpio'n Adrannau heb unrhyw Benodau. Cyfeiriwch at "Adran o" yr offeryn neu'r Bennod (gan ddechrau â phriflythyren bob tro).

(4) Mewn offerynnau mwy, gall Penodau gael eu grwpio fesul Teitl. Gall offeryn gynnwys Teitlau y mae rhai ohonynt wedi eu rhannu'n Benodau ac eraill sydd heb eu rhannu felly. Cyfeiriwch at "Teitl o" yr offeryn (gan ddechrau â phriflythyren bob tro).

(5) Gall Penodau, Adrannau a Theitlau fod wedi eu rhifo gan ddefnyddio rhifolion Rhufeinig neu Arabaidd. (Rhifolion Arabaidd sy'n arferol ar gyfer Adrannau a rhifolion Rhufeinig sy'n arferol ar gyfer Teitlau.) Beth bynnag fo'r dull rhifo a ddefnyddir yn yr offeryn gwreiddiol, dylech bob amser ddefnyddio rhifolion Arabaidd wrth gyfeirio at rif Pennod, Adran neu Deitl, neu wrth fewnosod Pennod, Adran neu Deitl newydd mewn offeryn sy'n dod yn rhan o'r gyfraith ddomestig ar y diwrnod ymadael.

## 6.29 Atodiadau

(1) Gall offeryn gynnwys un neu ragor o Atodiadau. Cyfeiriwch at “Atodiad i” y rheoliad, y gyfarwyddeb neu’r penderfyniad (nid “Atodiad o” yr offeryn). Mae “Atodiad” yn dechrau â phriflythyren bob tro.

(2) Pan geir mwy nag un Atodiad, fel arfer maent yn cael eu rhifo I, II, III etc, ond mae gan rai offerynnau Atodiadau sydd wedi eu rhifo A, B, C etc. Os yw’r Atodiadau i offeryn wedi eu rhifo â rhifolion Rhufeinig, serch hynny dylai cyfeiriadau atynt ddefnyddio rhifolion Arabaidd (ac felly hefyd ddarpariaethau sy’n mewnosod Atodiadau newydd mewn offeryn sy’n dod yn rhan o’r gyfraith ddomestig ar y diwrnod ymadael).

(3) Fel Atodlen i ddarn o ddeddfwriaeth ddomestig, gall Atodiad i offeryn UE gynnwys rhestr neu tabl sy’n parhau gosodiad a nodwyd mewn Erthygl o’r offeryn, neu gall nodi gosodiadau deddfwriaethol cyflawn. Gall Atodiad hefyd gynnwys darpariaethau sydd wedi eu grwpio fesul Adran neu Ran.

(4) Does dim gofynion gosod o ran arddull deunydd mewn Atodiadau: gellir defnyddio unrhyw system rifo neu isrannu sy’n briodol ar gyfer cynnwys yr Atodiad. Pan fo Atodiad yn cynnwys darpariaethau wedi eu rhifo, cyfeirir yn aml at raniadau’r Atodiad fel “pwyntiau”, ond ni fydd y rhifau o reidrwydd yn dilyn yr un confensiynau â’r rhifau yng nghorff yr offeryn.

# Pennod 7: Diddymu a Diwygio

## Rhagymadrodd

### 7.1 Trosolwg o'r Bennod

(1) Mae'r Bennod hon yn ymwneud â darpariaethau ym Miliau ac mewn offerynnau statudol sy'n newid deddfwriaeth arall. Mae'n cynnwys canllawiau ar y canlynol:

(a) disgrifio lleoliad ac effaith diwygiad testunol, rhifo darpariaethau newydd sy'n cael eu mewnosod mewn cyfres bresennol, a phwyntiau eraill ynglŷn ag arddull;

(b) penderfynu pa destun i'w ddiwygio (gan gynnwys diwygio penawdau a cysyllteiriau);

(c) diwygio darpariaethau nad ydynt eto mewn grym neu sy'n destun diwygiadau neu ddiddymiadau nad ydynt eto mewn grym;

(d) drafftio diwygiadau i ddeddfwriaeth nad ydynt yn ymwneud â'r testun.

(2) Mae'r Bennod hon yn gymwys i ddiwygiadau i ddeddfwriaeth ddomestig (Deddfau, rheoliadau, gorchmynion etc.) a diwygiadau i ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir (rheoliadau, penderfyniadau a deddfwriaeth arall gan yr UE sy'n ffurfio rhan o'r gyfraith ddomestig o'r diwrnod ymadael yn rhinwedd adran 3 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018).

(3) Mae'r Bennod hon yn defnyddio'r derminoleg a ganlyn ar gyfer gwahanol fathau o ddiwygiad:

(a) ystyr "mewnosod" yw ychwanegu deunydd newydd at ddarn presennol o ddeddfwriaeth heb dynnu deunydd sy'n bodoli eisoes;

(b) ystyr "amnewid" yw tynnu deunydd presennol o ddeddfwriaeth a'i amnewid â deunydd newydd;

(c) ystyr "diddymu" yw tynnu deunydd o Ddeddf neu Fesur fel nad yw mwyach yn ffurfio rhan o gyfraith Cymru a Lloegr;

(d) ystyr "dirymu" yw tynnu deunydd o is-ddeddfwriaeth neu o ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir fel nad yw mwyach yn ffurfio rhan o gyfraith Cymru a Lloegr.

(4) Dylid darllen y Bennod hon gyda'r canllawiau ym Mhennod 6 ar sut i gyfeirio at ddarnau eraill o ddeddfwriaeth a disgrifio'u rhaniadau a'u his-raniadau. Gweler Pennod 9 i gael canllawiau ar ddrafftio darpariaethau sy'n rhoi pwerau i ddiwygio deddfwriaeth arall.

### 7.2 Gwahaniaethau rhwng diwygiadau Cymraeg a Saesneg

Wrth ddiwygio deddfwriaeth ddwyieithog, gall y diwygiadau y mae eu hangen i greu effaith gyfreithiol benodol fod yn bur wahanol yn Gymraeg a Saesneg, er enghraifft oherwydd y cystrawennau brawddeg gwahanol sydd gan y ddwy iaith. Wrth lunio diwygiadau, dylech ganolbwyntio ar sicrhau'r un effaith gyfreithiol yn y ddwy iaith, yn hytrach nag ar sicrhau bod y ddwy set o ddiwygiadau yn edrych yr un fath.

## Geiriau gweithredol a fformat diwygiadau testunol

### 7.3 Mewnosod ac amnewid

(1) Dylai diwygiadau i fewnosod testun newydd fod ar y ffurf a ganlyn:

> ar ôl "trenau" mewnosoder "neu fysiau"

(2) Dylai diwygiadau i amnewid testun osod y testun newydd yn lle’r hen destun drwy ddefnyddio’r ffurf a ganlyn:

yn lle “trenau” rhodder “bysiau”

(3) Sylwch ar y pwyntiau arddull a ganlyn:

(a) dylai’r testun presennol bob amser gael ei grybwyll o flaen y testun newydd, a dylai unrhyw ran o’r testun presennol neu’r testun newydd a nodir yn y diwygiad ymddangos mewn dyfynodau dwbl;

(b) dylai’r diwygiad gael ei fynegi ar ffurf orchmynnol bob amser (e.e. fel cyfarwyddyd i “mewnosod” testun newydd) ac **nid** ar ffurf ddatganiadol (e.e. fel datganiad bod testun newydd “yn cael ei fewnosod”).

## 7.4 Diddymu a dirymu

(1) Defnyddiwch y ffurf orchmynnol a ganlyn i ddiddymu neu ddirymu unrhyw beth llai na Deddf, Mesur neu offeryn cyfan (h.y. i dynnu Rhan neu Bennod, neu un neu fwy o ddarpariaethau cyflawn, neu i dynnu geiriau o fewn darpariaeth):

hepgorer Atodlen 3

hepgorer “trenau”

(2) Ond i ddileu Deddf neu Fesur cyfan o gyfraith Cymru a Lloegr defnyddiwch y ffurf ddatganiadol a ganlyn:

Mae Deddf X wedi ei diddymu.

(3) Yn achos is-ddeddfwriaeth a deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir, y term priodol yw “dirymu” yn hytrach na “diddymu”. Er enghraifft:

Mae Gorchymyn X wedi ei ddirymu.

## 7.5 Gwneud cyfres o ddiwygiadau i ddarn o ddeddfwriaeth

(1) Mae hyn yn ymwneud â drafftio cyfres o ddiwygiadau i’r un darn o ddeddfwriaeth a nodir mewn un adran o Fil, un neu fwy o reoliadau neu erthyglau mewn offeryn statudol, neu un neu ragor o baragraffau mewn Atodlen.

(2) Yr arfer yw cynnwys darpariaeth ar ffurf ddatganiadol sy’n cyflwyno’r diwygiadau, ond dylai’r diwygiadau unigol eu hunain bob amser fod yn orchmynnol. Er enghraifft:

(1) Mae Deddf X wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn adran 1, ar ôl is-adran (1) mewnosoder—

(3) Dylai’r diwygiadau fel arfer ddilyn trefn y darpariaethau sy’n cael eu diwygio, gan y gall diwygio darpariaethau allan o’u trefn fod yn ddryslyd ac yn fwy tebygol o fynd o’i le. Ond os oes yna brif ddiwygiad a nifer o fân ddiwygiadau sy’n ei ddilyn, weithiau gall fod yn fwy o gymorth ymdrin â’r prif welliant yn gyntaf.

## 7.6 Atodlenni o ddiwygiadau ac Atodlenni o ddiddymiadau neu ddirymiadau

(1) Pan fo Bil yn gwneud nifer fawr o ddiwygiadau i ddeddfwriaeth arall, peth cyffredin yw gosod y diwygiadau mewn un neu fwy o Atodlenni, neu osod y prif ddiwygiadau yng nghorff y Bil ond y mân ddiwygiadau mewn Atodlen. Gellir mynd ati yn yr un modd mewn offeryn statudol (er bod offerynnau sy’n cynnwys diwygiadau canlyniadol yn unig weithiau yn nodi’r holl ddiwygiadau yng nghorff yr offeryn). Ym mhob achos, ystyriwch pa ffordd o gyflwyno’r diwygiadau fydd gliriaf i’ch darllenwyr, a cheisiwch fod yn gyson.

(2) Dylai Atodlen o ddiwygiadau nodi'r diwygiadau yn y drefn a ganlyn:

(a) diwygiadau i ddeddfwriaeth sylfaenol (Deddfau Senedd y DU a Deddfau a Mesurau'r Cynulliad);

(b) diwygiadau i is-ddeddfwriaeth (boed honno wedi ei gwneud gan Weinidogion y Goron ynteu gan Weinidogion Cymru);

(c) diwygiadau i ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir.

(3) Ym mhob un o'r categorïau hyn, dylai diwygiadau cyffredinol gael eu nodi mewn trefn gronolegol. Ond weithiau gall fod yn fwy defnyddiol dechrau â'r diwygiadau i'r prif ddarn o ddeddfwriaeth yn y maes perthnasol, cyn ymdrin â'r lleill yn gronolegol.

(4) Dylai Atodlen sy'n cynnwys diwygiadau i nifer o ddarnau o ddeddfwriaeth gael ei threfnu fel rheol o dan benawdau italig sy'n rhoi enwau'r Deddfau, y Mesurau neu'r offerynnau sy'n cael eu diwygio. Dyma'r arddull a argymhellir:

*Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 (dccc 4)*

1. Yn Atodlen 2 i Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015…

(5) Sylwch ar y canlynol:

(a) mae angen rhoi enw byr y Ddeddf, y Mesur neu'r offeryn yn nhestun y diwygiad yn ogystal ag yn y pennawd;

(b) dim ond yn y pennawd y dylid rhoi rhif cyfeirnod y Ddeddf, y Mesur neu'r offeryn (e.e. rhif pennod yn achos un o Ddeddfau Senedd y Deyrnas Unedig neu rif dccc/anaw yn achos Deddf gan y Cynulliad), ac nid ei ailadrodd yn nhestun y diwygiad. (Mewn offeryn statudol, mae'r rhif yn aml yn cael ei roi yn hytrach mewn troednodyn, ynghyd â manylion diwygiadau cynharach sy'n berthnasol.)

(6) Mae'n bosibl ymdrin â'r holl ddiwygiadau i un darn o ddeddfwriaeth mewn un paragraff mewn Atodlen (gydag is-baragraffau ar wahân yn diwygio darpariaethau gwahanol), neu gael paragraffau ar wahân mewn Atodlen i ymdrin â phob darpariaeth sy'n cael ei diwygio. Os oes llawer o ddiwygiadau i'r un deddfiad, bydd defnyddio paragraff ar wahân i ddiwygio pob adran neu Atodlen yn rhoi lefel arall o ddarpariaeth ichi weithio gyda hi, ac fe allai hynny osgoi'r angen i gael paragraffau hir iawn neu i ddefnyddio sawl lefel o is-raniad ym mhob paragraff. Dewiswch un dull a cheisiwch ei ddefnyddio'n gyson drwy'r Bil neu'r offeryn.

(7) Nid yw Atodlenni o ddiddymiadau yn gyffredin ym Miliau'r Cynulliad, nad ydynt yn tueddu i gynnwys llawer o ddiddymiadau llwyr. Mae'n debyg y bydd y diwygiadau y mae eu hangen i sicrhau nad yw deddfwriaeth yn gymwys i Gymru mwyach yn cynnwys cymysgedd o ddiwygiadau testunol i dynnu Cymru o ddarpariaethau a fydd yn dal yn gymwys i rannau eraill o'r DU, a diddymiadau darpariaethau sy'n gymwys i Gymru yn unig.[31] Nid yw'n debygol o fod yn ddefnyddiol rhannu diwygiadau a diddymiadau mewn Atodlenni gwahanol.

(8) Pan fo offeryn statudol yn amnewid nifer o offerynnau blaenorol yn gyfan gwbl neu yn rhannol, gall rhestr o'r offerynnau neu'r darpariaethau a ddirymir gael ei chynnwys naill ai yng nghorff yr offeryn neu mewn Atodlen, a hynny o dan y pennawd "dirymiadau" neu "yr offerynnau sydd wedi eu dirymu". Mwyaf i gyd o offerynnau sy'n cael eu dirymu, mwyaf tebygol yw hi mai Atodlen fydd yn briodol.

31 Edrychid ar y ddau fath o ddarpariaeth fel "diddymiad" at ddibenion Rhan 2 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 ynghylch effaith diddymiadau: gweler adran 37(1) o'r Ddeddf. Ond yn draddodiadol dim ond darpariaethau sy'n tynnu deunydd o'r gyfraith a gynhwysir mewn Atodlen o ddiddymiadau.

## Disgrifio lleoliad diwygiad testunol: pwyntiau cyffredinol

### 7.7 Nodi'r ddarpariaeth y gwneir y diwygiad ynddi

(1) Rhaid i ddarpariaeth ddiwygio egluro ble yn y ddeddfwriaeth bresennol y mae'r diwygiad yn cael ei wneud. Rhaid peidio â chreu amheuaeth ynghylch pa ddarpariaeth sy'n cael ei diwygio, neu ble mae darpariaeth newydd i'w mewnosod. Gweler Penodau 5 a 6 i gael canllawiau ar ddrafftio croesgyfeiriadau a chyfeirio at ddeddfwriaeth sydd eisoes yn bod.

(2) Wrth ddisgrifio darpariaeth sy'n cael ei diwygio, gweithiwch i lawr o lefel uchaf y ddarpariaeth (megis yr adran neu'r Atodlen) i'r lefel lle gwneir y diwygiad. Gallwch roi rhifau'r holl raniadau ac is-raniadau perthnasol mewn cyfeiriad "cyfansawdd" fel hyn:

> Yn adran 3(1)(a), yn lle "ceir" rhodder "bysiau".

(3) Os bydd diwygiad yn cyfeirio at y ddarpariaeth y mae'n ei diwygio fel hyn, gall roi enw'r Ddeddf neu'r offeryn o flaen y cyfeiriad at y ddarpariaeth ynteu ar ei ôl:

> Yn Neddf X, yn adran 3(1)(a), …
> Yn adran 3(1)(a) o Ddeddf X, …

(4) Fel arall, gallwch enwi pob rhaniad ac is-raniad ar wahân, gan ddechrau ar y lefel uchaf a gweithio i lawr i'r lefel lle gwneir y diwygiad. Dylech ffafrio'r dull hwn wrth wneud nifer o ddiwygiadau i ddarpariaeth, er mwyn osgoi ailadrodd ac adlewyrchu strwythur y ddeddfwriaeth bresennol. Er enghraifft:

> Yn adran 3—
> (a) yn is-adran (1)(a), yn lle "trenau" rhodder "bysiau";
> (b) yn is-adran (2), hepgorer paragraff (a).

(5) O gyfeirio at y ddarpariaeth fel hyn, gallwch roi teitl y ddeddfwriaeth o flaen y cyfeiriad at y lefel uchaf o is-raniad (megis adran neu Atodlen) neu ar ei ôl, ond dylai cyfeiriadau at lefelau is o ddarpariaeth ddod wedyn:

> Yn Neddf X, yn adran 3, yn is-adran (1)(a), …
> Yn adran 3 o Ddeddf X, yn is-adran (1)(a), …

(6) Bydd angen i ddiwygiad i ddiffiniad mewn rhestr heb rifau nodi'r ddarpariaeth sy'n cynnwys y diffiniad, y diffiniad sy'n cael ei ddiwygio ac unrhyw is-raniad ynddi:

> Yn rheoliad 2, yn y diffiniad o "awdurdod lleol", ym mharagraff (b), …

(7) Dylai diwygiad i unrhyw restr arall sydd heb rifau nodi lleoliad y rhestr a'r cofnod sy'n cael ei ddiwygio. Ac efallai y bydd angen i ddiwygiad i dabl nodi y cofnod a'r golofn yn y tabl lle mae'r diwygiad yn cael ei wneud:

> Yn Atodlen 3, yn y tabl ym mharagraff 2, yn y cofnod ar gyfer landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, yn yr ail golofn, …

### 7.8 Gwneud yr un diwygiad mewn darpariaethau gwahanol

(1) Efallai y bydd angen gwneud yr un diwygiad i nifer o ddarpariaethau, er enghraifft, os oes cysyniad neu gorff cyhoeddus presennol yn cael ei amnewid ag un newydd. Y dull amlycaf a mwyaf diogel yn gyffredinol yw nodi pob diwygiad ar wahân.

(2) Does dim gwrthwynebiad i ddefnyddio un ddarpariaeth ddiwygio i wneud rhediad o newidiadau sydd yr un fath yn union, er enghraifft drwy ddisgrifio'r newid ac wedyn restru'r darpariaethau sydd i'w diwygio.[32] Ond peidiwch â neidio o gwmpas yn y dilyniant yn y ddeddfwriaeth

32 Os yw'r geiriau y mae'r diwygiad yn effeithio arnynt yn digwydd fwy nag unwaith mewn unrhyw un o'r darpariaethau y byddwch yn eu crybwyll, gall fod angen hefyd ichi ddefnyddio un o'r ffurfeiriadau a nodir ym mharagraff 7.13.

bresennol. Er enghraifft, os ydych yn gwneud yr un newidiadau i is-adrannau (1) a (3), a newid gwahanol i is-adran (2), peidiwch â delio ag is-adrannau (1) a (3) gyda'i gilydd ac wedyn mynd yn ôl i is-adran (2). Diwygiwch bob is-adran ar wahân yn y drefn y maent yn ymddangos.

(3) O ran egwyddor, fe ellid defnyddio un gwelliant cyffredinol i newid term a ddefnyddir drwy'r cyfan o ddarn o ddeddfwriaeth. Efallai fod hyn yn ymddangos fel ffordd ddeniadol i symleiddio'r gwaith drafftio, ond nid yw'n osgoi'r angen i ddod o hyd i bob un o'r newidiadau angenrheidiol, ac yn ymarferol mae'n debyg mai prin fydd yr achosion lle y bydd yn briodol.

(4) Dim ond os yw'r drafftiwr yn sicr bod hynny'n gweithio ar gyfer pob cyfeiriad at derm y dylai diwygiad cyffredinol gael ei ddefnyddio, ond prin fydd achosion lle mae hyn yn wir. Efallai y bydd y ddeddfwriaeth bresennol yn defnyddio nifer o amrywiadau ar y term, megis ffurfiau unigol a lluosog, ffurfiau wedi eu treiglo yn Gymraeg, a ffurfiau meddiannol yn Saesneg. Hefyd gall newid enw olygu bod angen newid rhagenwau neu ferfau, a fydd yn gorfod cael ei wneud ar wahân. Mae'r materion hyn yn debygol o godi'n amlach wrth wneud newidiadau mewn dwy iaith.

(5) Efallai y bydd modd mynd i'r afael â'r materion hyn drwy wneud nifer o ddiwygiadau cyffredinol ychwanegol, gan ymdrin ar wahân ag ymadroddion ac ynddynt ffurf Gymraeg dreigledig, neu enw meddiannol yn Saesneg. Os nad oes modd osgoi diwygiad gwirioneddol gyffredinol, a'i fod yn arwain at amrywiaeth o dreigladau, dylech nodi hynny drwy ychwanegu "(gan dreiglo yn ôl yr angen)".

## 7.9 Nodi pa fersiwn iaith o ddeddfiad dwyieithog sy'n cael ei diwygio

(1) Wrth ddiwygio deddfiad dwyieithog yn y ddwy iaith, bydd y testun yn y ddwy iaith yn y Ddeddf ddiwygio neu'r offeryn diwygio yn diwygio'r fersiwn iaith gyfatebol yn y ddeddfwriaeth bresennol (h.y. mae'r testun Cymraeg yn gwneud y diwygiad yn Gymraeg ac mae'r testun Saesneg yn gwneud y diwygiad yn Saesneg). Does dim angen i'r diwygiad ddweud pa destun yn y ddeddfwriaeth bresennol y mae'n effeithio arno.

(2) Ambell waith bydd angen diwygio'r testun Cymraeg yn unig neu'r testun Saesneg yn unig mewn deddfiad dwyieithog. Os felly, bydd y ddau destun yn y Ddeddf ddiwygio neu'r offeryn diwygio yn gwneud yr un diwygiad i un testun iaith yn y ddeddfwriaeth bresennol, a dylai'r ddarpariaeth ddiwygio nodi a yw'r y diwygiad hwnnw'n cael ei wneud "yn y testun Cymraeg" ynteu "yn y testun Saesneg". Er enghraifft:

> Yn rheoliad 5, yn y testun Cymraeg, hepgorer "nad"
> In regulation 5, in the Welsh language text, omit "nad"

## 7.10 Disgrifiadau mewn cromfachau o ddarpariaethau sy'n cael eu diwygio

(1) Arfer cyffredin yw cynnwys disgrifiad byr mewn cromfachau o'r ddarpariaeth sy'n cael ei diwygio, i helpu'r darllenydd i weld yr hyn y mae'r diwygiad yn ei wneud. I gael canllawiau cyffredinol ar ddisgrifiadau mewn cromfachau, gweler paragraff 5.7.

(2) Dim ond os yw'n fuddiol y dylid cynnwys disgrifiad mewn cromfachau o ddarpariaeth sy'n cael ei diwygio. Mae'n debycach o fod yn fuddiol yn achos diwygiad sylweddol o bwys.

(3) Efallai na fydd disgrifiad yn fuddiol mewn Atodlen o ddiwygiadau canlyniadol, pan nad oes effaith wirioneddol bwysig i'w ddisgrifio (a llai o ddarllenwyr i'w disgrifio iddynt). Er enghraifft, os ydych yn newid enw corff yn yr holl ddeddfwriaeth sy'n bodoli eisoes, ond dim byd arall, efallai nad oes fawr o ddiben disgrifio pob darpariaeth lle gwneir y newid.

(4) Mae hefyd yn annhebygol o fod yn werth rhoi disgrifiad o adran y mewnosodir adran newydd **ar ei hôl**, oni bai bod cysylltiad agos iawn rhwng y ddwy.

## Disgrifio lleoliad diwygiad o fewn darpariaeth

### 7.11 Nodi rhannau o ddarpariaeth sydd â pharagraffau

(1) Mae hyn yn ymwneud â diwygio darpariaeth (megis adran neu is-adran) a rennir yn baragraffau wedi eu rhifo (a), (b), (c) etc.

(2) Os yw'r diwygiad yn effeithio ar eiriau sy'n ymddangos mewn mwy nag un elfen o'r ddarpariaeth, bydd angen cynnwys geiriau i nodi'r elfen berthnasol.

(3) Dylai'r geiriau o flaen y paragraffau gael eu nodi fel "y geiriau o flaen paragraff (a)" — neu beth bynnag yw'r paragraff cyntaf — ac nid fel "y geiriau agoriadol".

(4) Os oes geiriau ar ôl y paragraffau, dylent gael eu nodi fel "y geiriau ar ôl paragraff ( )" — gan roi rhif y paragraff olaf — ac nid fel "y geiriau cloi".

(5) Os yw'r diwygiad yn effeithio ar eiriau sy'n ymddangos unwaith yn unig, does dim angen pennu'r geiriau sy'n ymddangos o flaen y paragraffau, ynddyn nhw neu ar eu hôl. Ond weithiau fe all fod o gymorth gwneud hynny (e.e. os yw'r ddarpariaeth yn arbennig o hir).

### 7.12 Nodi testun o fewn darpariaeth

(1) Pan fo diwygiad yn ymwneud ag elfen benodol mewn darpariaeth, neu eiriau penodol mewn darpariaeth, rhaid bod yn sicr ynghylch ble mae'r diwygiad yn cael ei wneud neu ba eiriau y mae'n effeithio arnynt.

(2) Pan fo diwygiad yn dyfynnu geiriau yn y ddarpariaeth sy'n cael ei diwygio, does dim angen cyfeirio atynt fel "y geiriau". Er enghraifft, dylai mewnosodiad gael ei wneud "ar ôl "x" yn hytrach nag "ar ôl y geiriau "x".

(3) Er hynny, wrth ddiddymu neu amnewid swm mawr o destun mewn darpariaeth, efallai na fydd yn ddefnyddiol nodi'r holl destun hwnnw yn y diwygiad. Yn hytrach, gall y geiriau sy'n cael eu diddymu neu eu hamnewid gael ei ddisgrifio yn y ffyrdd a ganlyn:

> y geiriau o "x" hyd at "y"
> y geiriau o "x" hyd at y diwedd

(4) Pan fo diwygiad yn disgrifio cyfran o ddarpariaeth fel hyn, mae adran 21 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 yn golygu bod y gyfran yn cynnwys y geiriau a ddyfynnir. Gan hynny, bydd darpariaeth sy'n hepgor "y geiriau o "x" hyd at "y" yn tynnu'r geiriau "x" ac "y" yn ogystal â'r testun rhyngddynt.

### 7.13 Amnewid geiriau neu ychwanegu at eiriau pan fônt yn digwydd fwy nag unwaith

(1) Pan fo geiriau'n digwydd fwy nag unwaith mewn darpariaeth a'ch bod chi am nodi un o'r lleoedd lle maent yn ymddangos, mae'r dulliau a ganlyn yn bosibl:

> ar ôl "x", yn [y lle cyntaf] [yr ail le] y mae'n digwydd, mewnosoder "y"
> ar ôl [yr "x" cyntaf] [yr ail "x"] mewnosoder "y"
> ar ôl [y cyfeiriad cyntaf] [yr ail gyfeiriad] at "x" mewnosoder "y"

(2) Mewn rhai achosion, efallai y bydd yn symlach amnewid ychydig yn fwy o'r testun er mwyn osgoi gorfod cyfeirio at y lle cyntaf neu'r ail le y mae gair neu ymadrodd yn digwydd.

(3) Pan fo gair neu ymadrodd yn digwydd ddwywaith yn yr un ddarpariaeth a'ch bod chi am ymdrin â'r ddau le y mae'n digwydd, mae'r dulliau a ganlyn yn bosibl:

> ar ôl "x", yn y ddau le y mae'n digwydd, mewnosoder "y"
> ar ôl y ddau gyfeiriad at "x" mewnosoder "y"

(4) Pan fo gair neu ymadrodd yn digwydd dair gwaith neu fwy yn yr un ddarpariaeth a'ch bod chi am ymdrin â phob lle y mae'n digwydd, mae'r dulliau a ganlyn yn bosibl:

ar ôl "x", ym mhob lle y mae'n digwydd, mewnosoder "y"
ar ôl pob "x" mewnosoder "y"
ar ôl pob cyfeiriad at "x" mewnosoder "y"

(5) Er bod pob un o'r dulliau uchod yn dderbyniol, dylai Bil fabwysiadu un ohonynt a'i ddefnyddio'n gyson.

(6) Peidiwch â gosod cromfachau o amgylch y geiriau sy'n nodi'r mannau lle gwelir y gair neu'r ymadrodd, gan fod cromfachau'n cael eu cadw yn gyffredinol ar gyfer deunydd sy'n cael ei gynnwys er mwyn helpu'r darllenydd ond nad oes iddo effaith gyfreithiol o sylwedd. Ond, os ydych am wneud y diwygiad yn y pennawd yn ogystal ag ym mhob man yng nghorff darpariaeth, gallwch wneud hynny'n glir drwy ychwanegu ("gan gynnwys y pennawd").

## 7.14 Lleoliad testun newydd o fewn darpariaeth: ar ei hôl, ar y dechrau, ar y diwedd

(1) Mae hyn yn ymwneud â mewnosod geiriau newydd mewn rhaniad presennol o'r testun (megis is-adran neu baragraff).

(2) Dylai'r testun newydd gael ei fewnosod fel arfer "ar ôl" y gair sy'n ei ragflaenu.

(3) Ond wrth fewnosod y testun ar ddechrau rhaniad presennol, y ffurf arferol yw dweud:

ar y dechrau mewnosoder "x"

yn hytrach na dweud bod y testun newydd yn cael ei fewnosod "o flaen" geiriau penodol.

(4) Ac wrth fewnosod testun ar ddiwedd rhaniad yn y testun, y ffurf arferol yw dweud:

ar y diwedd mewnosoder "x"

yn hytrach na dweud bod y testun newydd yn cael ei fewnosod "ar ôl" geiriau penodol.

(5) Dylai diwygiad sy'n mewnosod geiriau ar ddiwedd darpariaeth bresennol ddweud "mewnosoder" yn hytrach nag "ychwaneger".

## Disgrifio lleoliad darpariaeth newydd

## 7.15 Lleoliad darpariaeth newydd: o flaen neu ar ôl

(1) Mae hyn yn ymwneud â mewnosod rhaniad newydd o destun (megis Atodlen, adran, is-adran, paragraff neu is-baragraff) o fewn cyfres bresennol o ddarpariaethau.

(2) Yr arfer yw mewnosod darpariaeth newydd "ar ôl" un arall.

(3) Wrth fewnosod y lefel uchaf o raniad (megis adran neu Atodlen newydd mewn Deddf), gellir gwneud hyn yn un o'r ffyrdd a ganlyn:

Yn Neddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (dccc 1), ar ôl adran 177 mewnosoder—
Ar ôl adran 177 o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (dccc 1) mewnosoder—

(4) Y dull o fewnosod darpariaeth newydd "ar ôl" y ddarpariaeth sy'n ei rhagflaenu a ddylai gael ei ddefnyddio hefyd wrth fewnosod is-raniad newydd o destun ar ddiwedd rhaniad presennol (e.e. is-adran newydd ar ddiwedd adran bresennol, neu baragraff newydd ar ddiwedd Atodlen bresennol).

(5) Er hynny, mae nifer o achosion lle gall fod yn briodol mewnosod rhaniad newydd o destun "o flaen" un presennol:

(a) Pan fo darpariaeth yn mewnosod adran newydd ar ddechrau Deddf, neu Atodlen Gyntaf newydd i Ddeddf neu offeryn, bydd angen iddi wneud y mewnosodiad "o flaen adran 1" neu "o flaen Atodlen 1".

(b) Gall "o flaen" fod yn ddefnyddiol pan geir darpariaeth newydd sydd i'w mewnosod ar ddechrau Rhan, Pennod, neu grŵp o ddarpariaethau o dan groes-bennawd, pan allai ei mewnosod "ar ôl" y ddarpariaeth flaenorol arwain at ddryswch ynghylch a ddylai ymddangos ar ddiwedd y Rhan, y Bennod neu'r grŵp blaenorol. Er enghraifft:

Yn Rhan 2, o flaen adran 5 mewnosoder—

(c) Wrth fewnosod paragraff newydd ar ddechrau rhestr bresennol o baragraffau, dylid gwneud y mewnosodiad "o flaen paragraff (a)" — neu pa un bynnag yw'r paragraff cyntaf — yn hytrach nag "ar ôl y geiriau o flaen paragraff (a)".

## 7.16 Mewnosod o flaen neu ar ôl darpariaethau heb rifau

(1) I ychwanegu is-adran newydd at adran nad yw wedi ei his-rannu eisoes, neu is-baragraff newydd at baragraff mewn Atodlen nad yw wedi ei is-rannu, gwnewch y canlynol:

(a) yn gyntaf ailrifwch y testun presennol:

Yn adran 1 daw'r ddarpariaeth bresennol yn is-adran (1)

(b) yn nesaf gwnewch unrhyw ddiwygiadau i'r testun presennol (ond os yw'r rheiny'n arwyddocaol, gall fod yn well amnewid yr adran neu'r paragraff cyfan):

Yn yr is-adran honno, ar ôl "x" mewnosoder "y"

(c) wedyn mewnosodwch yr is-adran neu'r is-baragraff newydd ar ei ôl:

Ar ôl yr is-adran honno mewnosoder—

"(2) ..."

(2) Mae ystyriaethau tebyg yn gymwys wrth fewnosod Atodlen newydd mewn darn o ddeddfwriaeth ac iddo un Atodlen a honno heb rif. Os bydd yr Atodlen newydd yn dod ar ôl yr un bresennol, ailrifwch yr Atodlen bresennol fel Atodlen 1 ac wedyn mewnosodwch yr Atodlen 2 newydd ar ei hôl. Os yr Atodlen newydd a fydd yn dod gyntaf, ailrifwch yr Atodlen bresennol fel Atodlen 2 ac wedyn mewnosodwch yr Atodlen 1 newydd o'i blaen.

(3) Wrth ailrifo darpariaethau fel hyn, gwiriwch a oes unrhyw groesgyfeiriadau atynt y mae angen eu diwygio hefyd.

## 7.17 Mewnosod mewn rhestrau sydd heb rifau

(1) Wrth fewnosod cofnod mewn rhestr sydd heb rifau, megis rhestr o ddiffiniadau neu gyrff statudol, gofalwch nad oes amheuaeth ynghylch ble y dylai'r cofnod newydd ymddangos. Y ffordd fwyaf manwl i nodi lleoliad y diwygiad fel arfer yw pennu'r cofnod presennol y mae'r mewnosodiad i gael ei wneud ar ei ôl.

(2) Weithiau bydd mewnosodiad mewn rhestr sydd heb rifau yn cael ei gyfleu fel diwygiad i fewnosod testun "yn y lle priodol". Gall hyn fod yn gyfleus wrth wneud nifer o ddiwygiadau i restr mewn deddfwriaeth ddwyieithog, lle gall y cofnodion newydd ymddangos mewn mannau gwahanol yn y ddau destun iaith.

(3) Er hynny, dim ond os yw'n glir sut mae'r rhestr wedi ei threfnu y bydd y dull hwn yn briodol, er enghraifft pan fo'r rhestr yn rhedeg yn nhrefn yr wyddor. Hyd yn oed wedyn, gall fod yn ddefnyddiol rhoi rhywfaint o arweiniad i'r darllenydd, e.e. drwy gyfeirio at "y lle priodol yn nhrefn yr wyddor".

## Rhifo darpariaethau a fewnosodir

## 7.18 Defnyddiwch yr wyddor Saesneg wrth ychwanegu darpariaethau sydd wedi eu rhifo

(1) Yr wyddor Saesneg a ddefnyddir i rifo unedau testun yn nhestunau Saesneg a Chymraeg Deddfau'r Cynulliad (gweler paragraff 2.7(5)). Dyna oedd yr arfer ynglŷn â Mesurau'r Cynulliad hefyd, ac mae wedi ei ddefnyddio yn offerynnau statudol Cymru ers 1 Ebrill 2012.

Felly, mae'r argymhellion a ganlyn ynghylch ychwanegu darpariaethau sydd wedi eu rhifo yn gymwys i ddiwygiadau i'r testun Cymraeg yn ogystal â'r testun Saesneg.

(2) Er hynny, yr wyddor Gymraeg a ddefnyddid i rifo darpariaeth yn y testun Cymraeg yn offerynnau statudol Cymru a wnaed cyn Ebrill 2012, a dylai diwygiadau i'r offerynnau hynny ddilyn arddull rifo'r gwreiddiol.

## 7.19 Defnyddiwch rifau Arabaidd wrth ychwanegu Rhannau, Penodau etc.

(1) Mewn rhai Deddfau Seneddol ac offerynnau statudol hŷn, mae'r Rhannau a'r Penodau wedi eu rhifo gan ddefnyddio rhifolion Rhufeinig (gweler paragraff 6.18). Yr arfer modern yw defnyddio rhifau Arabaidd ar gyfer Rhannau a Phenodau. Wrth fewnosod neu amnewid Rhan neu Bennod mewn deddfwriaeth sy'n defnyddio rhifolion Rhufeinig, defnyddiwch rifolion Arabaidd hyd yn oed os bydd hynny'n arwain at gymysgedd o arddulliau rhifo yn y testun diwygiedig. Er enghraifft, dylai Rhan newydd a fewnosodir rhwng Rhan III a Rhan IV o Ddeddf fod yn Rhan 3A.

(2) Dylid mabwysiadu'r un dull wrth ddiwygio deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir yn y gyfraith ddomestig o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018. Gall deddfwriaeth yr UE fod â Theitlau, Penodau neu Atodiadau sydd wedi eu rhifo gan ddefnyddio rhifolion Rhufeinig (gweler paragraffau 6.28 a 6.29). Os ydych yn mewnosod neu'n amnewid Teitl, Pennod neu Atodiad, defnyddiwch rifau Arabaidd hyd yn oed os defnyddiodd yr offeryn gwreiddiol rifolion Rhufeinig.

## 7.20 Ychwanegu darpariaethau ar ddiwedd cyfres

Mae'r canlynol yn gymwys wrth fewnosod darpariaeth ar ddechrau cyfres bresennol o ddarpariaethau (e.e. is-adran ar ddechrau adran neu Atodlen o flaen yr Atodlen gyntaf).

- Mae adrannau newydd sy'n cael eu mewnosod o flaen adran gyntaf Deddf yn cael eu rhagflaenu gan y llythyren "A" (A1, A2, A3 etc.).
- Defnyddir yr un dull o ran yr holl raniadau eraill mewn testun (ac eithrio paragraffau sydd â llythyren). Gan hynny, mewnosododd Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 Atodlenni A1 ac A2 o flaen Atodlen 1 i Ddeddf Henebion a Mannau Archaeolegol 1979.
- "ZA1" neu ("zai") fydd darpariaeth a fewnosodir o flaen "A1" neu "ai").
- O ran paragraffau sydd â llythyren, (za), (zb) etc. fydd paragraffau newydd sy'n cael eu mewnosod o flaen paragraff (a).
- A (zza), (zzb) etc. fydd paragraffau a fewnosodir o flaen (za).

## 7.21 Ychwanegu darpariaethau ar ddiwedd cyfres

Wrth ychwanegu darpariaeth ar ddiwedd y gyfres bresennol o ddarpariaethau o'r un math (e.e. is-adran ar ddiwedd adran neu Atodlen ar ôl yr Atodlenni sydd eisoes yn bodoli), dylai'r rhifau barhau mewn dilyniant.

## 7.22 Mewnosod darpariaethau cyfan rhwng darpariaethau presennol

(1) Mae'r canlynol yn gymwys wrth fewnosod darpariaethau cyfan rhwng darpariaethau presennol.

- 1A, 1B, 1C etc. fydd darpariaethau newydd a fewnosodir rhwng 1 a 2.
- 1AA, 1AB, 1AC etc. fydd darpariaethau newydd a fewnosodir rhwng 1A ac 1B.
- 1ZA, 1ZB, 1ZC etc. (nid 1AA etc.) fydd darpariaethau newydd a fewnosodir rhwng 1 ac 1A.
- 1AZA, 1AZB, 1AZC etc. fydd darpariaethau newydd a fewnosodir rhwng 1A ac 1AA.

(2) Peidiwch â chreu dynodydd ar lefel is oni bai bod rhaid ichi.

- 1AB (nid 1AAA) fydd darpariaeth newydd a fewnosodir rhwng 1AA ac 1B.
- Ond 1AAA fydd darpariaeth newydd a fewnosodir rhwng 1AA ac 1AB.

(3) Mae'r argymhellion uchod yr un mor berthnasol i baragraffau sydd â llythyren ac i is-baragraffau sydd â rhifau Rhufeinig .

- (aa), (ab), (ac) etc. fydd paragraffau newydd rhwng paragraffau (a) a (b).
- (aza), (azb), (azc) etc. fydd paragraffau newydd rhwng paragraffau (a) ac (aa).
- (ia), (ib), (ic) etc. fydd is-baragraffau newydd rhwng is-baragraffau (i) a (ii).

## 7.23 Mewnosodiadau sy'n arwain at gyfres o fwy na 26 o ddarpariaethau â llythrennau

Ar ôl rhif sy'n gorffen â Z defnyddiwch Z1, Z2, Z3 etc. Er enghraifft, ar ôl adran 61Z mewnosodwch adrannau 61Z1, 61Z2 etc. Ar ôl paragraff (z) mewnosodwch baragraffau (z1), (z2) etc.

## 7.24 Ailddefnyddio rhifau

(1) Os bydd diwygiad yn dileu is-raniad cyfan o destun (e.e. is-adran) ac yn mewnosod is-raniad newydd sydd o ran ei sylwedd yn ei amnewid (am ei fod yn ymdrin â'r un pwnc), dylai'r diwygiad fod ar ffurf amnewidiad a gall rhif yr is-raniad presennol gael ei ailddefnyddio.

(2) Os oes darpariaeth newydd i'w mewnosod yn yr un lle ag un bresennol ond na fwriedir iddi ei hamnewid, gwnewch ddau ddiwygiad ar wahân i hepgor y ddarpariaeth bresennol a mewnosod yr un newydd, a pheidiwch ag ailddefnyddio rhif yr hen ddarpariaeth.

(3) Wrth fewnosod is-raniad cyfan o destun (e.e. is-adran) mewn man lle mae is-raniad o'r un fath wedi ei ddiddymu o'r blaen, ni ddylai rhif y ddarpariaeth a ddiddymwyd gael ei ddefnyddio ar gyfer y ddarpariaeth newydd.

(4) Os yr un olaf mewn cyfres oedd y ddarpariaeth a ddiddymwyd (e.e. yr is-adran olaf mewn adran), rhowch y rhif nesaf ar ôl y ddarpariaeth a ddiddymwyd i'r ddarpariaeth newydd. Er enghraifft, os yw adran yn gorffen ag is-adran (4) am fod is-adran (5) wedi ei diddymu, dylai is-adran newydd ar y diwedd gael ei rhifo â'r rhif (6) nid (4A).

# Beth i'w gynnwys mewn diwygiadau testunol

## 7.25 Faint o destun i'w amnewid

(1) Y man cychwyn wrth ddrafftio amnewidiad yw y dylech amnewid cyn lleied o'r testun ag y bo modd. Ran amlaf, bydd yn llai tebygol o fynd o chwith ac yn ei gwneud yn haws i'r sawl sy'n darllen y Bil neu'r offeryn diwygio weld beth sy'n newid.

(2) Er hynny, i ddarllenydd y ddeddfwriaeth ddiwygio, neu ddarllenydd y ddeddfwriaeth sy'n cael ei diwygio, mewn rhai achosion bydd yn ddefnyddiol os byddwch yn amnewid testun ychwanegol (neu hyd yn oed amnewid darpariaeth gyfan yn hytrach na gwneud diwygiad ynddi). Er enghraifft, gall hyn fod yn wir:

(a) pan fydd nifer o newidiadau cysylltiedig yn cael eu gwneud i un ddarpariaeth;

(b) pan fyddai grŵp o ddiwygiadau yn arwain yn y pen draw at newid holl sail y ddarpariaeth bresennol heb adael fawr ddim o'r testun blaenorol;

(c) pan fydd gwneud hynny yn peri ei bod yn haws adnabod y testun a amnewidiwyd (gweler paragraff 7.13(2));

(d) i wella cysondeb y ddarpariaeth ddiwygiedig, er enghraifft pan fyddai'r diwygiadau fel arall yn gadael y ddarpariaeth yn cynnwys cyfeiriadau at Weinidogion Cymru yn ogystal â chyfeiriadau at yr Ysgrifennydd Gwladol neu'r hen Gynulliad Cenedlaethol a'r rheiny bellach yn gorfod cael eu darllen fel cyfeiriadau at Weinidogion Cymru.

(3) Pan geir diwygiadau blaenorol i'r ddarpariaeth sy'n cael ei diwygio, gall amnewid mwy o destun nag y mae ei angen mewn gwirionedd helpu hefyd yn y sefyllfaoedd a ganlyn:

(a) gall amnewid geiriau ychwanegol alluogi'r drafftiwr i amnewid yr holl destun a fewnosodwyd gan ddiwygiad cynharach, gyda'r canlyniad bod y ddarpariaeth ddiwygio gynharach yn ddiangen ac yn gallu cael ei diddymu (gweler hefyd baragraff 7.34);

(b) pan fo'r ddarpariaeth sydd i'w diwygio wedi ei diwygio o'r blaen heb ddiwygio'r testun, efallai y bydd amheuaeth ynghylch pa eiriau sydd i'w diwygio'n destunol. Efallai y byddwch yn gallu osgoi'r anhawster hwn drwy ddileu neu amnewid testun sy'n dechrau o flaen y geiriau sydd o dan amheuaeth ac sy'n dod i ben ar eu hôl (h.y. testun "o" air sy'n ymddangos o flaen y geiriau amheus "hyd at" air sy'n ymddangos ar eu hôl).[33]

(4) Mae'r risgiau yn sgil amnewid mwy o destun nag sy'n angenrheidiol yn cynnwys:

(a) colli croesgyfeiriad, diwygiad annhestunol neu hen arbediad, a

(b) awgrymu bod newidiadau'n cael eu gwneud i destun nad yw'n newid mewn gwirionedd.

## 7.26 Diwygio cysyllteiriau ac atalnodi mewn darpariaethau sydd â pharagraffau

(1) Pan fo diwygiad yn diddymu neu'n amnewid paragraff neu is-baragraff a ddilynir gan gysylltair, mae angen bod yn glir a yw'r cysylltair yn cael ei dynnu ai peidio. Yn gyffredinol, bernir nad yw'r cysylltair yn rhan o'r paragraff neu'r is-baragraff, ond yr arfer yw egluro a oes bwriad i'r diwygiad effeithio ar y cysylltair ai peidio.

(2) Gan na fernir bod y cysylltair yn rhan o'r paragraff, ni ddylai'r diwygiad ddweud ei fod yn hepgor y paragraff "gan gynnwys" y cysylltair. Yn hytrach, dylai diwygiad sy'n ymdrin â chysylltair gael ei roi yn y ffurf a ganlyn:

hepgorer paragraff (a) a'r "a" ar ei ôl

hepgorer paragraff (b) (ond nid y "neu" ar ei ôl)

(3) Gall mewnosod neu ddileu paragraff olygu nad oes angen cysylltair ar ôl paragraff arall mwyach neu y dylid ei symud. Os felly, bydd angen cynnwys diwygiadau i ddileu'r cysylltair presennol a (lle bo'n briodol) ychwanegu un newydd yn y lle cywir. Mae'n dderbyniol diddymu'r paragraff olaf a'r cysylltair sy'n ei ragflaenu mewn un diwygiad:

hepgorer paragraff (d) a'r "neu" o'i flaen

(4) Peidiwch â chynnwys diwygiadau sy'n cywiro'r atalnodi ar ddiwedd paragraffau neu is-baragraffau yn unig, heb effeithio ar y testun. Er enghraifft, wrth ddiddymu'r paragraff olaf mewn is-adran, peidiwch â chynnwys diwygiad newydd i amnewid y coma neu'r hanner colon ar ddiwedd y paragraff blaenorol ag atalnod llawn (ond gofalwch ymdrin ag unrhyw gysyllteiriau y mae angen eu dileu neu eu mewnosod).

## 7.27 Diwygio penawdau

(1) Mae'n dderbyniol diwygio pennawd darpariaeth neu set o ddarpariaethau. Yn benodol, gall fod yn fuddiol gwneud hyn os bydd diwygiad testunol i'r darpariaethau yn peri bod y pennawd yn ffug. Ond does dim angen diwygio pennawd dim ond am nad yw'n ddelfrydol ar gyfer y testun diwygiedig.

(2) Mewn rhai achosion bydd angen newid pennawd heb fod yna newid yn y testun o dan y pennawd. Mae'r rhain yn cynnwys achosion lle ychwanegir set gyfochrog o ddarpariaethau ar ôl darpariaethau presennol a bod angen penawdau rhwng y setiau cyfagos o ddarpariaethau a'u cysylltu â'i gilydd. Un enghraifft fyddai pe bai un o Ddeddfau Senedd y Deyrnas Unedig yn cynnwys darpariaethau a fyddai'n gymwys i Loegr yn unig a bod darpariaethau newydd yn cael eu mewnosod ar eu hôl a fyddai'n gymwys i Gymru yn unig.

33 Ceir nifer o enghreifftiau o'r dull hwn yn Atodlen 2 i Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Swyddogaethau) 2013 (e.e. paragraffau 1 ac 8-11).

(3) Dylid drafftio diwygiadau i benawdau yn yr un modd â diwygiadau i ddarpariaethau gweithredol (h.y. fel cyfarwyddiadau i fewnosod testun, ei amnewid neu ei hepgor).

(4) Mewn rhestr o ddiwygiadau i ddarpariaeth (megis adran neu reoliad), gall diwygiad i'r pennawd gael ei gynnwys ar ddechrau'r rhestr, a dyna'r dull arferol y dylid ei ddefnyddio wrth wneud cyfres o ddiwygiadau canlyniadol yn unig. Gan hynny, dylai diwygiad i bennawd adran ymddangos ar ôl y geiriau sy'n darparu bod yr adran yn cael ei diwygio "fel a ganlyn" ond o flaen y diwygiadau i'r deunydd gweithredol yn yr adran.

(5) Fel arall, os ydych yn gwneud diwygiadau mwy arwyddocaol i ddarpariaeth, efallai y byddai'n briodol gadael y diwygiad i'r pennawd tan y diwedd, ar y sail ei fod yn dilyn o'r newidiadau o sylwedd.

(6) Mae gan adran, rheoliad, Rhan, Pennod neu Atodlen "pennawd" yn hytrach na "teitl". Ac ni ddywedir mai pennawd "i" y rhaniad perthnasol yn y ddeddfwriaeth ydyw, dim ond cyfleu ei fod yn perthyn iddo. Er enghraifft, gallai diwygiad gael ei wneud "ym mhennawd Rhan 3".

(7) Dylid disgrifio croes-bennawd italig o flaen grŵp o ddarpariaethau, neu bennawd italig mewn Atodlen, fel "y pennawd italig o flaen" y ddarpariaeth yn dilyn y pennawd.

## Pwyntiau eraill ynglŷn â drafftio diwygiadau ac effaith diwygiadau

### 7.28 Diwygio deddfwriaeth sy'n gymwys i rannau eraill o'r Deyrnas Unedig neu'n ymestyn iddynt

(1) Caiff Deddfau'r Cynulliad ddiwygio Deddfau Senedd y Deyrnas Unedig fel bod darpariaethau newydd yn cael eu mewnosod sy'n berthnasol i Gymru yn unig, neu fel bod darpariaethau presennol yn peidio â bod yn gymwys i Gymru. Yn yr un modd, caiff Gweinidogion Cymru wneud diwygiadau sy'n gymwys i Gymru yn unig mewn is-ddeddfwriaeth sy'n gymwys i rannau eraill o'r Deyrnas Unedig.

(2) Wrth wneud y math hwn o ddiwygiad, gofalwch fod cymhwysiad tiriogaethol y darpariaethau sy'n deillio ohono yn y ddeddfwriaeth ddiwygiedig wedi ei ddatgan yn glir ar wyneb y ddeddfwriaeth honno. Bydd angen mewnosod geiriad sy'n disgrifio'r achosion y mae'r darpariaethau a fewnosodir neu a ddiwygir yn gymwys iddynt, oni bai bod rhywbeth yn y ddeddfwriaeth ddiwygiedig eisoes yn ymdrin â sut i'w cymhwyso'n gywir.

(3) Peidiwch â drafftio diwygiad sy'n ymddangos fel pe bai'n gymwys yn gyffredinol, ond sydd wedi ei gyfyngu i Gymru gan ddarpariaeth sy'n eistedd yn y Ddeddf neu'r offeryn diwygio yn unig. Efallai y bydd yr effaith ar destun y ddeddfwriaeth ddiwygiedig yn aneglur, ac efallai na fydd darllenwyr y ddeddfwriaeth honno yn sylweddoli mai cyfyngedig yw cymhwysiad y diwygiad.

(4) Mae Deddfau'r Cynulliad ac offerynnau a wneir odanynt yn ymestyn i awdurdodaeth gyfreithiol Cymru a Lloegr yn unig, ond nid ydynt yn cynnwys darpariaethau ynghylch hyn (gweler paragraff 10.10). Mae'r dull hwn yr un mor gymwys pan fo Deddf neu offeryn yn diwygio neu'n diddymu darpariaethau mewn deddfwriaeth sy'n ymestyn y tu hwnt i Gymru a Lloegr. Does dim angen egluro mai ar gyfraith Cymru a Lloegr yn unig y mae'r diwygiad neu'r diddymiad yn effeithio, am na all Deddf gan y Cynulliad effeithio ar gyfraith unrhyw awdurdodaeth arall.

(5) Yn achlysurol bydd darpariaeth bresennol yn ffurfio rhan o gyfraith Cymru a Lloegr ac o gyfraith yr Alban neu Ogledd Iwerddon, ond wedi peidio â bod yn gymwys i Loegr. Os bwriedir i'r ddarpariaeth beidio â bod yn gymwys i Gymru mwyach, y canlyniad mae'n debyg yw nad yw mwyach yn ffurfio rhan o gyfraith Cymru a Lloegr. Yn gyffredinol, y ffordd orau i gyflawni'r canlyniad hwn fydd diddymu'r ddarpariaeth: bydd y diddymiad yn cael effaith ar gyfraith Cymru a Lloegr ond nid cyfraith unrhyw awdurdodaeth arall.

## 7.29 Dehongli testun a fewnosodir ac effaith testun a fewnosodir

(1) Pan fo Deddf neu offeryn yn mewnosod neu'n amnewid testun mewn darn presennol o ddeddfwriaeth, y rhagdybiaeth yw y bydd ystyr ac effaith y testun hwnnw yn cael eu llywodraethu gan y darpariaethau dehongli sy'n berthnasol i'r ddeddfwriaeth ddiwygiedig. Adlewyrchir y sefyllfa honno bellach yn adran 32 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019.

(2) Gall y darpariaethau ynglŷn â dehongli sy'n gymwys i'r ddeddfwriaeth ddiwygiedig fod yn wahanol i'r rhai sy'n gymwys i'r Ddeddf neu'r offeryn diwygio. Gan hynny, efallai y bydd achosion lle gallai'r un gair neu ddarpariaeth gael effaith wahanol yn ôl p'un a yw'n ymddangos mewn diwygiad i ddeddfwriaeth bresennol ynteu mewn darpariaeth sy'n sefyll ar ei thraed ei hun yn y ddeddfwriaeth newydd.

(3) Mae'r darpariaethau dehongli sy'n gymwys i Ddeddf gan y Cynulliad newydd neu is-offeryn Cymreig newydd yn cynnwys Rhan 2 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019. Ond bydd deunydd a fewnosodwyd yn y mathau a ganlyn o ddeddfwriaeth yn dod o dan Ddeddf Dehongli 1978:

(a) Deddfau Senedd y Deyrnas Unedig;

(b) Deddfau'r Cynulliad a gafodd y Cydsyniad Brenhinol cyn 2020;

(c) Mesurau'r Cynulliad;

(d) Is-offerynnau Cymreig a wnaed cyn 2020;

(e) deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir.

(4) Mae i'r mwyafrif o'r rheolau yn Neddf 2019 yr un effaith â'r rhai yn Neddf 1978, ac maent yn ddarostyngedig i unrhyw fwriad croes yn yr un modd â'r rheolau yn Neddf 1978. Er hynny, wrth ddrafftio diwygiadau i ddeddfiadau y mae Deddf 1978 yn gymwys iddynt, bydd angen ichi fod yn ymwybodol o'r gwahaniaethau rhwng y rheolau yn y ddwy Ddeddf. Mae'r tabl a ganlyn yn crynhoi rhai o'r prif wahaniaethau.

| **Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019, Rhan 2** | **Deddf Dehongli 1978** |
|---|---|
| Darpariaeth gulach ar gyfer arfer pwerau'n rhagolygol (gweler paragraffau 10.7 a 10.9) | Darpariaeth letach ar gyfer arfer pwerau'n rhagolygol |
| Pŵer cyffredinol i amrywio cyfarwyddydau a'u tynnu'n ôl (gweler paragraff 9.17) | Dim darpariaeth ynghylch cyfarwyddydau (felly gall fod angen pŵer pendant i'w hamrywio neu eu tynnu'n ôl) |
| Mae cyfeiriadau at ddeddfiadau eraill yn gyfeiriadau atynt fel y'u diwygiwyd unrhyw bryd (gweler paragraff 6.8) | Nid yw cyfeiriadau at ddeddfiadau eraill o reidrwydd yn cynnwys diwygiadau'r dyfodol |
| Mae'r ddeddfwriaeth yn rhwymo'r Goron oni bai ei bod yn gwneud darpariaeth bendant fel arall (gweler paragraff 10.4) | Dim darpariaeth ynghylch hyn (felly gall fod angen darpariaeth bendant i amnewid y rhagdybiaeth nad yw'r Goron wedi ei rhwymo) |
| Mae'r ddiffiniad diofyn o "Cymru" yn cynnwys tir a'r môr tiriogaethol (gweler paragraff 3.25) | Mae'r diffiniad diofyn o "Cymru" yn cynnwys ardaloedd cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yn unig (h.y. tir) |

## 7.30 Cysondeb ag arddull y deddfwriaeth wreiddiol

(1) At ei gilydd, dylai testun sy'n cael ei fewnosod mewn deddfwriaeth sy'n bodoli eisoes ddilyn argymhellion y canllawiau hyn. Ond, mae cysondeb ag arddull y ddeddfwriaeth wreiddiol hefyd yn ystyriaeth berthnasol, a gall fod yn rheswm dros wyro oddi wrth y canllawiau hyn mewn achosion lle gallai eu dilyn beri dryswch gwirioneddol. Mae'r achos o blaid cysondeb â'r gwreiddiol yn debygol o fod yn gryfach wrth fewnosod geiriau mewn darpariaeth bresennol nag wrth fewnosod darpariaethau cyfan newydd.

(2) Dylai testun a fewnosodir a thestun a amnewidir fel arfer osgoi defnyddio iaith hynafol a geiriau diangen. Yn Saesneg ni ddylent ddefnyddio "*shall*" oni fydd yn cael ei fewnosod mewn testun sydd eisoes yn defnyddio "*shall*" yn yr un modd, a dylent ddefnyddio iaith sy'n niwtral o ran rhywedd lle bynnag y bo modd. I gael rhagor o arweiniad yn hyn o beth, gweler paragraffau 3.14 a 3.24.

(3) Pan fo effaith deddfwriaeth wedi ei newid gan addasiad annhestunol, gallai drafftio testun i'w fewnosod yn yr un modd â'r gwreiddiol arwain at y canlyniad anghywir. Mae angen gofal arbennig lle roddodd deddfwriaeth swyddogaethau i'r Ysgrifennydd Gwladol sydd wedi eu trosglwyddo wedyn i Weinidogion Cymru. Gallai mewnosod cyfeiriadau newydd at yr Ysgrifennydd Gwladol roi swyddogaethau newydd i'r person anghywir.

## 7.31 Atalnodi diwygiadau

(1) Dylai testun a fewnosodir neu a amnewidir gael ei atalnodi yn yr un modd â'r testun sy'n cael ei ddiwygio. Er enghraifft, dylai ddilyn yr un dull â'r gwreiddiol wrth ddefnyddio coma neu hanner colon ar ddiwedd paragraff.

(2) Dylai atalnodi sy'n ffurfio rhan o'r ddarpariaeth ddiwygio (yn hytrach na rhan o'r testun a fewnosodir neu a amnewidir) gael ei gynnwys y tu allan i'r dyfynodau. Ond os bydd geiriau a fewnosodir neu a amnewidir yn gorffen ag atalnod llawn o flaen y dyfynodau cloi, peidiwch â chynnwys atalnod llawn arall ar ôl y dyfynodau cloi.

# Ymdrin â darpariaethau sydd wedi eu diwygio neu sydd heb fod mewn grym eto

## 7.32 Diwygio darpariaethau nad ydynt mewn grym eto

(1) Peidiwch ag anwybyddu deddfwriaeth nad yw eto mewn grym. At ei gilydd dylech dybio y bydd deddfwriaeth sydd heb gychwyn yn dod i rym, a'i chadw mewn cyflwr lle y gallai gael ei dwyn i rym. Felly os yw'r polisi y tu ôl i Fil neu offeryn yn gofyn am newidiadau i ddarpariaeth, neu os byddai'n gofyn am newidiadau pe bai mewn grym, dylai'r ddarpariaeth gael ei diwygio yn unol â hynny fel arfer.

(2) Weithiau ceir cwestiwn a yw diwygiad i Ddeddf gael ei ddwyn i rym drwy ddefnyddio pwerau yn y Ddeddf ddiwygio ynteu pwerau yn y Ddeddf sydd wedi ei diwygio.

(3) Y peth cyntaf i'w nodi yw bod sut a phryd y daw darpariaethau Deddf i rym yn cael eu pennu gan y Ddeddf honno. Mae hyn yn cynnwys unrhyw ddarpariaethau yn y Ddeddf honno sy'n diwygio deddfwriaeth bresennol nad yw mewn grym eto. Ar y llaw arall, ni fwriedir i ddarpariaethau mewn Deddf ynghylch pa bryd y daw i rym fod yn gymwys, adeg deddfu, i'r holl destun fod yn gymwys i'r holl destun sy'n digwydd cael ei ychwanegu ati drwy ddiwygiadau gan Ddeddfau diwygio diweddarach.

(4) Mewn rhai achosion, fe all ac fe ddylai'r drafftiwr ddibynnu ar y ddarpariaeth "dod i rym" yn y Ddeddf ddiwygio. Er enghraifft, os oes yna bolisi y dylai'r ddarpariaeth sydd heb ei chychwyn mewn Deddf gynharach ddod i rym a gweithredu am gyfnod heb y diwygiad sy'n cael ei wneud gan y Ddeddf ddiwygio, dim ond ar y ddarpariaeth yn y Ddeddf ddiwygio y gellir dibynnu i ddod â'r diwygiad i rym yn nes ymlaen.

(5) Neu unwaith eto, gall diwygiad olygu mewnosod darpariaeth annibynnol a all fod yn effeithiol heb gyfeirio at ddiwygio darpariaethau cyfagos yn y Ddeddf sydd heb eu cychwyn. Gallai darpariaeth ychwanegol o'r fath gael ei dwyn i rym yn llawn gan y Ddeddf ddiwygio neu odani, a hynny heb ddibynnu ar y darpariaethau cychwyn yn y Ddeddf sydd wedi ei diwygio.

(6) Gall fod achosion lle byddai drafftiwr am i'r testun sy'n cael ei ychwaneg gan Fil ddod i rym yn unol â'r darpariaethau yn y Ddeddf sy'n cael ei diwygio. Er enghraifft, fe allai'r drafftiwr fod am i bŵer y Ddeddf i wneud darpariaeth drosiannol mewn cysylltiad â dod â'r Ddeddf i rym fod yn gymwys i'w darpariaethau fel y maen nhw wedi eu diwygio gan y Bil. Mae hyn yn arbennig o debyg efallai pan nad oes gan y diwygiad ystyr ar ei ben ei hun.

(7) Weithiau gall fod yn amlwg bod y diwygiad sy'n cael ei wneud gan y Bil yntau'n addasu darpariaethau'r Ddeddf ynglŷn â dod i rym drwy ymhlygiad fel eu bod yn gymwys i'r testun diwygiedig yn yr un modd ag y bydden nhw wedi bod yn gymwys i'r testun heb ei ddiwygio. Mae'r ymagwedd hon yn ymddangos yn fwyaf rhesymol pan na all y testun a ychwanegir gan y diwygiad weithredu'n annibynnol ar y ddarpariaeth sy'n cael ei diwygio.

(8) Ond os nad yw'n amlwg mewn unrhyw achos penodol mai dyma fwriad y Ddeddf ddiwygio, yna bydd angen darpariaeth benodol er mwyn cymhwyso darpariaethau'r Ddeddf sy'n cael ei diwygio pan ddaw i rym.

## 7.33 Diwygio darpariaeth sy'n destun diwygiad nad yw mewn grym

(1) Os yw darpariaeth mewn Deddf neu offeryn presennol yn destun diwygiad neu amnewidiad cyfan nad yw mewn grym yn llawn eto, bydd angen ichi ystyried fersiwn wreiddiol y ddarpariaeth a'r fersiwn a ddiwygiwyd neu a amnewidiwyd, ill dwy. Gall polisi Bil neu offeryn newydd olygu bod angen diwygio'r ddwy fersiwn.

(2) Pan geir dwy fersiwn o ddarpariaeth bresennol, dylai'r darpariaethau diwygio mewn Bil neu offeryn newydd bob amser egluro pa fersiwn sy'n cael ei diwygio. Gallant wneud hynny drwy gyfeirio:

- (a) at y ddarpariaeth fel y'i diwygiwyd neu fel y'i hamnewidiwyd gan y ddeddfwriaeth ddiwygio sydd heb gychwyn (wrth gyfeirio at y fersiwn arfaethedig), neu
- (b) at y ddarpariaeth "fel y mae'n cael effaith cyn" i'r diwygiad neu'r amnewidiad ddod i rym (gan olygu'r hen fersiwn).

(3) Hyd yn oed os oes angen yr un diwygiad i'r ddwy fersiwn o'r ddarpariaeth, gall fod yn ddefnyddiol egluro mai'r bwriad yw bod y diwygiad yn gymwys i'r ddarpariaeth "fel y mae'n cael effaith cyn ac ar ôl" i'r diwygiad neu'r amnewidiad cynharach ddod i rym.

(4) Os ydych yn diwygio testun sydd i'w fewnosod yn Neddf X gan un o ddarpariaethau Deddf Y nad yw eto mewn grym, at ei gilydd mae'n ddigonol gweithredu ar y ddarpariaeth ddiwygio yn Neddf Y (er ei bod hefyd yn bosibl diwygio'r ddarpariaeth arfaethedig yn Neddf X). Yn y naill achos neu'r llall, mae'n ddefnyddiol cynnwys geiriad i ddangos eich bod yn diwygio testun y mae Deddf Y yn ei fewnosod yn Neddf X. Er enghraifft:

> Yn Atodlen 1 i Ddeddf Y, ym mharagraff 2, yn yr is-adran (1A) sydd wedi ei mewnosod yn adran 5 o Ddeddf X, …
>
> Yn adran 5 o Ddeddf X, yn yr is-adran (1A) sydd wedi ei mewnosod gan baragraff 2 o Atodlen 1 i Ddeddf Y, …

(5) Weithiau bydd diwygiad cynharach sy'n mewnosod darpariaeth mewn Deddf mewn grym yn rhannol (er enghraifft, pan fo darpariaeth gyffredinol newydd ynghylch apelau mewn grym yn achos rhai mathau o apêl ond nid rhai eraill). I'r graddau y mae'r ddarpariaeth a fewnosodir mewn grym, bydd angen ichi weithredu ar y ddarpariaeth honno yn y Ddeddf ddiwygiedig (p'un a ydych hefyd yn gweithredu ar y Ddeddf ddiwygio i'r graddau nad yw mewn grym ai peidio).

(6) Mae'r sefyllfa yn debyg os yw'r polisi newydd yn golygu na ddylai darpariaeth sydd heb gychwyn yn Neddf Y sy'n mewnosod deunydd yn Neddf X gael effaith. Os yw'r mewnosodiad yn gymwys i Gymru yn unig ac nad yw mewn grym at unrhyw ddiben, mae'n ddigon ei ddiddymu a dim byd arall. Ond mae hefyd yn gallu bod yn fuddiol cynnwys diwygiad i Ddeddf X i'w gwneud yn glir bod y testun a fewnosodwyd yn rhagolygol yn cael ei dynnu (yn ogystal â diddymu'r ddarpariaeth yn Neddf Y); ac fe fydd angen gwneud hyn os yw'r mewnosodiad mewn grym at unrhyw ddiben.

## 7.34 Diwygio darpariaeth yn ddarostyngedig i ddiddymiad nad yw mewn grym

(1) Peidiwch ag anwybyddu darpariaeth dim ond am ei bod yn ddarostyngedig i ddiddymiad sydd heb ddod i rym. Dylai'r ddarpariaeth gael ei diwygio os yw polisi eich Bil neu'ch offeryn yn gofyn am newid yn y ddarpariaeth cyhyd ag y bo'n parhau heb ei diddymu.

(2) Pan fo Bil yn diwygio darpariaeth sy'n destun diddymiad sydd heb gychwyn, efallai y bydd yna gwestiwn a fydd y diddymiad, pan ddaw i rym, yn gymwys i'r ddarpariaeth fel y'i diwygir wedyn. Bydd angen i'r drafftiwr wirio y darpariaethau sy'n ymwneud â'r diddymiad a sut mae'n dod i rym yn y Ddeddf sy'n cynnwys y diddymiad.

(3) Os yw'r diddymiad wedi ei gynnwys mewn Deddf neu offeryn y mae Rhan 2 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 yn gymwys iddo, mae adran 25 o'r Ddeddf honno yn creu rhagdybiaeth bod y ddarpariaeth ddiddymu yn cyfeirio at y ddarpariaeth wreiddiol fel y'i diwygiwyd unrhyw bryd.

(4) Serch hynny, dylai diwygiad i'r ddarpariaeth wreiddiol gynnwys geiriad i ddangos bod disgwyl iddi gael ei diddymu. Un ateb posibl yw i'r Bil wneud darpariaeth ddarfodol nad yw'n cael effaith hyd nes bod y diddymiad mewn grym yn llwyr.

(5) Weithiau bydd darpariaeth sydd heb ei diddymu eto wedi darfod, sy'n golygu na all y sefyllfaoedd yr arferai fod yn gymwys iddynt fodoli mwyach. Os yw darpariaeth wedi darfod, gall gael ei hanwybyddu yn hytrach na'i diwygio, hyd yn oed os yw'n destun diddymiad nad yw mewn grym eto. Does dim pwynt diweddaru darpariaeth sydd heb unrhyw effaith ymarferol mwyach. Ond gofalwch fod y ddarpariaeth wedi darfod mewn gwirionedd – gall y ffaith nad yw'r diddymiad wedi ei ddwyn i rym awgrymu bod penderfyniad wedi ei wneud i gadw'r ddarpariaeth mewn grym.

## 7.35 Diddymu diwygiadau a diddymiadau cynharach

(1) Gall diwygiad i ddarpariaeth olygu bod diwygiad cynharach iddi wedi pallu'n llwyr, er enghraifft am fod y diwygiad newydd yn diddymu neu'n amnewid y cyfan o'r ddarpariaeth wreiddiol neu bopeth a fewnosodwyd gan y diwygiad blaenorol. Arfer da yw diddymu'r diwygiad cynharach os yw wedi pallu'n llwyr. Os nad yw diwygiad cynharach wedi pallu'n llwyr, peidiwch â'i ddiddymu.

(2) Nid peth anghyffredin yw ddiddymu deddfiadau diddymu cynharach. Ond os ydych chi wrthi bellach yn diddymu gweddill y Ddeddf a oedd yn cynnwys y diddymiad cynharach, mae hi fel arfer yn fwy cymen ac yn llai dryslyd i'r darllenydd os byddwch yn diddymu'r cyfan o'r Ddeddf honno yn hytrach na thorri darpariaeth ddiddymu allan ohoni. Nid yw diddymu diddymiad cynharach yn adfywio'r deddfiad a ddiddymwyd o'r blaen: gweler adran 33 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019. Ond os oedd yna arbedion ynglŷn â'r diddymiad cynharach, bydd angen ystyried a oes angen gwneud unrhyw beth i ddiogelu effaith y rheiny.

## Addasiadau annhestunol

### 7.36 Defnyddio addasiadau annhestunol

(1) Mae addasiad annhestunol (neu "glos") yn addasiad ar ddeddfiad na fwriedir iddo arwain at newid yn nhestun y deddfiad hwnnw pan gyhoeddir ef nesaf.

(2) Gall addasiadau annhestunol gael eu defnyddio i gymhwyso darpariaethau sydd eisoes yn bod at ddiben neu achos newydd, a all osgoi'r angen am ailadrodd helaeth ar ddeunydd tebyg iawn. Er hynny, gall y math hwn o addasiad wneud bywyd yn fwy anodd i ddarllenwyr, a fydd yn gorfod llunio stori'r sefyllfa newydd ar sail dwy set o ddarpariaethau. Gan hynny, mae'n fwy tebygol o fod yn briodol pan fo'r addasiadau y mae eu hangen ar gyfer y sefyllfa newydd yn gymharol syml neu'n fach o ran eu nifer; os ydynt yn helaeth, mae yn aml yn well nodi'r darpariaethau ar gyfer y sefyllfa newydd yn llawn.

(3) Os cafodd y ddeddfwriaeth bresennol ei deddfu yn uniaith Saesneg, ni fydd ei chymhwyso at sefyllfa newydd gydag addasiadau annhestunol yn cynhyrchu darpariaethau cwbl ddwyieithog ar gyfer y sefyllfa newydd. Un o fanteision ailddatgan y darpariaethau yn llawn gyda'r addasiadau angenrheidiol yw y bydd yna destun dwyieithog.

(4) Gall y ffaith bod darpariaeth wedi ei chymhwyso at sefyllfa arall gydag addasiadau ei gwneud yn anos hefyd i ddrafftwyr ddeddfwriaeth y dyfodol benderfynu sut i gyfeirio at y ddarpariaeth neu ei diwygio. Ac os caiff y ddarpariaeth ei diwygio yn nes ymlaen, bydd angen ystyried a yw'r addasiadau yn dal yn gymwys iddi, ac a oes angen eu diwygio er mwyn iddynt barhau i weithio. Bydd angen ichi gadw mewn cof effaith adran 25 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 (sy'n darparu bod cyfeiriadau at ddeddfiadau yn gyfeiriadau atynt fel y'u diwygiwyd unrhyw bryd), a hynny mewn darpariaethau glosio mewn Deddfau ac offerynnau, ac mewn cyfeiriadau diweddarach at y darpariaethau y maent wedi eu haddasu.

(5) Gall addasiadau annhestunol gael eu defnyddio hefyd i'w gwneud yn ofynnol i ddarpariaeth bresennol gael ei darllen mewn ffordd wahanol, naill ai'n gyffredinol ynteu at ddibenion penodol. Mae'r math hwn o addasiad yn codi materion tebyg iawn, ond gall fod yn arbennig o ddefnyddiol fel ffordd o ymdrin â sefyllfa anarferol neu dros dro. Nid yw'r ddarpariaeth glosio yn diwygio testun y ddarpariaeth bresennol ac felly gellir ei hanwybyddu mewn achosion cyffredin neu ar ôl i'r amgylchiadau yr oedd yn gymwys odanynt ddod i ben.

### 7.37 Yr angen i osgoi'r ffurfiau a ddefnyddir mewn diwygiadau testunol

(1) Mae achlysuron wedi bod pan nad yw wedi bod yn glir i'r darllenwyr a yw rhywbeth yn addasiad testunol ynteu'n addasiad annhestunol. Weithiau mae cyhoeddwyr cyfreithiol hyd yn oed wedi argraffu addasiadau annhestunol fel diwygiadau testunol. Felly, mae'n bwysig ei gwneud yn glir beth yw'r bwriad, ac osgoi ysgrifennu addasiadau annhestunol fel eu bod yn edrych fel diwygiadau testunol.

(2) Weithiau mae addasiadau annhestunol wedi eu drafftio yn yr un ffurf yn y bôn â diwygiad testunol, gyda'r unig wahaniaeth i'w weld yn y geiriau agoriadol. "Er engraifft (i'w hosgoi):

> (1) Mae adran 3 yn gymwys i Weinidogion Cymru fel y mae'n gymwys i awdurdod lleol ond gyda'r addasiadau a ganlyn—
>
> (a) yn is-adran (1) yn lle "yn ei ardal" rhodder "yng Nghymru"; a
>
> (b) yn is-adran (2) hepgorer "gyda chytundeb Gweinidogion Cymru".

(3) Byddai'n hawdd camgymryd hyn am ddiwygiad testunol. Mae'r geiriau agoriadol yn rhoi awgrym mai rhywbeth heblaw diwygiad testunol yw'r bwriad, ond mae'r gweddill yn union yr un fath â diwygiad testunol. Byddai'n arbennig o hawdd colli golwg ar y geiriau agoriadol pe bai'r rhestr o amnewidiadau a newidiadau eraill yn hir iawn.

(4) Byddai'n gliriach, i ddechrau, pe bai'r modd dibynnol yn cael ei ddefnyddio er mwyn dangos nad oes bwriad i'r testun gael ei amnewid gan destun gwahanol mewn gwirionedd. Er engraifft:

(1) Mae adran 3 yn gymwys i Weinidogion Cymru fel y mae'n gymwys i awdurdod lleol ond fel pe bai—

(a) "yng Nghymru" yn cael ei roi yn lle "yn ei ardal" yn is-adran (1), a

(b) "gyda chytundeb Gweinidogion Cymru" yn cael ei hepgor yn is-adran (2).

(5) Ond gwell byth fyddai osgoi cyfeirio at amnewid yn gyfan gwbl. Y dull a argymhellir felly yw hyn. Er engraifft:

(1) Mae adran 3 yn gymwys i Weinidogion Cymru fel y mae'n gymwys i awdurdod lleol ond fel pe bai—

(a) y cyfeiriad yn is-adran (1) at ardal yr awdurdod yn gyfeiriad at Gymru; a

(b) y cyfeiriad yn is-adran (2) at gytundeb Gweinidogion Cymru wedi ei hepgor.

# Pennod 8: Cyfnodau Amser

## 8.1 Rhagymadrodd

(1) Yn aml gall nodi dechrau neu ddiwedd cyfnod o amser a grybwyllir mewn deddfwriaeth greu canlyniadau pwysig, megis pennu pa bryd y bydd rhaid i berson gyflwyno cais neu roi hysbysiad.

(2) Wrth ddisgrifio cyfnod penodol o amser, dylech geisio sicrhau:

(a) y gwyddys yn sicr pa bryd y mae'r cyfnod yn dechrau ac yn gorffen;

(b) bod y geiriad yn ei gwneud mor hawdd â phosibl i'r darllenydd ddeall pa bryd y mae'r cyfnod yn dechrau ac yn gorffen, heb orfod cyfeirio at y gyfraith achosion;

(c) bod y cyfnod yn cael ei fynegi mor syml ag y bo modd.

(3) Mae'r Bennod hon yn cynnwys canllawiau ar fynegi cyfnodau amser mewn ffyrdd sy'n bodloni'r amcanion hyn[34].

(4) I gael canllawiau ar gyfeirio at rifau a dyddiadau, gweler Pennod 3.

## 8.2 Cyfnodau a sbardunir gan ddigwyddiadau: ffracsiynau o ddiwrnodau

(1) Yn aml bydd angen i ddeddfwriaeth ddisgrifio cyfnod drwy gyfeirio at ddigwyddiad. Un enghraifft yw cyfnod o 14 o ddiwrnodau i apelio yn erbyn penderfyniad: yma, y digwyddiad sy'n sbarduno dechrau'r cyfnod yw'r penderfyniad y byddai'r apêl yn cyfeirio ato.

(2) Yn yr enghraifft hon, gellid tybio y dylai'r cyfnod i apelio redeg o'r ennyd y gwneir y penderfyniad. Ond byddai hynny'n peri problemau, a hynny am y bydd y penderfyniad wedi ei wneud ran o'r ffordd drwy ddiwrnod, er bod cyfnod apelio sy'n cael ei fynegi mewn diwrnodau (neu wythnosau, misoedd neu flynyddoedd) cyfan yn cael ei gyfrif o ddechrau diwrnod. Y cwestiwn yw, pa ddiwrnod? Mater o bolisi yw a ddylai diwrnod y penderfyniad neu'r digwyddiad arall gael ei gynnwys ai peidio, ond nid yw'r cyfarwyddiadau bob amser yn glir yn hyn o beth.

(3) Os ydych chi am hepgor diwrnod y digwyddiad sbarduno, y dull gorau mae'n debyg yw dechrau'r cyfnod gyda'r diwrnod ar ôl diwrnod y digwyddiad, a'i gwneud yn ofynnol i gamau gael eu cymryd "o fewn" y cyfnod perthnasol (gweler isod). Ond o ran y polisi, mae'n bosibl y bydd yn anghywir i'r cyfnod ar gyfer apelio ddechrau rhedeg ar ddechrau'r diwrnod ar ôl y penderfyniad, gan y byddai hynny'n atal apêl a gâi ei gwneud ar ddiwrnod y penderfyniad.

(4) Os yw'r cyfnod yn dechrau ar ddechrau diwrnod y digwyddiad, yn dechnegol bydd yn cynnwys y rhan o'r diwrnod cyn i'r digwyddiad ddigwydd. Mae'n bosibl na fydd hyn yn peri problem yn ymarferol (er enghraifft, bydd yn amhosibl apelio yn erbyn penderfyniad cyn i hwnnw gael ei wneud). Ond os yw'r cyfnod ar gyfer apelio neu gymryd camau eraill yn fyr, fe allai fod yn werth ystyried a ddylai nifer y diwrnodau gael ei gynyddu o un, o ran polisi, er mwyn cymryd i ystyriaeth y ffaith na fydd y diwrnod cyntaf ar gael yn ymarferol.

(5) Efallai na fydd y canlyniad iawn yn cael ei gynhyrchu bob amser os dechreuir cyfnod ar ddechrau'r diwrnod y mae digwyddiad penodol yn digwydd: mae angen i bob achos gael ei ystyried ar sail ei ragoriaethau ei hun. Os yw'n bwysig cynnwys dim ond y rhan o'r diwrnod ar ôl y digwyddiad, bydd angen i'r gwaith drafftio egluro mai'r rhan honno o'r diwrnod yn unig sydd wedi ei chynnwys.

34 Bwriedir i'r canllawiau adlewyrchu dull llysoedd Cymru a Lloegr o ddehongli cyfnodau amser a nodir yn y deddfwriaeth ddomestig. O ran offerynnau'r UE, gan gynnwys y rhai a ddaw'n ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir ar y diwrnod ymadael, mae'r rheolau ar ddehongli cyfnodau amser wedi eu nodi yn Rheoliad (EEC, Euratom) Rhif 1182/71 y Cyngor ar 3 Mehefin 1971 (a fydd ei hun yn dod yn ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir ar y diwrnod ymadael).

## 8.3 Disgrifio dechrau cyfnod

(1) Un ffordd ddiamwys o sicrhau y bydd cyfnod yn dechrau ar ddechrau diwrnod penodol yw disgrifio'r cyfnod fel (dyweder) "14 o ddiwrnodau gan ddechrau â['r diwrnod hwnnw]". Os yw'r polisi'n golygu y dylai'r cyfnod gynnwys y cyfan o'r diwrnod o dan sylw, dyma'r ffurf a ddylai gael ei ffafrio.

(2) Peidiwch â chyfeirio at gyfnod yn dechrau "ar" diwrnod penodol, am fod hynny'n codi'r cwestiwn o faint o'r gloch yn union ar y diwrnod dan sylw y bydd y cyfnod yn dechrau. (Gall darparu i rywbeth gael effaith "ar" ddiwrnod penodol hefyd beri problemau am yr un rheswm. Ni ddylid defnyddio'r dull hwn, ac eithrio yn achos darpariaethau sy'n dod â deddfwriaeth i rym: gweler Pennod 10.[35])

(3) Hefyd, osgowch gyfeirio at gyfnod yn rhedeg "o" diwrnod neu ddigwyddiad penodol, am fod y ffurfiau hyn yn amwys yn eu defnydd arferol. Er y bydd llys fel arfer yn dehongli'r cyfnod o ddyddiau neu fisoedd "o" ddigwyddiad penodol fel pe na bai'n cynnwys diwrnod y digwyddiad, mae'n ddigon posibl na fydd darllenwyr y ddeddfwriaeth yn ymwybodol o hynny.

(4) At ei gilydd, bydd cyfnod a ddisgrifir fel nifer o ddiwrnodau "ar ôl" digwyddiad penodol hefyd yn cael ei gymryd fel pe na bai'n cynnwys y diwrnod y bydd y digwyddiad yn digwydd. Ond os yw'r polisi'n gofyn am hepgor diwrnod y digwyddiad, defnyddiwch ffurf gliriach.

(5) Un opsiwn yw cyfeirio at y cyfnod "ar ôl y diwrnod pan" fydd y digwyddiad yn digwydd (yn hytrach na chyfnod ar ôl y digwyddiad ei hun). Ffordd arall o osgoi amwysedd yw darparu bod y cyfnod yn dechrau ar ddechrau'r diwrnod nesaf, drwy gyfeirio at gyfnod "gan ddechrau â'r diwrnod ar ôl y diwrnod pan" fydd y digwyddiad yn digwydd.

## 8.4 Disgrifio diwedd cyfnod

(1) Pan fo angen ichi gyfeirio at ddiwedd cyfnod, gallai cyfeirio at y cyfnod "gan orffen â" diwrnod penodol ei gwneud yn glir bod y diwrnod yn cael ei gyfrif yn y cyfnod.

(2) Osgowch gyfeirio at gyfnod sy'n dod i ben "ar" diwrnod penodol, a allai arwain at amheuaeth ynghylch faint o'r gloch ar y diwrnod hwnnw y daw'r cyfnod i ben.

(3) Wrth gyfeirio at ddiwedd cyfnod, mae deddfwriaeth weithiau yn cyfeirio yn Saesneg at ei "*expiry*". Fel arfer, mae'r un effaith yn bosibl, mewn Saesneg ychydig yn gliriach, drwy ddefnyddio'r gair "end". "Diwedd" a ddefnyddir yn y testun Cymraeg i gyfateb i'r ddau.

## 8.5 "O fewn" cyfnod neu "cyn diwedd" cyfnod

(1) Bydd deddfwriaeth yn aml yn gofyn bod rhywbeth yn cael ei wneud "o fewn" cyfnod penodol neu "cyn diwedd" cyfnod. Ni fydd y ffurfiau hyn o reidrwydd yn arwain at yr un canlyniad.

(2) Mae gofyniad bod rhaid gwneud rhywbeth "o fewn" 3 wythnos yn dechrau ar ddyddiad penodol yn cyfyngu ar yr amser y caniateir i'r camau gael eu cymryd ynddo i'r cyfnod hwnnw o 3 wythnos. Mae'n ymddangos y byddai gofyniad bod rhaid i gamau gael eu cymryd "cyn diwedd" y cyfnod o 3 wythnos yn caniatáu i'r camau gael eu cymryd unrhyw bryd hyd at ddiwedd y cyfnod, gan gynnwys unrhyw bryd cyn i'r cyfnod ddechrau. (Ond efallai na fyddai'n cael yr effaith honno os dangosir bod yna fwriad gwahanol.[36])

(3) Mewn rhai achosion, byddai effaith ymarferol y ddwy ffurf yr un fath beth bynnag. Un enghraifft fyddai lle mae'n rhaid rhoi copi o ddogfen o fewn/cyn diwedd 3 wythnos gan ddechrau ar y dyddiad pan ddaw'r ddogfen i fodolaeth. Ond mewn achosion eraill, fe allai'r ddau eiriad gwahanol arwain at ganlyniadau sylweddol wahanol.

(4) Mae'n ymddangos bod gofyniad bod rhaid gwneud rhywbeth "erbyn diwedd" cyfnod yr un fath â gofyniad bod rhaid ei wneud "cyn diwedd" y cyfnod.

---

35 Yn achos darpariaeth sy'n dod â deddfwriaeth i rym ar ddiwrnod penodol, mae adran 29 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 yn ei gwneud yn glir y daw'r ddeddfwriaeth i rym ar ddechrau'r diwrnod.

36 Gweler R (Hillingdon LBC) v Secretary of State for Transport [2017] EWHC 121 (Admin).

## 8.6 Ymdrin â diwedd cyfnodau ac osgoi bylchau rhwng cyfnodau

(1) Yn aml bydd angen i ddeddfwriaeth ddisgrifio cyfnodau sy'n rhedeg yn olynol, neu wahaniaethu rhwng pethau sy'n digwydd cyn ac ar ôl pwynt penodol mewn amser. Yn yr achosion hyn mae'n bwysig osgoi creu bylchau anfwriadol neu orgyffwrdd anfwriadol rhwng cyfnodau.

(2) Pan fwriedir i ddarpariaeth gael effaith neu beidio â chael effaith pan ddaw cyfnod i ben, at ei gilydd mae'n ddigonol darparu i'r newid yn yr effaith gyfreithiol ddigwydd "ar ddiwedd y cyfnod" (a dyma'r dull a ddefnyddir i ddod â darpariaethau i rym ar ddyddiad penodedig: gweler paragraff 10.7). Bydd hyn yn golygu bod y sefyllfa newydd yn gymwys i'r amser ar ôl diwedd y cyfnod yn.

(3) Weithiau, gall fod yn ddymunol i ddarpariaeth egluro ei bod yn cyfeirio at rywbeth a fydd yn digwydd cyn gynted ag y bydd cyfnod o amser wedi dod i ben, neu at ddiwrnod neu gyfnod sy'n dilyn yn syth ar ôl y cyfnod o dan sylw heb fwlch. Gall wneud hynny drwy gyfeirio at ddigwyddiad, diwrnod neu gyfnod diweddarach sy'n digwydd "yn union ar ôl diwedd" y cyfnod.

(4) Mae angen gofal pan ddiffinnir cyfnodau olynol drwy gyfeirio at ddiwrnod penodol. Er enghraifft, os yw darpariaethau'n ymdrin â phethau sy'n digwydd "cyn" diwrnod penodedig ac "ar ôl" yr un diwrnod, byddant yn gadael y diwrnod ei hun heb ei ddisgrifio. Er mwyn osgoi bwlch, fe allai'r darpariaethau gyfeirio yn hytrach at bethau sy'n digwydd "cyn" y diwrnod penodedig ac "ar neu ar ôl" y diwrnod hwnnw.

(5) Pan fo'n bosibl pennu'r union ddyddiadau y bydd un cyfnod yn dod i ben a'r nesaf yn dechrau, mae'n gliriach gwneud hynny fel arfer, er enghraifft drwy gyfeirio at y cyfnodau "yn gorffen ar 31 Mawrth" ac "yn dechrau ar 1 Ebrill".

## 8.7 Cyfnodau hysbysu

(1) Pan gynigir y dylai fod yn ofynnol i un person roi cyfnod penodol o hysbysiad i berson arall cyn arfer pŵer, mae'n bwysig sicrhau cyfarwyddiadau ynghylch a yw'r cyfnod hwnnw yn cynnwys y diwrnod y rhoddir yr hysbysiad a'r diwrnod y caiff y pŵer ei arfer.

(2) Os yw darpariaeth yn gofyn (er enghraifft) am "7 niwrnod o hysbysiad" cyn arfer pŵer, efallai na fydd bob amser yn glir pryd yn union y mae'r cyfnod yn dechrau ac yn dod i ben. Gan ddibynnu ar y canlyniad a fwriedir, un ffordd ddefnyddiol i ymdrin â'r mater hwn yw darparu ar gyfer cyfnod o (dyweder) "7 niwrnod clir o hysbysiad". Mae'r cyfeiriad at "diwrnodau clir" yn dangos bod y diwrnod y rhoddir yr hysbysiad a'r diwrnod yr arferir y pŵer wedi eu hepgor o'r cyfnod o 7 niwrnod. Mae "diwrnodau clir" wedi ei ddiffinio mewn rhai darnau o ddeddfwriaeth (fel rheol 2.8 o Reolau'r Weithdrefn Sifil 1998) ond mae'r ymadrodd yn ddigon clir fel arfer fel nad oes angen diffiniad.

(3) Yn lle gofyn am 7 niwrnod clir o hysbysiad, gellid sicrhau'r un canlyniad drwy ddarparu na chaniateir arfer y pŵer hyd nes diwedd 8 niwrnod yn dechrau ar y diwrnod y rhoddir hysbysiad, ond mae'n bosibl na fydd hynny bob amser yn ffordd naturiol i ddisgrifio'r cyfnod hysbysu.

(4) Dylai darpariaeth sy'n pennu isafswm cyfnod hysbysu hefyd gynnwys geiriad i egluro mai isafswm yw'r cyfnod, megis "o leiaf". Gan hynny, gallai cyfnod gofynnol o ddiwrnodau clir gael ei fynegi fel (er enghraifft) "o leiaf 7 niwrnod clir".

## 8.8 "Y cyfnod o"

Mae deddfwriaeth yn aml yn cyfeirio at gyfnod fel (er enghraifft) "y cyfnod o 7 niwrnod". Ond ystyriwch a allai'r geiriau "y cyfnod o" gael eu hepgor. Mewn llawr o achosion nid ydynt yn ychwanegu dim, ac fe allech gyfeirio'n syml at "7 niwrnod". Os oes angen cyfeirio'n ôl, mae'n bosibl y bydd modd dweud "y 7 niwrnod hynny" yn lle "y cyfnod hwnnw".

## 8.9 Unedau amser

(1) Mae'n gyffredin mynegi cyfnodau o amser mewn diwrnodau, wythnosau, misoedd neu flynyddoedd. Bydd pa uned o amser a ddefnyddir yn dibynnu ar ystyriaethau polisi ac ystyriaethau drafftio.

(2) Mae cyfnodau o fisoedd yn broblem arbennig, am fod misoedd yn wahanol o ran eu hyd, ac am ei bod yn bosibl na fydd darllenwyr deddfwriaeth yn ymwybodol o'r rheolau a gymhwysir wrth gyfrifo cyfnodau a fynegir mewn misoedd (gweler isod).

(3) Os yw'n bwysig o ran polisi fod cyfnod yn para yr un mor hir ym mhob achos, ni ddylai'r cyfnod gael ei fynegi mewn misoedd. Hyd yn oed pe na bai hynny'n peri pryder, ystyriwch a fyddai'n well mynegi cyfnodau mewn wythnosau neu ddiwrnodau yn hytrach na misoedd, o leiaf yn achos cyfnodau o hyd at 3 neu 4 mis.

(4) O ran cyfnodau hirach, efallai y byddai'n llai defnyddiol i'r darllenwyr os defnyddiwch unedau byr o amser. Er enghraifft, er y bydd darllenwyr yn gyffredinol yn gwybod bod mis yn para oddeutu 30 niwrnod, efallai y bydd cyfnod a fynegir fel 150 o ddiwrnodau'n anos ei ddeall.

(5) Gall fod yn briodol mynegi cyfnod byr mewn oriau yn hytrach na diwrnodau, er enghraifft pan fo'r cyfnod yn llai na diwrnod, neu os oes bwriad iddo redeg o'r union ennyd y bydd digwyddiad yn digwydd yn hytrach nag o ddechrau'r diwrnod.

## 8.10 Cyfnodau a fynegir mewn misoedd

(1) Pan fo cyfnod a fynegir mewn misoedd yn dechrau ar adeg heblaw dechrau mis, pryd mae'n dod i ben? Mae Atodlen 1 i Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 yn diffinio mis fel mis calendr, ond nid yw hynny'n rhoi ateb cyflawn i'r cwestiwn.

(2) Cyfrifir cyfnod o fis y mynegir ei fod yn dechrau "ar ôl" diwrnod neu ddigwyddiad penodol drwy ddefnyddio "rheol y dyddiad cyfatebol" yn Dodds v Walker [1981] 1 WLR 1027. Yn yr achos hwnnw, pan oedd rhaid i gais gael ei wneud "*not more than 4 months after*" rhoi hysbysiad ar 30 Medi 1978, y dyddiad olaf ar gyfer gwneud y cais oedd 30 Ionawr 1979. Daeth y cyfnod i ben ar ddiwedd y dydd ym mis Ionawr 1979 a oedd yn cyfateb i'r diwrnod ym mis Medi 1978 pan ddechreuodd y cyfnod.

(3) Bydd cyfnod a fynegir fel nifer o fisoedd "gan ddechrau â" dyddiad penodol yn dod i ben ar ddiwedd y diwrnod cyn y dyddiad cyfatebol yn y mis perthnasol. Felly, pe bai'r cyfnod yn *Dodds v Walker* wedi ei fynegi fel "4 mis gan ddechrau gyda" rhoi'r hysbysiad ar 30 Medi 1978, wedyn 29 Ionawr fuasai'r dyddiad olaf ar gyfer gwneud y cais.

(4) Am fod rhai misoedd calendr yn fyrrach na'i gilydd, ni fydd yna "ddyddiad cyfatebol" bob amser os yw cyfnod yn rhedeg o ddiwrnod ar ddiwedd mis. Rhaid i'r rheolau gael eu haddasu yn yr achosion hyn, fel bod y cyfnod yn dod i ben gyda diwrnod olaf y mis olaf. Er enghraifft, pan fo cyfnod o un mis yn dechrau ar ddiwedd 30 Ionawr, fe ddaw i ben ar ddiwedd 28 Chwefror (neu 29 Chwefror mewn blwyddyn naid).

(5) Effaith y rheolau hyn yw bod hyd cyfnod a fynegir mewn misoedd yn amrywio yn ôl pa bryd yn y flwyddyn y mae'r cyfnod yn dechrau. Mae cyfnod o un mis sy'n dechrau ar 5 Ebrill yn fyrrach na chyfnod o un mis sy'n dechrau ar 5 Mai, am fod Ebrill yn fyrrach na Mai.

## 8.11 Diwrnodau gwaith a diwrnodau heblaw diwrnodau gwaith

(1) Pan fo Deddf yn ei gwneud yn ofynnol i berson wneud rhywbeth o fewn cyfnod sy'n dod i ben ar benwythnos neu ŵyl banc, at ei gilydd nid yw hynny'n rhoi hawl i'r person wneud y peth ar y diwrnod gwaith nesaf[37]. Os oes polisi y dylid trin diwrnodau heblaw diwrnodau gwaith yn wahanol i ddiwrnodau eraill, bydd angen ichi wneud darpariaeth benodol i'r perwyl hwnnw.

37 Ond os na all cam gael i gymryd oni baid bod swyddfa llys yn agored, ac y byddai'r cyfnod ar gyfer cymryd y cam yn dod i ben ar ddiwrnod y byddai swyddfa'r llys wedi cau ar ei hyd, trinnir y cyfnod yn gyffredinol fel pe bai'n dod i ben ar y diwrnod nesaf y byd dy swyddfa'n agored. Gweler er enghraifft Pritam Kaur v S Russell & Sons [1973] QB 336; Mucelli v Government of Albania [2009] 1 WLR 276; Yadly Marketing Co Ltd v Secretary of State for the Home Department [2017] 1 WLR 1041.

(2) Gall y cwestiwn a yw penwythnosau neu wyliau banc wedi eu cynnwys mewn cyfnod wneud gwahaniaeth mawr, yn enwedig os yw'r cyfnod yn fyr. Gallai'r polisi olygu cyfrif diwrnodau gwaith yn unig fel rhan o'r cyfnod, neu ymestyn y cyfnod i gynnwys y diwrnod gwaith nesaf os byddai'n dod i ben fel arall ar benwythnos neu ŵyl banc.

(3) Os yw unrhyw ddiwrnodau heblaw diwrnod gwaith i gael eu hepgor o gyfnod, bydd angen ystyried pa ddiwrnodau yn union y dylai'r rhain fod. Mae Atodlen 1 i Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 yn cynnwys y diffiniad safonol a ganlyn o "diwrnod gwaith" a fydd yn gymwys oni bai ei fod yn cael ei hepgor gan y cyd-destun neu gan ddarpariaeth bendant[38]:

> ystyr "diwrnod gwaith" yw unrhyw ddiwrnod nad yw'n ddydd Sadwrn, dydd Sul, Dydd Nadolig, Dydd Gwener y Groglith nac yn ddiwrnod sy'n ŵyl banc yng Nghymru a Lloegr o dan Ddeddf Bancio a Thrafodion Ariannol 1971 (p. 80)

(4) Sylwch nad yw dydd Nadolig a dydd Gwener y Groglith yn wyliau banc yn dechnegol. Mae Atodlen 1 i Ddeddf Bancio a Thrafodion Ariannol 1971 yn rhestru rhai gwyliau banc, ond fe all eraill gael eu creu drwy ddatganiad brenhinol o dan adran 1(3). Yng Nghymru a Lloegr, mae gŵyl banc dechrau mis Mai a gŵyl banc Dydd Calan wedi eu creu fel hyn.

## 8.12 Blynyddoedd ariannol

(1) Mae Atodlen 1 i Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 yn diffinio "blwyddyn ariannol" fel blwyddyn sy'n dod i ben ar 31 Mawrth. Bydd y diffiniad hwn yn gymwys i unrhyw gyfeiriad at "blwyddyn ariannol" oni bai ei fod yn cael ei hepgor gan y cyd-destun neu gan ddarpariaeth bendant. (Ar y llaw arall, mae'r diffiniad yn Atodlen 1 i Ddeddf Dehongli 1978 yn gymwys mewn cyd-destunau penodol yn unig, a'r rheiny'n ymwneud â threthiant a'r llywodraeth ganolog.)

(2) Mewn deddfwriaeth sy'n sefydlu corff cyhoeddus newydd, efallai y bydd angen gwneud darpariaeth ynghylch blwyddyn ariannol gyntaf y corff os caiff ei sefydlu ar ddyddiad heblaw 1 Ebrill.

38 Nid yw Deddf Dehongli 1978 yn cynnwys diffiniad cyffredinol o "working day", felly fe all fod angen cynnwys diffiniad wrth fewnosod cyfeiriad at "ddiwrnod gwaith" mewn deddfwriaeth y mae'r Ddeddf honno yn gymwys iddi.

# Pennod 9: Pwerau i Wneud is-Ddeddfwriaeth ac i Roi Cyfarwyddydau

## Rhagymadrodd

### 9.1 Trosolwg o'r Bennod

(1) Mae'r Bennod hon yn rhoi canllawiau ar ddrafftio darpariaethau yn Neddfau'r Cynulliad sy'n caniatáu ymdrin â materion mewn is-ddeddfwriaeth yn hytrach na chael eu nodi yn y Ddeddf ei hun.

(2) Mae'r Bennod yn cynnwys canllawiau ar eiriau i'w defnyddio:

- i roi pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth;
- i sicrhau y gall is-ddeddfwriaeth wneud mathau penodol o ddarpariaeth (megis darpariaethau canlyniadol a diwygiadau i ddeddfwriaeth sylfaenol);
- i'w gwneud yn ofynnol bod is-ddeddfwriaeth yn cael ei gwneud drwy offeryn statudol ac i gymhwyso'r weithdrefn gadarnhaol neu'r weithdrefn negyddol yn y Cynulliad.

(3) Mae'r Bennod hefyd yn cynnwys canllawiau ar faterion penodol a allai godi wrth ddrafftio darpariaethau mewn deddfwriaeth sylfaenol neu is-ddeddfwriaeth ynghylch rhoi cyfarwyddydau.

(4) Mae canllawiau ar benderfynu a ddylid ymdrin â mater mewn deddfwriaeth sylfaenol ynteu is-ddeddfwriaeth, ac ar benderfynu pa weithdrefn Cynulliad a ddylai fod yn gymwys i offeryn statudol, wedi eu nodi ym Mhennod 10 o'r Llawlyfr Deddfwriaeth ar Filiau'r Cynulliad.

## Ffurf pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth

### 9.2 Rheoliadau nid gorchmynion

(1) At ei gilydd dylai pwerau i'r Gweinidogion wneud is-ddeddfwriaeth drwy offeryn statudol fod ar ffurf pwerau i wneud "rheoliadau" yn hytrach na "gorchymyn". Dyma'r dull sydd wedi ei ddilyn mewn Biliau a gyflwynwyd yn y Cynulliad ac yn Senedd y Deyrnas Unedig ers 2014.

(2) Nid yw'r dull hwn yn gymwys i bwerau i ddod â darpariaethau mewn Deddf gan y Cynulliad i rym, a ddylai barhau i fod ar ffurf pwerau i wneud gorchmynion. Yn hyn o beth, mae'r arfer ynglŷn â Biliau'r Cynulliad yn wahanol i'r arfer ynglŷn â Biliau Senedd y Deyrnas Unedig (sy'n rhoi pwerau i wneud "rheoliadau cychwyn" ers 2014).

(3) Fe allai fod yn briodol hefyd rhoi pŵer newydd i Weinidogion Cymru i wneud is-ddeddfwriaeth ar ffurf gorchymyn wrth ddiwygio Deddf sydd eisoes yn cynnwys pwerau i wneud gorchmynion, os dyna'r dull drafftio mwyaf cyfleus.

(4) Nid yw'r dull cyffredinol o roi pŵer i'r Gweinidogion i wneud rheoliadau yn golygu na chaniateir defnyddio mathau eraill o is-ddeddfwriaeth pan fo'n briodol. Er enghraifft, mae gweithdrefnau cyrff cyhoeddus a thribiwnlysoedd fel arfer yn cael eu nodi mewn "rheolau"; ac mae'n gyffredin defnyddio "cynllun" i drosglwyddo hawliau a rhwymedigaethau rhwng cyrff neu i bennu ffioedd a thaliadau.

(5) Bwriad y dull cyffredinol yw gwella cysondeb, ond ni fydd y cwestiwn a yw pŵer i Weinidogion Cymru i wneud is-ddeddfwriaeth yn cael ei ddisgrifio fel pŵer i wneud rheoliadau, rheolau neu orchmynion o reidrwydd yn dwyn unrhyw arwyddocâd ymarferol. Pan fo gan Weinidogion Cymru bŵer i wneud un o'r mathau hyn o is-ddeddfwriaeth drwy offeryn statudol, mae adran 39 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 yn eu galluogi i wneud yr is-ddeddfwriaeth mewn unrhyw un arall o'r ffurfiau hyn. Er enghraifft, gellir defnyddio pŵer i wneud gorchymyn hefyd i wneud set o reoliadau. Mae adran 39 yn gymwys ni waeth sut y rhoddwyd y pŵer na pha bryd.

(6) Mae'r dull cyffredinol o roi pwerau i'r Gweinidogion i wneud rheoliadau yn hytrach na gorchmynion yn gymwys i is-ddeddfwriaeth a wneir drwy offeryn statudol. Nid yw'n golygu na ddylai Deddfau greu pwerau i wneud mathau eraill o orchymyn, megis gorchmynion prynu gorfodol neu orchmynion a wneir gan y llysoedd neu'r awdurdodau lleol.

## 9.3 Dulliau rhoi pwerau

(1) Y ffurf fwyaf cyffredin i roi pŵer i wneud rheoliadau yw "Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau…". Mae hyn yn uniongyrchol a diamwys, er nad yw'n dilyn cystrawen brawddeg arferol mewn Cymraeg na Saesneg. Fe allech ystyried defnyddio iaith ychydig yn fwy naturiol i sicrhau'r un effaith drwy ddweud "Caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau sydd…".

(2) Ffurf fyrrach sydd yr un mor dderbyniol, ac sydd wedi ei defnyddio'n fwyfwy mewn Deddfau diweddar yw "Caiff rheoliadau". Mae hyn yn osgoi ailadrodd cyfeiriadau at Weinidogion Cymru ac felly fe allai helpu i symleiddio Bil sy'n cynnwys nifer o bwerau i wneud rheoliadau.

(3) Pan ddefnyddir y ffurf hon, mae angen i'r Ddeddf egluro pwy sydd â'r pŵer i wneud y rheoliadau. Gall wneud hyn drwy wneud darpariaeth gyffredinol "Mae rheoliadau o dan y Ddeddf hon i'w gwneud gan Weinidogion Cymru". Neu gall gynnwys diffiniad cyffredinol o "rheoliadau" fel "rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru".

(4) Weithiau mae'n gyfleus defnyddio geiriad goddefol i roi pŵer i wneud rheoliadau, er enghraifft drwy ei gwneud yn ofynnol i berson wneud cais ar ffurf "a bennir mewn rheoliadau". Ond cymerwch ofal ynglŷn â'r dull hwn. Fe all roi'r argraff bod rhaid i reoliadau gael eu gwneud, a fydd yn ddi-fudd os nad dyna'r bwriad. Ac weithiau mae'n gallu creu amheuaeth a yw'r darpariaeth yn rhoi pŵer newydd i wneud rheoliadau ynteu yn cyfeirio yn hytrach at reoliadau a wnaed o dan bŵer arall.

(5) I osgoi ailadrodd cyfeiriadau at reoliadau, mae hefyd yn bosibl cyfeirio at bethau "rhagnodedig", "a ragnodir" etc. gan ddiffinio hyn wedyn mewn darpariaeth ddehongli fel "wedi ei ragnodi mewn rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru". Ond at ei gilydd mae'n well osgoi'r dull hwn, gan fod termau fel "ffurf ragnodedig" yn artiffisial ac yn tueddu i ddrysu darllenwyr.

## 9.4 Disgrifio'r hyn y bydd rheoliadau yn ei wneud: "rhagnodi", "darparu" etc.

(1) Wrth ddisgrifio'r hyn y bydd rheoliadau yn ei wneud, mae'n gyffredin i Ddeddfau roi pwerau i "rhagnodi" rhywbeth neu "gwneud darpariaeth" ar gyfer rhywbeth neu ynghylch rhywbeth. Prif fantais yr ymadroddion generig hyn yw eu bod yn caniatáu rhywfaint o hyblygrwydd ynghylch sut y bydd y rheoliadau'n ymdrin â mater. Er hynny, gallant ymddangos yn gyfreithlyd, ac arwain at ohirio ystyried pa fath o ddarpariaeth y bydd y rheoliadau yn ei wneud mewn gwirionedd.

(2) Yn aml mae'n bosibl defnyddio iaith fanylach sy'n cyfleu'r bwriad yn fwy uniongyrchol, ac os oes modd dod o hyd i ffurf fanylach fe ddylai gael ei defnyddio fel arfer. Er enghraifft, gallai Deddf ddweud y gall rheoliadau "galluogi" pethau i gael eu gwneud neu "ei gwneud yn ofynnol" i bethau gael eu gwneud, gallai "gosod" ffioedd neu "pennu" amodau, gallai "creu" eithriadau, ac yn y blaen. Ar y cyfan, bydd pwerau a fynegir fel hyn yn gliriach ac yn creu effaith fwy uniongyrchol na phwerau i "rhagnodi" neu "gwneud darpariaeth".

(3) Ystyriwch bob amser a oes modd hepgor y geiriau "gwneud darpariaeth". Er enghraifft, gallai pŵer i reoliadau "wneud darpariaeth sy'n gwneud adroddiadau yn ofynnol" fynd yn bŵer i "wneud adroddiadau yn ofynnol" heb golli dim byd. Os nad oes modd hepgor y cyfeiriad at wneud darpariaeth yn llwyr, ystyriwch a allai gael ei ddisodli gan y ffurf fyrrach "darparu".

## Pwerau i wneud mathau penodol o ddarpariaeth

### 9.5 Pwerau i wneud darpariaeth wahanol at ddibenion ac achosion gwahanol

(1) Mae'n gyffredin iawn i Ddeddfau'r Cynulliad egluro y gall pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth gael eu harfer i wneud darpariaeth wahanol "at ddibenion gwahanol", neu weithiau "at ddibenion gwahanol ac ar gyfer achosion gwahanol".

(2) Ystyriwch a oes angen pŵer pendant i wneud darpariaeth wahanol ar gyfer achosion gwahanol mewn gwirionedd. Os gall y rheoliadau fod yn gymwys i amrywiaeth o achosion sy'n sylweddol wahanol i'w gilydd, mae'n ddigon posibl y bydd angen trin yr achosion hynny mewn ffyrdd gwahanol er mwyn cyflawni eu diben. Gan hynny, efallai y byddai'n hawdd casglu mai pŵer i wneud darpariaeth wahanol yw'r bwriad heb ddarpariaeth bendant. Ystyriwch a oes unrhyw beth yn y cyd-destun a fyddai'n golygu bod y casgliad hwnnw'n peri syndod.

(3) Os oes angen pŵer pendant i wneud darpariaeth wahaniaethol, mae pŵer i wneud darpariaeth wahanol "at ddibenion gwahanol" yn ymddangos yn ehangach ac yn fwy hyblyg na phŵer i wneud darpariaeth wahanol "ar gyfer achosion gwahanol". Byddai cyfeirio at "ddibenion gwahanol" yn ymddangos fel pe bai'n caniatáu i reoliadau gynnwys nid yn unig ddarpariaethau y bwriedir iddynt gyflawni'r un amcan polisi mewn sefyllfaoedd gwahanol, ond hefyd ddarpariaethau sydd â nifer o amcanion gwahanol.

(4) Os yw'r sefyllfaoedd lle y gallai pŵer gael ei arfer mewn ffordd wahanol yn hysbys, ystyriwch fod yn fwy penodol yn eu cylch. Efallai y byddai'n fwy defnyddiol dweud y gallai pŵer i wneud rheoliadau ynghylch ysgolion gael eu harfer yn wahanol mewn perthynas â gwahanol fathau o ysgolion na dibynnu ar gyfeiriad cyffredinol at achosion neu ddibenion gwahanol.

(5) Os oes pŵer i wneud darpariaeth wahanol at ddibenion gwahanol neu ar gyfer achosion gwahanol, mae'n annhebygol y bydd unrhyw beth yn cael ei ennill drwy gyfeirio hefyd at wahanol "amgylchiadau" neu "disgrifiadau o achos" . Os gall fod angen i'r rheoliadau ymdrin ag achos unigol yn ogystal â gallu gwneud darpariaeth fwy cyffredinol ynghylch categorïau o achos, eglurwch hynny mor glir â phosibl.

### 9.6 Pwerau i wneud darpariaeth wahanol ar gyfer ardaloedd daearyddol gwahanol

(1) Fel arfer, byddai pobl yn disgwyl i'r gyfraith fod yr un fath ledled Cymru. Os oes yna bolisi y dylai rheoliadau allu gwneud darpariaeth wahanol ar gyfer rhannau gwahanol o Gymru (megis ardaloedd awdurdod lleol gwahanol), cynhwyswch bŵer pendant i wneud darpariaeth wahanol "ar gyfer ardaloedd gwahanol".

(2) Osgowch ffurfiau sy'n awgrymu mai dim ond agwedd ar wneud darpariaeth wahanol at ddibenion gwahanol yw gwneud darpariaeth wahanol ar gyfer ardaloedd gwahanol. Yn benodol, **peidiwch** â dweud "at ddibenion gwahanol (gan gynnwys ardaloedd gwahanol)".

### 9.7 Peidio ag arfer pwerau

(1) At ei gilydd, does dim angen egluro nad oes rhaid i bwerau i wneud is-ddeddfwriaeth gael eu harfer i'r eithaf. Os oes pŵer, yn hytrach na dyletswydd, i wneud rheoliadau, gallai'r Gweinidogion ddewis peidio ag arfer y pŵer o gwbl. Gan hynny, ni ddylid disgwyl fel arfer y bydd pŵer yn cael ei arfer o ran yr holl achosion sydd o fewn ei rychwant.

(2) Os oes angen rhywbeth, gall pŵer i wneud darpariaeth wahanol at ddibenion gwahanol fod yn ddigon i ddangos ei bod yn bosibl na chaiff unrhyw ddarpariaeth ei gwneud ar gyfer rhai achosion.

## 9.8 Pwerau i wneud darpariaeth ganlyniadol a throsiannol etc.

(1) Dylai pwerau i is-ddeddfwriaeth gynnwys unrhyw un neu ragor o'r mathau a ganlyn o ddarpariaeth atodol gael eu rhoi mewn modd pendant. Gellir gwneud hyn unwaith mewn darpariaeth gyffredinol o'r Ddeddf, neu ar wahân mewn perthynas â phob pŵer.

**"Darpariaeth ganlyniadol"**

(2) Dyma ddarpariaeth sy'n dilyn o ganlyniad i brif ddarpariaethau Deddf neu set o reoliadau, megis diwygiad canlyniadol i ddeddfiad arall i sicrhau ei fod yn dal i weithio'n gywir yn sgil newidiadau gan y Ddeddf neu'r rheoliadau.

**Darpariaeth "gysylltiedig" neu "atodol"**

(3) Mae'n gyffredin rhoi pwerau i wneud darpariaeth gysylltiedig ac atodol, er bod y ddau fath o ddarpariaeth yn debyg. Bydd y rhain yn ddarpariaethau sy'n ymdrin â digwyddiad sy'n gysylltiedig â'r prif ddarpariaethau, neu'n ychwanegu rhywbeth at y prif ddarpariaethau, er mwyn llenwi'r manylion a gwneud i'r prif ddarpariaethau weithio.

(4) Does dim gwahaniaeth ystyr amlwg rhwng "*supplementary*" a "*supplemental*" yn Saesneg, a mynegir y ddau fel "atodol" yn Gymraeg. Dylech ffafrio "supplementary", gan mai dyna'r ffurf fwyaf arferol.

**"Darpariaeth drosiannol"**

(5) Dyma ddarpariaeth i sicrhau bod y naill gyfundrefn gyfreithiol yn pontio'n drefnus i'r llall, megis darpariaeth sy'n egluro sut mae deddfwriaeth yn gymwys mewn perthynas â cheisiadau neu achosion sydd wedi dechrau o dan drefn flaenorol ond sydd heb eu cwblhau pan ddaw'r ddeddfwriaeth newydd i rym.

**"Darpariaeth ddarfodol"**

(6) Dyma ddarpariaeth dros dro a fydd yn dod i ben ar ddiwrnod penodol neu pan geir digwyddiad penodol. Er enghraifft, gwnaeth Deddf Llywodraeth Cymru 2006 ddarpariaeth ddarfodol bod cyfeiriadau at y Goruchaf Lys yn y Ddeddf honno'n cael effaith fel cyfeiriadau at Bwyllgor Barnwrol y Cyfrin Gyngor hyd nes i'r ddeddfwriaeth a fyddai'n sefydlu'r Goruchaf Lys ddod i rym. Gall darpariaeth ddarfodol fod yn ddarpariaeth drosiannol ond does dim angen iddi fod felly.

**"Darpariaeth arbed"**

(7) Dyma ddarpariaeth sy'n cadw gweithrediad darn presennol o ddeddfwriaeth neu reol gyfreithiol bresennol, at ddibenion cyfyngedig, er eu bod yn cael eu diwygio neu eu diddymu. Gall y ddarpariaeth wneud hyn dros dro neu'n barhaol, ac at ddibenion trosiannol neu ddibenion eraill. Gan hynny, gallai arbediad fod yn ddarpariaeth drosiannol neu ddarfodol ond does dim angen iddi fod felly.

(8) Sylwch fod adran 34 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 yn darparu rhai arbedion cyffredinol yn achos pethau sy'n cael eu gwneud cyn i ddiddymiad deddfiad ddod i rym, sef arbedion a fydd yn cael effaith oni bai bod darpariaeth bendant i'r gwrthwyneb yn cael ei gwneud neu fod y cyd-destun yn mynnu fel arall.

## 9.9 Pwerau i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol

(1) Os bwriedir i is-ddeddfwriaeth a wneir o dan Ddeddf allu diwygio deddfwriaeth sylfaenol, rhaid i'r Ddeddf gynnwys darpariaeth glir i'r perwyl hwnnw.

(2) Un dechneg yw darparu bod rheoliadau o dan y Ddeddf yn cael "diwygio, diddymu neu ddirymu deddfiad". Mae Atodlen 1 i Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 yn cynnwys diffiniad cyffredinol o "deddfiad" sy'n cynnwys Deddfau a Mesurau'r Cynulliad a Deddfau Senedd y Deyrnas Unedig[39]. Gan hynny, bydd pŵer i ddiwygio deddfiadau yn caniatáu diwygiadau

39 Nid yw Atodlen 1 i Ddeddf Dehongli 1978 yn diffinio "enactment" yn gynhwysfawr, ond mae'n darparu bod mathau penodol o ddeddfwriaeth wedi eu cynnwys neu wedi eu hepgor. Mae deddfwriaeth y mae Deddf 1978 yn gymwys iddi yn aml yn diffinio "enactment" at ddibenion cyfeiriadau yn y ddeddfwriaeth honno.

i unrhyw ddeddfwriaeth sylfaenol sy’n ffurfio rhan o gyfraith Cymru a Lloegr, yn ddarostyngedig i’r cyfyngiadau ar addasu Deddfau penodol a osodir gan Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

(3) Os oes polisi y dylai rheoliadau allu diwygio’r Ddeddf y cânt eu gwneud odani, dylid datgan hynny’n glir yn y Ddeddf, er enghraifft drwy ddarparu y caiff y rheoliadau ddiwygio “unrhyw ddeddfiad (gan gynnwys y Ddeddf hon)” neu “y Ddeddf hon neu unrhyw ddeddfiad arall”.

(4) Gall fod yn briodol rhoi pŵer i ddiwygio deddfiadau sy’n dod yn gyfraith ar ôl i’r Ddeddf sy’n rhoi’r pŵer ddod i rym. Gall hyn fod yn ddefnyddiol os yw’n debygol y ceir cyfnod amser hir cyn i’r Ddeddf ddod i rym, neu os disgwylir y bydd deddfwriaeth arall ar bwnc cysylltiedig yn cael ei deddfu ar ôl i’r Ddeddf gael ei phasio, ond cyn i’r rheoliadau gael eu gwneud.

(5) Dylai pŵer i ddiwygio deddfwriaeth yn y dyfodol gael ei roi drwy ddarpariaeth bendant oni bai bod y cyd-destun yn ei gwneud yn glir bod deddfiadau yn y dyfodol wedi eu cynnwys. Y ffurf arferol yw cyfeirio at ddeddfiad “(pa bryd bynnag y’i deddfir neu y’i gwneir)”.

## 9.10 Pwerau i ddiwygio deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir

(1) Mae’r diffiniad o “deddfiad” yn Atodlen 1 i Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 yn cynnwys deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir. Pan fo Bil Cynulliad yn cynnwys pŵer i ddiwygio deddfiadau, bydd y pŵer felly yn cynnwys diwygio deddfwriaeth yr UE sy’n cael ei dargadw yn y gyfraith ddomestig ar ac ar ôl y diwrnod ymadael ac ni fydd angen pŵer ar wahân i ddiwygio deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir.

(2) Er hynny, ni all Deddf gan y Cynulliad roi pwerau i wneud addasiadau i gyfraith yr UE a ddargedwir ac sy’n torri’r cyfyngiad yn adran 109A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, ac mae adran 80(8) o Ddeddf 2006 yn rhoi cyfyngiad tebyg ar unrhyw bwerau sydd gan Weinidogion Cymru i wneud is-ddeddfwriaeth sy’n addasu cyfraith yr UE a ddargedwir.[40]

(3) Os oes polisi y dylai is-ddeddfwriaeth a wneir o dan Ddeddf gan y Cynulliad allu addasu deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir, bydd angen ystyried hefyd y pwerau a roddir gan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 wrth benderfynu pa ddarpariaeth a ddylai gael ei gwneud (os dylid gwneud unrhyw ddarpariaeth o gwbl).

(4) Hyd yn oed os nad yw Deddf yn darparu’n bendant fod is-ddeddfwriaeth a wneir odani’n gallu addasu deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir, mae paragraffau 10 ac 11 o Atodlen 8 i Ddeddf 2018 yn rhoi rhai pwerau cyfyngedig iawn i wneud hynny. Maent yn darparu bod pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth a roddir ar neu ar ôl 26 Mehefin 2018 (y diwrnod y pasiwyd Deddf 2018) mewn rhai amgylchiadau yn gallu cael eu harfer i addasu deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir “*so far as applicable and unless the contrary intention appears*”.

(5) Mae paragraff 12 o Atodlen 8 i Ddeddf 2018 yn darparu nad yw’r pwerau hyn yn gymwys i’r graddau y mae adran 80(8) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn gymwys. Gan hynny, bydd yn dal yn angenrheidiol ystyried y cyfyngiadau yn Neddf 2006. Mae paragraff 12 hefyd yn darparu nad yw’r pwerau hyn yn atal pwerau ehangach rhag cael eu rhoi.

40 Mae adrannau 109A(1) ac 80(8) yn atal addasiadau “of a description specified in regulations made by a Minister of the Crown”. Mae adrannau 109A ac 80 yn nodi’r weithdrefn ar gyfer gwneud y rheoliadau hyn, yn ogystal â gosod cyfyngiadau ar y cyfnodau pryd y caniateir i’r rheoliadau gael eu gwneud a pharhau mewn grym. Adeg ysgrifennu hyn, does dim rheoliadau wedi eu gwneud o dan y naill adran na’r llall.

## 9.11 Pwerau eraill a ddylai cael eu rhoi mewn modd pendant

(1) Pan fwriedir i is-ddeddfwriaeth a wneir o dan Ddeddf gan y Cynulliad allu cynnwys unrhyw un neu ragor o'r mathau a ganlyn o ddarpariaeth, dylai'r Ddeddf gynnwys geiriad clir i'r perwyl hwnnw.

**Pŵer i is-ddirprwyo**

(2) Os yw Deddf yn darparu bod mater i'w bennu mewn rheoliadau, fe dybir yn gyffredinol fod rhaid i'r rheoliadau bennu'r mater eu hunain ac na allant ddarparu i'r mater gael ei bennu mewn modd arall. Os oes bwriad i'r rheoliadau allu dirprwyo'r pŵer i ymdrin â materion yr ymdrinnid â nhw yn y rheoliadau fel arall, dylai'r pŵer ddirprwyo gael ei roi mewn modd pendant.

**Pŵer i ddeddfu'n ôl-sylloly**

(3) Ni fydd pŵer i wneud rheoliadau yn cael ei ddehongli fel pe bai'n cynnwys pŵer i ddeddfu gydag effaith ôl-syllol oni bai mai dyna'r bwriad amlwg, ac felly dylai darpariaeth bendant gael ei chynnwys fel arferd.

**Pŵer i greu troseddau a chosbau**

(4) Dylai darpariaeth bendant gael ei chynnwys os bwriedir i bŵer i wneud rheoliadau gynnwys pŵer i greu troseddau (gan gynnwys cosbau penodedig a sancsiynau sifil eraill o ran troseddau) neu gosbau tebyg.

# Gweithdrefn offerynnau statudol

## 9.12 Atynnu adran 1 o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946

(1) Pan fo Deddf yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau neu i ddod â darpariaethau'r Ddeddf i rym drwy orchymyn, dylai wneud darpariaeth hefyd i atynnu'r rheolau ynghylch cyhoeddi a'r weithdrefn a geir yn Neddf Offerynnau Statudol 1946[41].

(2) Mae adran 1(1A) o Ddeddf 1946 yn darparu bod y rheolau hyn yn gymwys:

- pan fo Deddf yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru (sy'n cynnwys Prif Weinidog Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol yn rhinwedd adran 11A(8) o Ddeddf 1946) i wneud, cadarnhau neu gymeradwyo is-ddeddfwriaeth, a
- bod y pŵer wedi ei fynegi fel pŵer sydd i'w arfer drwy offeryn statudol.

(3) Er mwyn atynnu adran 1 o Ddeddf 1946, mae angen darparu i'r is-ddeddfwriaeth o dan sylw gael ei gwneud drwy offeryn statudol. O ran rheoliadau, mae'n ddigon dweud:

> Mae pŵer [gan Weinidogion Cymru] i wneud rheoliadau o dan y Ddeddf hon yn arferadwy drwy offeryn statudol.

(4) Weithiau mae'n fwy cymen cyfuno geiriad sy'n atynnu adran 1 â'r pŵer ei hun, er enghraifft pan geir pŵer syml a bod modd ymdrin â phopeth mewn un is-adran. Mae'r dechneg hon yn gyffredin yn achos pwerau i ddwyn Deddf i rym (sy'n cyfeirio at ddiwrnod a benodir gan Weinidogion Cymru mewn gorchymyn a wneir drwy offeryn statudol: gweler paragraff 10.8).

(5) Os yw Deddf yn cynnwys nifer o bwerau sydd i'w harfer drwy offeryn statudol, mae'n fwy arferol ymdrin â hyn unwaith ar y diwedd, yn hytrach nag ailadrodd yr un peth mewn gwahanol leoedd.

## 9.13 Gweithdrefn penderfyniad negyddol

(1) I gymhwyso'r weithdrefn negyddol at offeryn, defnyddiwch y geiriad a ganlyn:

> Mae offeryn statudol sy'n cynnwys rheoliadau o dan y Ddeddf hon yn ddarostyngedig i'w ddiddymu yn unol â phenderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

41 Nid yw'r rheolau hyn bob amser yn cael eu cymhwyso at fathau eraill o is-ddeddfwriaeth a wneir gan Weinidogion Cymru. Er enghraifft, nid yn pwerau i wneud cyfarwyddydau, cynlluniau a gorchmynion gweinyddol pur fel arfer yn arferadwy drwy offeryn statudol.

(2) I fod yn gyson ag adran 5 o Ddeddf 1946, dywedir mai'r offeryn statudol sy'n cynnwys y rheoliadau, yn hytrach na'r rheoliadau eu hunain, sy'n agored i gael eu diddymu.

## 9.14 Gweithdrefn penderfyniad cadarnhaol

(1) I gymhwyso'r weithdrefn gadarnhaol at offeryn, defnyddiwch y geiriad a ganlyn:

> Ni chaniateir gwneud offeryn statudol sy'n cynnwys rheoliadau o dan y Ddeddf hon oni bai bod drafft o'r offeryn wedi ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac wedi ei gymeradwyo ganddo drwy benderfyniad.

(2) Fel yn achos offerynnau negyddol, dylai'r gymeradwyaeth angenrheidiol fod yn gysylltiedig â drafft o'r offeryn statudol sy'n cynnwys y rheoliadau, yn hytrach na drafft o'r rheoliadau eu hunain. Mae hyn yn gyson â geiriad adran 6 o Ddeddf 1946.

## 9.15 Lleoli'r ddarpariaeth ynglŷn â'r weithdrefn

(1) Mewn rhai Deddfau nad ydynt yn cynnwys llawer iawn o bwerau i wneud is-ddeddfwriaeth, mae pob darpariaeth sy'n rhoi pŵer yn cymhwyso unrhyw weithdrefn Cynulliad angenrheidiol.

(2) Ond pan fo Deddf yn rhoi nifer fawr o bwerau i wneud is-ddeddfwriaeth, mae'n fwy cyffredin ymdrin â materion ynglŷn â'r weithdrefn mewn darpariaethau cyffredinol yng nghefn y Ddeddf. Mae'n debyg y bydd hyn yn fwy defnyddiol i ddarllenwyr y Ddeddf pan fydd wedi ei phasio, ar y sail nad yw'r darpariaethau hyn sy'n ymdrin â materion technegol yn debygol o fod o ddiddordeb i'r rhan fwyaf o ddarllenwyr.

## 9.16 Dim angen darpariaeth ynghylch offerynnau cyfun

(1) Pan fo offeryn statudol a wneir gan Weinidogion Cymru yn cynnwys darpariaethau a fyddai fel arall yn atynnu gweithdrefnau Cynulliad gwahanol, mae adran 40 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 yn darparu bod yr offeryn yn dod o dan y weithdrefn lymaf. Er enghraifft, os yw offeryn yn cynnwys rhai darpariaethau a fyddai'n atynnu'r weithdrefn gadarnhaol ac eraill a fyddai fel arfer yn atynnu'r weithdrefn negyddol, daw'r offeryn o dan y weithdrefn gadarnhaol yn unig.

(2) Yn y gorffennol, ceisiai darpariaethau ynghylch gweithdrefn y Cynulliad gynnwys yr holl ffyrdd y gallai is-ddeddfwriaeth o dan Ddeddf gael eu cyfuno mewn un offeryn statudol. Er mwyn osgoi unrhyw fylchau, gallai Deddf fod wedi cymhwyso'r weithdrefn gadarnhaol at offeryn yn cynnwys rheoliadau o dan bwerau penodol "(pa un ai ar ei ben ei hun neu gyda darpariaeth arall)" a'r weithdrefn negyddol at unrhyw offeryn arall yn cynnwys rheoliadau o dan y Ddeddf. Neu gallai fod wedi cymhwyso'r weithdrefn negyddol at offeryn statudol yn cynnwys "dim ond" rheoliadau a wneid o dan bwerau penodol, a'r weithdrefn gadarnhaol at unrhyw offeryn statudol arall yn cynnwys rheoliadau o dan y Ddeddf.

(3) Mae adran 40 o Ddeddf 2019 yn dileu'r angen i ddrafftio darpariaethau ynghylch gweithdrefn y Cynulliad ar gyfer offerynnau statudol fel hyn. Y cyfan y mae angen i'r darpariaethau hyn ei wneud yw datgan y gweithdrefnau ar gyfer offerynnau sy'n cynnwys rheoliadau o dan bob pŵer. Er enghraifft:

> ( ) Ni chaniateir gwneud offeryn statudol sy'n cynnwys rheoliadau o dan adran 1, 2 neu 3 oni bai bod drafft o'r offeryn wedi ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac wedi ei gymeradwyo ganddo drwy benderfyniad.
>
> ( ) Mae offeryn statudol sy'n cynnwys rheoliadau o dan adran 4, 5 neu 6 yn ddarostyngedig i'w ddiddymu yn unol â phenderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

## Cyfarwyddydau

### 9.17 Pwerau i roi cyfarwyddydau

(1) Gall deddfwriaeth roi pwerau i Weinidogion Cymru (ac weithiau i awdurdodau cyhoeddus eraill) i roi cyfarwyddydau at amryw o ddibenion, megis i'w gwneud yn ofynnol i berson gymryd neu osgoi camau penodol, neu i roi esemptiad rhag gofyniad statudol. Gall y pŵer gael ei fynegi fel pŵer i "cyfarwyddo" neu "rhoi cyfarwyddyd". Hefyd gall gael ei ymgorffori mewn gofyniad i wneud rhywbeth (megis paratoi cyfrifon) "yn unol â chyfarwyddydau a roddir gan Weinidogion Cymru".

(2) Y bwriad fel arfer yw y bydd pŵer i roi cyfarwyddydau yn cynnwys pwerau i'w hamrywio a'u tynnu'n ôl. Fel rheol does dim angen rhoi'r pwerau hyn yn bendant, am fod adran 20 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 yn darparu pwerau cyffredinol i amrywio cyfarwyddydau a'u tynnu'n ôl[42]. Ond ystyriwch a fyddai cyd-destun eich deddfwriaeth yn gofyn am ddehongliad gwahanol, fel bod angen pwerau pendant. Ac os oes yna fwriad **na** ddylai'r person sy'n rhoi cyfarwyddyd allu ei amrywio neu ei dynnu'n ôl, ystyriwch a oes angen darpariaeth bendant i wneud hynny'n glir.

(3) Gall fod angen darpariaeth bendant i ymdrin â materion eraill ynglŷn â chyfarwyddydau. Er enghraifft, os oes polisi bod rhaid i gyfarwyddyd gael ei roi mewn ysgrifen dylid cael gofyniad pendant i'r perwyl hwnnw.

(4) I gyd-fynd â phŵer i gyfarwyddo bod rhaid i rywbeth gael ei wneud neu beidio â chael ei wneud, dylid cael dyletswydd bendant i gydymffurfio â'r cyfarwyddyd, p'un a yw'r derbynnydd yn awdurdod cyhoeddus neu'n unigolyn neu'n gorff preifat. Gall fod angen darpariaeth bellach ynghylch canlyniadau peidio â chydymffurfio neu ynghylch dulliau gorfodi cyfarwyddydau (er enghraifft drwy orchymyn llys a wneir ar gais awdurdod cyhoeddus penodedig).

42 Does dim darpariaeth gyfatebol yn Neddf Dehongli 1978. Efallai y bydd angen gwneud darpariaeth bendant ynghylch amrywio a thynnu'n ôl wrth fewnosod pŵer i roi cyfarwyddiadau mewn deddfwriaeth y mae'r Ddeddf honno yn gymwys iddi.

# Pennod 10: Darpariaethau Cyffredinol Deddfau'r Cynulliad

## Rhagymadrodd

### 10.1 Trosolwg o'r Bennod

(1) Mae'r Bennod hon yn ymwneud â'r darpariaethau cyffredinol a thechnegol eu natur a welir tua diwedd Deddf.

(2) Mae'r darpariaethau hyn bob amser yn cynnwys darpariaethau ynghylch pryd y daw'r Ddeddf i rym a'i henw byr. Mae'n gyffredin hefyd iddynt gynnwys darpariaethau ynghylch pwerau i wneud rheoliadau (gan gynnwys gweithdrefn y Cynulliad) a dehongli, ac fe allant ymdrin â materion eraill fel dulliau cyflwyno dogfennau a chymhwyso darpariaethau at y Goron.

(3) Mae canllawiau ynghylch rhai materion a gynhwysir yn aml mewn darpariaethau cyffredinol wedi eu nodi mewn Penodau cynharach yn y canllawiau hyn, yn arbennig:

- Pennod 4 (diffinio);
- Pennod 7 (diddymu a diwygio);
- Pennod 9 (pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth ac i roi cyfarwyddydau).

### 10.2 Trefn y darpariaethau cyffredinol

(1) Os yw darpariaethau cyffredinol Deddf wedi eu grwpio mewn un Rhan neu o dan un pennawd italig, dylai'r pennawd ddweud "Cyffredinol" ac nid "Darpariaethau terfynol", "Atodol" nac "Amrywiol".

(2) Dylai'r drefn weithredol a ganlyn gael ei defnyddio yn fan cychwyn ar gyfer y darpariaethau (er y gall fod rheswm da dros wyro oddi wrthi mewn achosion penodol):

Darpariaethau cyffredinol am droseddau (cyrff corfforaethol, cymdeithasau anghorfforedig)

Rheoliadau (gan gynnwys gweithdrefn y Cynulliad)

Cyfarwyddydau

Hysbysiadau/cyflwyno dogfennau

Dehongli

Mynegai o ymadroddion diffiniedig

Diwygio, darpariaethau canlyniadol a throsiannol ac arbedion, diddymu

Cymhwyso at y Goron

Dod i rym

Enw byr

(3) Os oes pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol a throsiannol drwy reoliadau, mae yna ddau ddull cyffredin, ac mae'r ddau yn dderbyniol. Un yw cynnwys y pŵer yn gynharach yn y drefn, yn union o flaen yr adran am reoliadau. Y llall yw ei gynnwys yn nes ymlaen, naill ai yn lle darpariaeth i gyflwyno Atodlen o ddarpariaethau canlyniadol a throsiannol, neu yn union ar ôl yr Atodlen honno.

(4) Mae'r drefn weithredol a argymhellir wedi ei seilio ar y rhagdybiaethau a ganlyn:

(a) y dylai materion o sylwedd (e.e. troseddau), ddod o flaen materion y weithdrefn;

(b) y dylai darpariaethau sy'n ymwneud ag is-ddeddfwriaeth a'r rhai sy'n ymwneud â dogfennau eraill gael eu grwpio gyda'i gilyddr;

(c) y disgwylir y bydd y ddwy adran olaf yn ymdrin â dwyn y Ddeddf i rym ac wedyn yr enw byr.

## Darpariaeth ganlyniadol a throsiannol etc.

### 10.3 Atodlenni o ddarpariaethau canlyniadol etc. a phwerau i wneud ragor o ddarpariaeth

(1) Pan fo Bil yn cynnwys nifer fawr o ddarpariaethau canlyniadol a throsiannol neu ddiwygiadau a diddymiadau, mae'n gyffredin eu nodi mewn Atodlenni. Os bydd un adran yn cyflwyno Atodlenni ar wahân sy'n cynnwys (1) diwygiadau mân a chanlyniadol, (2) darpariaethau trosiannol ac arbedion a (3) diddymiadau, dylai'r adran ymdrin â'r pynciau hynny yn y drefn honno (ond gweler paragraff 7.6(7)).

(2) Dylai'r diwygiadau canlyniadol, y darpariaethau trosiannol a'r diddymiadau y mae eu hangen gael eu cynnwys yn y Bil ei hun lle bynnag y bo modd. Yn eithriadol, yn lle gwneud hyn fe allai Bil roi pwerau annibynnol i Weinidogion Cymru i wneud yr holl ddarpariaethau angenrheidiol mewn rheoliadau. Ac mewn rhai achosion efallai y bydd Bil yn nodi rhai darpariaethau ar ei wyneb, ond hefyd yn rhoi pwerau i wneud rhagor o ddarpariaeth mewn rheoliadau.[43]

(3) Pan gynigir pwerau i wneud unrhyw un neu ragor o'r mathau hyn o ddarpariaeth mewn rheoliadau, mae'n bwysig sicrhau cyfarwyddiadau ynghylch y dibenion y gall fod angen rhagor o ddarpariaeth ar eu cyfer. Os oes polisi y dylai'r rheoliadau allu diwygio neu ddiddymu deddfwriaeth sylfaenol, dylai'r pŵer i wneud hynny gael ei fynegi'n fanwl.

(4) Gweler Pennod 9 i gael canllawiau ar ystyr y pwerau i wneud darpariaeth ganlyniadol, gysylltiedig, atodol, drosiannol, ddarfodol a darpariaeth arbed, ac ynghylch drafftio pwerau i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol.

## Cymhwyso at y Goron

### 10.4 Rhagdybiaeth bod Deddfau'r Cynulliad yn rhwymo'r Goron

(1) Y rheol gyffredinol yn y gyfraith gyffredin yw nad yw statudau'n rhwymo'r Goron oni bai eu bod yn gwneud hynny mewn modd pendant neu drwy ymhlygiad angenrheidiol. Er hynny, mae adran 28(1) o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 yn gwrth-droi'r rhagdybiaeth hon yn achos Deddfau'r Cynulliad sy'n cael y Cydsyniad Brenhinol ar neu ar ôl 1 Ionawr 2020, a hynny drwy ddarparu eu bod yn rhwymo'r Goron oni bai eu bod yn gwneud darpariaeth bendant i'r gwrthwyneb.

(2) Mae adran 28(1) o Ddeddf 2019 yn adlewyrchu polisi cyffredinol y dylai cyfyngiadau a rhwymedigaethau a osodir gan Ddeddfau'r Cynulliad fod yn gymwys i'r Goron yn yr un modd ag y maent yn gymwys i bawb arall, lle bynnag y bo modd. Mae'n golygu nad oes angen i Ddeddfau'r Cynulliad ddarparu eu bod yn rhwymo'r Goron.

(3) Weithiau, gall fod eithriadau i'r rheol gyffredinol y dylai Deddfau rwymo'r Goron. Os yw Deddf yn cynnwys darpariaethau a fyddai fel arall yn effeithio ar y Goron, ond bod yna bolisi na ddylent fod yn gymwys i'r Goron, bydd angen i'r Ddeddf ddarparu'n bendant nad yw'r Goron yn cael ei rhwymo. Mae'r geiriad safonol ar gyfer hyn fel a ganlyn:

> Nid yw'r [Ddeddf][Rhan] hon yn rhwymo'r Goron

(4) Does dim angen i Ddeddf ddarparu nad yw'n rhwymo'r Goron os yw'n amlwg nad yw'n berthnasol i'r Goron, er enghraifft am ei bod yn gymwys i awdurdodau lleol yn unig neu'n gwneud darpariaeth ynghylch pethau na all y Goron eu gwneud.

(5) Mae adran 28(3) o Ddeddf 2019 yn darparu nad yw Deddf gan y Cynulliad yn gwneud y Goron yn atebol yn droseddol, ond mae hefyd yn ei gwneud yn glir nad yw hyn yn atal personau sydd yng ngwasanaeth y Goron rhag bod yn atebol. Fel y rheol gyffredinol yn adran 28(1), mae hyn yn ddarostyngedig i unrhyw ddarpariaeth bendant i'r gwrthwyneb yn y Ddeddf gan y Cynulliad berthnasol.

43 Mae Pennod 7 o'r Llawlyfr Deddfwriaeth ar Filiau'r Cynulliad yn trafod goblygiadau pob un o'r dulliau hyn.

(6) Gall cyd-destun Deddf benodol olygu bod angen rhagor o eithriadau neu addasiadau i'r rheol gyffredinol bod Deddfau'r Cynulliad yn rhwymo'r Goron. Mae'r mathau eraill o ddarpariaeth a allai gael eu cynnwys mewn adran ynghylch cymhwyso at y Goron yn cynnwys:

(a) darpariaeth nad yw'r Ddeddf yn effeithio ar y Frenhines yn ei swyddogaeth breifat neu nad yw'n gymwys i'r Goron mewn rhyw swyddogaeth arall (gweler adran 187A(2) o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 i gael enghraifft);

(b) gofyniad bod rhaid sicrhau cydsyniad "awdurdod priodol" cyn i bŵer i fynd i mewn i dir neu i gaffael tir gael ei ddefnyddio mewn perthynas â thir y Goron (gweler adran 21 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, sy'n defnyddio diffiniadau cyffredin o "tir y Goron" ac "awdurdod priodol";

(c) pŵer i'r Uchel Lys ddatgan bod torri'r Ddeddf gan y Goron yn anghyfreithlon (mae adran 29(2) o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Cymru) 2019 yn cynnwys enghraifft syml; weithiau darperir hefyd fod cais am ddatganiad yn gorfod cael ei wneud gan awdurdod cyhoeddus penodedig).

## Dod i rym

### 10.5 "Dod i rym" nid "cychwyn"

(1) Dylai Deddf gan y Cynulliad gynnwys adran sy'n ymdrin mewn ffordd gynhwysfawr â sut a phryd y bydd ei holl ddarpariaethau yn dod i rym.

(2) Dylai pennawd yr adran ddarllen "Dod i rym" ac **nid** "Cychwyn".

(3) Dylai cyfeiriad at yr amser y bydd darpariaeth yn dechrau cael effaith gyfreithiol fod yn gyfeiriad at yr amser y bydd yn "dod i rym" neu yr amser pan "ddaeth i rym" yn hytrach na chyfeiriad at "cychwyn" y ddarpariaeth.

### 10.6 Darpariaethau yn dod i rym drannoeth y Cydsyniad Brenhinol

(1) Pan fwriedir i ddarpariaethau penodol mewn Deddf ddod i rym cyn gynted â phosibl ar ôl y Cydsyniad Brenhinol, dylai'r darpariaethau hynny ddod i rym fel rheol ar ddechrau'r diwrnod ar ôl y diwrnod y caiff y Ddeddf y Cydsyniad Brenhinol, yn hytrach nag ar ddechrau diwrnod y Cydsyniad Brenhinol (a fyddai'n cynnwys elfen o ôl-syllu).

(2) Mae'r polisi hwn yn cyfateb i'r sefyllfa ddiofyn a fyddai'n gymwys o dan adran 30 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 pe bai Deddf yn methu gwneud darpariaeth ynghylch pryd y deuai darpariaeth i rym. Er hynny, ni ddylid barnu bod adran 30 yn cyfiawnhau distawrwydd ynghylch pa bryd y daw darpariaeth i rym. Dylai'r darpariaethau y bwriedir iddynt ddod i rym drannoeth y Cydsyniad Brenhinol gael eu nodi'n bendant.

(3) Mae'r darpariaethau sy'n dod i rym drannoeth y Cydsyniad Brenhinol bob amser yn cynnwys yr adrannau ynghylch dod â'r Ddeddf i rym a'r enw byr. Yn ychwanegol, maent yn aml yn cynnwys darpariaethau trosolygu, darpariaethau cyffredinol ynghylch rheoliadau a dehongli, a phwerau i wneud diwygiadau canlyniadol.

(4) Dylai'r geiriad a ddefnyddir i ddod â'r darpariaethau i rym dweud eu bod yn dod i rym "ar" y diwrnod o dan sylw, fel eu bod yn dod i rym ar ddechrau'r diwrnod hwnnw yn rhinwedd adran 29 o Ddeddf 2019. (Mae hyn yn eithriad i'r argymhelliad cyffredinol ym Mhennod 8 yn erbyn darparu bod rhywbeth yn dechrau "ar" ddiwrnod.)

(5) Y ffurfeiriad safonol a argymhellir i ddod â darpariaethau i rym ar ddechrau'r diwrnod ar ôl y Cydsyniad Brenhinol yw:

> Daw adrannau X ac Y i rym drannoeth y diwrnod y caiff y Ddeddf hon y Cydsyniad Brenhinol.

## 10.7 Darpariaethau yn dod i rym ar ddiwedd cyfnod penodedig

(1) Y ffurfeiriad safonol a argymhellir i ddod â darpariaethau i rym ar ddiwedd cyfnod penodedig (megis dau fis) yw:

> Daw adrannau X ac Y i rym ar ddiwedd y cyfnod o [ddau fis] sy'n dechrau â'r diwrnod y caiff y Ddeddf hon y Cydsyniad Brenhinol.

(2) Pan fo'r ddarpariaeth o dan sylw yn rhoi pŵer neu'n gosod dyletswydd, mae adran 16 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 yn galluogi'r pŵer neu'r ddyletswydd i gael eu harfer at ddibenion penodol cyn i'r ddarpariaeth ddod i rym.

## 10.8 Darpariaethau'n dod i rym drwy orchymyn

(1) Pan nad yw Deddf yn pennu ar ba ddiwrnod y mae darpariaeth i ddod i rym, bydd fel rheol yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i benodi'r diwrnod hwnnw.

(2) Dylai pŵer i Weinidogion Cymru i ddod â darpariaethau i rym fod ar ffurf pŵer i wneud gorchymyn drwy offeryn statudol. (Mae hyn yn eithriad i'r rheol gyffredinol y dylai pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth drwy offeryn statudol gael eu mynegi fel pwerau i wneud rheoliadau: gweler hefyd baragraff 9.2).

(3) At ei gilydd, mae'n gliriach dweud bod darpariaeth yn dod i rym ar ddiwrnod a benodir gan y Gweinidogion mewn gorchymyn, yn hytrach na dweud "yn unol â darpariaeth a wneir drwy orchymyn". Fe allai'r ffurfeiriad hwnnw adael amheuaeth a oes unrhyw bŵer pellach yn cael ei roi (e.e. i wneud darpariaeth drosiannol). Os oes angen pwerau ychwanegol, dylent gael eu rhoi mewn modd pendant.

(4) Dylai darpariaeth ynghylch diwrnod a benodir fod yn ddatganiad cadarnhaol ynghylch pa bryd y daw'r darpariaethau i rym, ar hyd y llinellau a ganlyn:

> Daw darpariaethau [eraill] y Ddeddf hon i rym ar ddiwrnod a bennir gan Weinidogion Cymru mewn gorchymyn a wneir drwy offeryn statudol.

(5) Osgowch ddefnyddio ffurf negyddol, megis dweud "nid yw'r darpariaethau'n dod i rym tan" ddiwrnod a benodir gan Weinidogion Cymru drwy orchymyn.

## 10.9 Darpariaethau yn dod i rym drwy orchymyn: darpariaethau atodol

(1) Pan geir pŵer i ddwyn darpariaethau mewn Deddf gan y Cynulliad i rym drwy orchymyn, mae adran 31 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 yn golygu y gall y pŵer gael ei arfer i ddod â darpariaethau i rym ar ddiwrnodau gwahanol at ddibenion gwahanol. Gan hynny, ni ddylai fod angen i Ddeddf gynnwys darpariaeth bendant ar gyfer cychwyn mewn modd gwahanol.

(2) Er hynny, bydd angen i'r adran ynghylch "dod i rym" ymdrin ar wahân â phopeth arall sy'n ymwneud â'r pŵer i ddod â darpariaethau i rym drwy orchymyn. Ni fydd adran gyffredinol o'r Ddeddf ynghylch rheoliadau yn gymwys i orchymyn o'r fath (ac ni ddylai fod yn gymwys, am y gall fod yn aneglur sut mae darpariaeth gyffredinol ynghylch is-ddeddfwriaeth yn gweithio o ran gorchmynion sy'n dod â darpariaethau i rym).

(3) Yn benodol, dylai'r adran ynghylch dod i rym wneud darpariaeth bendant ar gyfer unrhyw bŵer y mae ei angen i wneud darpariaeth drosiannol neu ddarfodol neu ddarpariaeth arbed. (Gweler Pennod 9 i gael canllawiau ar ystyr y termau hyn.) Pan fo angen pwerau i wneud y mathau hyn o ddarpariaeth, y ffurfeiriad safonol yw:

> Caiff gorchymyn o dan is-adran ( ) wneud darpariaeth drosiannol, darpariaeth ddarfodol neu ddarpariaeth arbed mewn cysylltiad â dod â darpariaeth yn y Ddeddf hon i rym.

(4) Er y dylai'r adran ddarparu ar gyfer gwneud darpariaethau ynghylch dod â darpariaethau i rym drwy offeryn statudol, nid yw gorchymyn o'r fath fel arfer yn ddarostyngedig i unrhyw weithdrefn Cynulliad. Wrth basio'r Bil, mae'r Cynulliad eisoes wedi cymeradwyo'r darpariaethau sydd i'w dwyn i rym.

(5) Sylwch nad yw adran 16 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019, sy'n galluogi rhai pwerau a dyletswyddau i gael eu harfer cyn bod y darpariaethau sy'n eu rhoi neu'n eu gosod mewn grym, yn gymwys pan fo darpariaeth i fod i ddod i rym drwy orchymyn.

## Darpariaethau eraill

### 10.10 Dim angen darpariaeth ynghylch rhychwant

(1) Mae gan y Deyrnas Unedig dair awdurdodaeth gyfreithiol: Cymru a Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae darpariaeth ynghylch rhychwant yn un o Ddeddfau Senedd y Deyrnas Unedig yn nodi'r awdurdodaeth neu'r awdurdodaethau y mae ei chyfraith neu eu cyfraith yn cael ei newid gan y Ddeddf. Mae angen iddi wneud hynny am y gall Senedd y Deyrnas Unedig ddeddfu ar gyfer pob un o'r tair awdurdodaeth.

(2) Mae Cymru yn ffurfio rhan o awdurdodaeth unedig Cymru a Lloegr. Ni all darpariaethau Deddf gan y Cynulliad ymestyn i unrhyw awdurdodaeth arall. O ganlyniad does dim angen cynnwys darpariaeth ynghylch rhychwant mewn gan y Deddf gan y Cynulliad yn dweud wrth y darllenydd ei bod yn ffurfio rhan o gyfraith Cymru a Lloegr (ac nad yw'n ffurfio rhan o gyfraith yr Alban neu Ogledd Iwerddon). Dim ond i Gymru a Lloegr y byddai darpariaeth o'r fath ei hunan yn ymestyn.

(3) Er bod y darpariaethau mewn Deddf gan y Cynulliad yn ffurfio rhan o gyfraith Cymru a Lloegr, yn gyffredinol dim ond i bethau a wneir yng Nghymru y gallant fod yn gymwys.[44] Dylai cymhwysiad tiriogaethol darpariaethau gael eu hegluro yn y Ddeddf yn glir, ond fel rheol ni ddylai hyn gael ei adael i'w drin yn y darpariaethau cyffredinol ar ddiwedd y Ddeddf.

(4) I gael canllawiau ar ymdrin â materion sy'n ymwneud â chymhwyso a rhychwant mewn diwygiadau i ddeddfwriaeth arall, gweler paragraff 7.28.

### 10.11 Enw byr

(1) Mae Penderfyniad y Llywydd o ran y Ffurf Briodol ar gyfer Biliau Cyhoeddus yn gofyn am ddarpariaeth ar gyfer enw byr. O ran cysondeb, dylid defnyddio'r geiriad a ganlyn bob tro i gyflwyno'r enw byr:

> Enw byr y Ddeddf hon yw…

(2) Dylai enw byr Bil:

(a) bod yn fyr er mwyn darparu label cyfleus i ddefnyddwyr y ddeddfwriaeth gyfeirio ato yn y dyfodol;

(b) cwmpasu popeth sy'n mynd ymlaen yn y Bil;

(c) gosod y Bil yn eglur o fewn unrhyw gorpws cyfreithiol y mae'n perthyn yn agos iddo (er enghraifft, cyfraith yr amgylchedd) a bod yn gyson ag enwau blaenorol.

(3) Mae'n arbennig o bwysig bod yr enw byr yn rhoi disgrifiad cywir o gynnwys y Bil. Mae Penderfyniad y Llywydd yn nodi y dylai enwau byr "fod yn ffeithiol a niwtral, a rhaid iddynt beidio â chynnwys deunydd sydd wedi ei fwriadu i hyrwyddo neu gyfiawnhau'r polisi y tu ôl i'r Bil, neu or-ddweud ei effaith".

44 Deddf Llywodraeth Cymru 2006, adran 108A(2)(b), (3) i (5) a (7).

(4) Dylai’r enw byr fod yn y ffurf “Deddf [Disgrifiad] (Cymru) [blwyddyn]”. Ond os yw’r disgrifiad o’r pwnc eisoes yn cynnwys “Cymru”, er enghraifft am fod y Bil yn ymwneud a chorff cyhoeddus y mae ei enw’r cynnwys y gair, ni ddylai gael ei ailadrodd mewn cromfachau.

(5) Wrth gyflwyno Bil, y flwyddyn y dylid ei rhoi yn ei enw byr yw’r flwyddyn y disgwylir iddo gael y Cydsyniad Brenhinol. Os bydd y Cydsyniad Brenhinol yn cael ei roi mewn gwirionedd mewn blwyddyn wahanol, bydd angen newidiadau argraffu fel bod y Ddeddf a gyhoeddir yn rhoi’r flwyddyn gywir.

# Atodiad: Deunydd Darllen

## Cyhoeddiadau ar ddrafftio cyfreithiau a dehongli statudau


Asprey, *Plain Language for Lawyers* (4ydd argraffiad, Federation Press, 2010)

Bailey and Norbury, *Bennion on Statutory Interpretation* (7fed argraffiad, LexisNexis, 2017 ac Atodiad i'r 7fed argraffiad, 2019)

Butt and Castle, *Modern Legal Drafting* (3ydd argraffiad, Cambridge University Press, 2013)

Dickerson, *The Fundamentals of Legal Drafting* (Little, Brown, 1965)

Dickerson, "How to Write a Law" (1955) 31 Notre Dame L Rev 14
**https://scholarship.law.nd.edu/cgi/viewcontent.cgi?article=3602&context=ndlr**

Greenberg, *Craies on Legislation* (11eg argraffiad, Sweet & Maxwell, 2017)

MacLeod, *Principles of Legislative and Regulatory Drafting* (Hart Publishing, 2009)

Salembier, *Legal and Legislative Drafting* (Ail argraffiad, LexisNexis Canada, 2018)

Xanthaki, *Thornton's Legislative Drafting* (5ed argraffiad, Bloomsbury Professional, 2013)

Cymdeithas Cwnsleriaid Deddfwriaethol y Gymanwlad, *The Loophole* (1987- )
**http://www.calc.ngo/publications/loopholes**


## Cyhoeddiadau Llywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru


Llywodraeth Cymru, *Llawlyfr Deddfwriaeth ar Filiau'r Cynulliad* (2019)
**https://llyw.cymru/llawlyfr-deddfwriaeth-ar-filiaur-cynulliad**

Llywodraeth Cymru,
*Canllawiau Arddull Cyfiethu Deddfwriaethol* (Legislative Translation Style Guide)
*Geirfa Drafftio Deddfwriaethol* (Legislative Drafting Glossary)
**https://llyw.cymru/btc/adnoddau-eraill/deunyddiau-cyfeirio-deddfwriaethol**

Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2018)
**http://www.assembly.wales/cy/bus-home/Pages/bus-assembly-guidance.aspx**

Penderfyniad y Llywydd o ran Ffurf Briodol Biliau Cyhoeddus (2015) a Phenderfyniad o ran Ffurf Briodol Gwelliannau i Filiau Cyoeddus (2015)
**http://www.assembly.wales/cy/bus-home/Pages/bus-assembly-guidance.aspx**

## Canllawiau awdurdodaethau eraill ar ddrafftio a gweithdrefnau

### Y Deyrnas Unedig

Swyddfa Cwnsleriaid y Senedd, *Drafting Guidance* (2018)
**https://www.gov.uk/government/collections/the-office-of-the-parliamentary-counsel-guidance**

Swyddfa'r Cabinet, *Guide to Making Legislation* (2017)
**https://www.gov.uk/government/publications/guide-to-making-legislation**

Gwasanaeth Cyfreithiol y Llywodraeth, *GLS Statutory Instrument Drafting Guidance* (2018)
Ar gael i gyfreithwyr y llywodraeth drwy adran is-ddeddfwriaeth LION:
**https://lion.governmentlegal.gov.uk/the-law/legal-topics/secondary-legislation.aspx**

Yr Archifau Gwladol, *Statutory Instrument Practice* (5ed argraffiad, 2017)
**http://www.nationalarchives.gov.uk/documents/f0051073-si-practice-5th-edition.pdf**

Cyllid y Wlad, *Tax Law Rewrite: The Way Forward* (1996)
(gweler yn benodol "Annex 1: Guidelines for the rewrite")
**http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20140206215222/http://www.hmrc.gov.uk/rewrite/wayforward/menu.htm**

### Yr Alban

Swyddfa Cwnsleriaid y Senedd, *Drafting Matters!* (Ail argraffiad, 2018)
**https://www.gov.scot/publications/drafting-matters/**

Swyddfa Cwnsleriaid Senedd yr Alban, *Plain Language and Legislation* (2006)
**https://www2.gov.scot/resource/doc/93488/0022476.pdf**

### Awstralia

Llywodraeth Awstralia, Swyddfa Cwnsleriaid y Senedd, *Drafting Manual* (2016)
and *Plain English Manual* (1993)
**http://www.opc.gov.au/about/draft_manuals.htm**

Llywodraeth Awstralia, Swyddfa Cwnsleriaid y Senedd, *Reducing Complexity in Legislation* (2016)
**http://www.opc.gov.au/about/docs/ReducingComplexity.pdf**

Comisiwn Diwygio Cyfraith Victoria, *Plain English and the Law* (1987; ailgyhoeddwyd 2017)
**http://www.lawreform.vic.gov.au/projects/plain-english-and-law-1987-report**

### Canllawiau eraill o'r Gymanwlad

Ysgrifenyddiaeth y Gymanwlad, *Commonwealth Legislative Drafting Manual* (2017)
**https://dx.doi.org/10.14217/9781848599635-en**

Llywodraeth Canada, Yr Adran Gyfiawnder, *Legistics*
**http://canada.justice.gc.ca/eng/rp-pr/csj-sjc/legis-redact/legistics/toc-tdm.asp**

Llywodraeth Seland Newydd, Swyddfa Cwnsleriaid y Senedd, *Principles of Clear Drafting*
**http://www.pco.govt.nz/clear-drafting/**